



Polisi Trwyddedu Tacsî a Hurio Preifat Cyngor Sir Fynwy 2023

1 Ebrill 2023

Mae modd derbyn mwy o wybodaeth gan:

Yr Adran Drwyddedu

Cyngor Sir Fynwy

Canolfan Addysgu Gymunedol y Fenni

Hen Heol Henffordd

Y Fenni

NP7 6EL

Ffôn: 01873 735420

E-bost: licensing@monmouthshire.gov.uk

Gwefan: www.monmouthshire.gov.uk/licensing

Polisi Tacsî a Hurio Preifat

Cyngor Sir Fynwy

Cynnwys

Tabl o'r Cynnwys

Cyflwyniad	6
Gweithredu'r Polisi:	6
Nod ac Amcanion y Polisi	8
Y broses drwyddedu a dirprwy'r swyddogaethau	8
Gwyro o'r Polisi	8
Ffioedd y Drwydded	9
Trwyddedau Gyrrwyr Cerbydau Hackney a Hurio Preifat	10
Gofynion y Drwydded	10
Hyd y Drwydded	10
Y Broses Gais	10
Ffitrwydd a Phriodoldeb	11
Gwiriad DBS	12
Gwiriad cofnodion troseddol tramor	13
Profiad a Gyrru Safonau	14
Gwiriadau Meddygol	14
Dyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb	15
Cŵn Cyorthl	16
Polisi Eithriad Meddygol o'r Ddeddf Cydraddoldeb	16
Polisi Gwybodaeth Topograffig ac Amodau Trwyddedu (Profion Gwybodaeth y Gyrrwyr)	17
Medrusrwydd a Chymwysterau Gyrru	18
Hyfforddiant Diogelu	18
Ymwybyddiaeth o Anabledd	19
Ymgeiswyr sydd yn siarad Saesneg / Cymraeg fel ail iaith	20
Gwirio'r hawl i weithio	20
Gwiriadau treth gorfodol	20
Ymddygiad y Gyrrwr	21
Cod Gwisg Gyrrwr	21
Gyrrwr Hurio Preifat	21
Is-ddeddfau Cerbydau Hackney	21
Cofrestr genedlaethol ar gyfer dirymu neu atal trwyddedu Cerbydau Hackney a Hurio Preifat (NR3)	21
Cerbydau Hackney a Cherbydau Hurio Preifat	23
Y broses gais	23
Ffitrwydd a Phriodoldeb y Perchennog	23
Gwiriad DBS	23
Gwiriad Cofnodion Troseddol Tramor	24
Adeiladwaith Cerbydau Cyffredinol	25

<u>Addasiadau/cyfarpar ychwanegol</u>	25
<u>Manylebau'r cerbyd</u>	25
<u>Amodau Trwydded y Cerbyd</u>	26
<u>Hyd y Drwydded</u>	26
<u>Oedran y Cerbyd</u>	26
<u>Polisi Allyriadau Cerbyd / Amgylcheddol</u>	26
<u>Yswiriant</u>	29
<u>Tystysgrif Cofrestru V5</u>	29
<u>Cofnodi Damweiniau</u>	29
<u>Ffioedd</u>	30
<u>Mesuryddion Tacsï</u>	31
<u>Mesuryddion GPS /systemau rheoli a danfon</u>	32
<u>Camerâu Cylch Cyfyng (CCTV)</u>	32
<u>Systemau Fideo Pwynt Trawiad (Dash Cam)</u>	32
<u>Eiddo Coll</u>	33
<u>Arwyddion</u>	33
<u>Hysbysebu</u>	33
<u>Talu â Chedryn</u>	34
<u>Hygyrchedd</u>	34
<u>Amodau Trwydded Cerbydau Hackney</u>	35
<u>Car a Cheffyl (Cerbydau Hackney Yn Unig)</u>	35
<u>Amodau Trwydded Cerbydau Hurio Preifat</u>	36
<u>Hurio Gweithredol (Hurio Preifat Yn Unig)</u>	36
<u>Cerbydau 'Novelty' Hurio Preifat ar gyfer Digwyddiadau Arbennig gan gynnwys Cerbydau Limousine</u>	37
<u>Darpariaeth ychwanegol ar gyfer Cerbydau Hackney</u>	37
<u>Cyfyngiadau ar Niferoedd</u>	37
<u>Safleoedd Taxis (cyfeirir atynt yn gyfreithiol fel safleoedd Cerbydau Hackney)</u>	38
<u>Gweithredwyr Hurio Preifat</u>	39
<u>Y Broses Gais</u>	39
<u>Hyd y Drwydded</u>	39
<u>Cyfrifoldebau a Ffitrwydd/Priodoldeb y Gweithredwr</u>	39
<u>Gwiriad DBS</u>	40
<u>Gwiriad Cofnodion Troseddol Tramor</u>	41
<u>Amodau'r Drwydded</u>	41
<u>Cydymffurfiaeth a Gorfodaeth Gyffredinol</u>	42
<u>Hunan-adrodd gan Ddeiliaid y Drwydded</u>	43
<u>Gweithdrefn Ddisgyblu</u>	43
<u>Cynllun Pwyntiau Cosb</u>	44
<u>Apeliadau</u>	45
<u>Gweithio mewn Partneriaeth</u>	45
<u>Ceisiadau a Chwynion am y Gwasanaeth</u>	45
<u>Gorfodaeth ar draws Ffiniau</u>	46
<u>Atodiad 1</u>	47
<u>Gweithdrefn/canllaw gwneud cais ar gyfer Gyrwyr</u>	47
<u>Atodiad 2</u>	48
<u>Institute of Licensing's 'Guidance on determining the suitability of applicants and licensees in the Hackney and private hire trades' Ebrill 2018.</u>	48
<u>Tabl o'r ddirprwyaeth</u>	48
<u>Atodiad 3</u>	51
<u>Taxis a cherbydau Hurio Preifat: polisi eithriad meddygol o'r Ddeddf Cydraddoldeb</u>	51

Atodiad 4	56
Canllaw'r Hawl i Weithio	56
Atodiad 5	57
Cod Ymddygiad Gyrwyr Cerbydau Hackney / Hurio Preifat.	57
Atodiad 6	61
Cod Gwisg Gyrwyr Cerbydau Hackney /Hurio Preifat	61
Atodiad 7	62
Amodau Gyrwyr Hurio Preifat	62
Atodiad 8	65
Is-ddeddfau Cerbydau Hackney	65
Atodiad 9	68
Y Broses Gais ar gyfer Cerbydau	68
Atodiad 10 Manylebau Cerbydau Hackney ac Atodiad 12 Amodau Trwydded Cerbydau Hackney	69
Amodau Cerbydau Hackney	69
Hackney Carriage Vehicle Licence Conditions	69
Manylebau	69
Math o Gerbyd	70
PLATIAU, ARWYDDION, HYSBYSEBU A LLIWIAU	70
NEWID AMGYLCHIADAU	70
DYCHWEL YD PLATIAU	71
YSWIRIANT	71
CYNLLUN SEDDI A'R RHAN SY'N DAL BAGIAU	71
ADDASU'R CERBYD	72
FFENESTRI WEDI'U TINTIO	72
PROFION AR GYFER CERBYDAU	72
CYFARPAR Y CERBYDAU	73
HYSBYSEBU	73
SYSTEMAU SŴN, FIDEO A RECORDIO	73
DIM YSMYGU YN Y CERBYD	73
MESURYDDION A FFIOEDD	74
EIDDO COLL	74
Atodiad 11 Manylebau Hurio Preifat ac Atodiad 13 Amodau Trwydded Hurio Preifat	76
AMODAU TRWYDDED CERBYDAU HURIO PREIFAT	76
MANYLEBAU	76
PLATIAU, ARWYDDION, HYSBYSEBU A LLIWIAU	77
NEWID AMGYLCHIADAU	77
DYCHWEL YD PLÂT	78
YSWIRIANT	78
CYNLLUN SEDDI A'R RHAN SY'N DAL BAGIAU	78
ADDASU'R CERBYD	79
FFENESTRI WEDI'U TINTIO	79
PROFION AR GYFER Y CERBYDAU	79
CYFARPAR Y CERBYDAU	80
SYSTEMAU SŴN, FIDEO A RECORDIO	80
DIM YSMYGU YN Y CERBYD	90
MESURYDDION A FFIOEDD	81
EIDDO COLL	81
Atodiad 17.	82
Tabl o Ffioedd Cerbydau Hackney	82
Atodiad 18	83
Polisi Camerâu Cylch Cyfyng	83

<u>Atodiad 19.</u>	100
<u>Systemau Fideo Pwynt Trawiad (Dash Cam)</u>	100
<u>Atodiad 20</u>	102
<u>Polisi Llifrai'r Cerbydau</u>	102
<u>Atodiad 21</u>	104
<u>Polisi Hysbysebu'r Cerbydau</u>	104
<u>Atodiad 22</u>	105
<u>Car a Cheffyl (Cerbydau Hackney Yn Unig)</u>	105
<u>Atodiad 23</u>	108
<u>Tuk Tuks a Rickshaws Trydan (pedicabs)</u>	108
<u>Atodiad 24</u>	111
<u>Polisi Trwyddedu Cerbydau Limousine</u>	111
<u>Atodiad 25</u>	112
<u>Polisi Trwyddedu Cerbydau Gwahanol/ Digwyddiadau Arbennig</u>	112
<u>Cerbydau ar Gontract</u>	112
<u>Polisi ar Gerbydau Digwyddiadau Arbennig: Yn cynnwys Limousine, Cerbydau ar gyfer Cadeiriau</u>	
<u>Olwyn a Cherbydau 'Prestige'</u>	112
<u>Amodau Cerbydau Limousine</u>	113
<u>Amodau Cerbydau Moethus</u>	114
<u>Atodiad 26</u>	116
<u>Y Broses Gais ar gyfer Gweithredwyr Hurio Preifat</u>	116
<u>Atodiad 27</u>	117
<u>Amodau Trwydded ar gyfer Gweithredwyr Hurio Preifat</u>	117
<u>Atodiad 28</u>	125
<u>Cynllun Pwyntiau Cosb</u>	125

Cyflwyniad

Mae Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat yn ffurf hanfodol o drafnidiaeth gyhoeddus. Maent yn cynnig datrysiad trafndiaeth uniongyrchol ymarferol a'n darparu gwasanaeth hanfodol i; pobl sydd yn byw mewn cymunedau gwledig lle y mae ffurfiau eraill o drafnidiaeth gyhoeddus yn annigonol, yr economi nos, teithwyr ag anabledd a'n meddu ar rôl yn mynd i'r afael gydag arwahanrwydd cymdeithasol.

Mae'n hanfodol fod Cerbydau Hackney a Hurio Preifat yn cwrdd â safonau rheoleiddio ac yn medru cludo teithwyr yn ddiogel a'n gyfforddus, a'n sicrhau bod cwsmeriaid yn cael profiad positif.

Bydd y polisi yma a'r gweithdrefnau perthnasol yn rhoi cyngor i ymgeiswyr am y safonau a'r gofynion y mae'n rhaid cwrdd â hwy a'n llywio'r Cyngor yn y modd y mae'n ymgymryd gyda'i swyddogaethau trwyddedu. **Bydd y polisi yn cael ei adolygu bob 5 mlynedd ac yn amodol ar adolygiadau dros dro os oes angen.**

Gweithredu'r Polisi:

Cyngor Sir Fynwy yw'r Awdurdod Trwyddedu o dan Ddeddf (Darpariaethau Amrywiol) Llywodraeth Leol 1976 (fel y'i diwygir) a Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847. Rhaid i'r Awdurdod ymgymryd gyda'i ddyletswyddau trwyddedu o ran:

- Trwyddedau Cerbydau Hackney
- Trwyddedau Gyrwyr Cerbydau Hackney
- Trwyddedau Cerbydau Hurio Preifat
- Trwyddedau Gyrwyr Hurio Preifat
- Trwyddedau Gweithredwyr Hurio Preifat

Bydd y Polisi yn berthnasol i'r mathau o drwydded sydd wedi eu rhestru uchod. Drwy gydol y Polisi hwn, mae unrhyw gyfeiriad at y termau cyffredinol canlynol yn golygu:

- 'gyrrwr' – yn cyfeirio at yrrwr cerbyd Hackney neu Hurio Preifat
- 'cerbyd' - yn cyfeirio at gerbyd Hackney neu Hurio Preifat
- 'taksi' - yn cyfeirio at gerbyd Hackney
- 'PHV' yn cyfeirio at gerbyd Hurio Preifat
- 'gweithredwr' – yn cyfeirio at weithredwr Hurio Preifat
- 'Perchennog' - yn cyfeirio at berchennog cerbyd Hackney neu Hurio Preifat
- 'Deiliad y Drwydded' - yn cyfeirio at ddeiliaid trwydded gyrrwr Cerbyd Hackney neu Hurio Preifat, trwydded cerbyd Hackney neu Hurio Preifat, neu drwydded Gweithredwr Hurio Preifat.
- 'Y Cyngor' sydd yn golygu Cyngor Sir Fynwy

- ‘Swyddog Cyngor Awdurdodedig’ sydd yn golygu unrhyw swyddog yn y Cyngor sydd wedi ei awdurdodi o dan Gynllun Dirprwyaeth y Cyngor fel sydd wedi ei gynnwys yn y Cyfansoddiad
- Plât trwydded’ neu’r ‘plât’ sydd yn cyfeirio at blât trwydded y cerbyd, sydd yn cael ei roi i bob cerbyd ac angen ei arddangos ar y cefn, oni bai bod y cerbyd wedi ei eithrio
- ‘Y Pwyllgor’ sydd yn golygu Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio’r Cyngor

Wrth ymgymryd â’i swyddogaethau trwyddedu, bydd yr Awdurdodau Trwyddedu yn ystyried y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847
- Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywio) 1976
- Deddf Trafnidiaeth 1985
- Deddf Diogelu Amgylcheddol 1990
- Deddf Iechyd 2006
- Rheoliadau Di-fwg (Adeiladau a Gorfodaeth)
- Rheoliadau Di-fwg (Gweithredwyr Cerbydau a Hysbysiadau Cosb) 2007
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
- Deddf Diogelu Data 2018
- Deddf Mewnfudo 2016
- Deddf hawliau Dynol 1998
- Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriad) (Diwygiad) 2002
- Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae ystyriaethau wedi eu rhoi i ddeddfwriaeth a chanllawiau eraill gan gynnwys:

- Canllaw ar Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Mawrth 2014)
- Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)
- Canllaw ar God Cymhwysra Rheoleiddwyr 2014
- “Canllaw Arferion Gorau Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat” yr Adran Drafnidiaeth (Mawrth 2010)
- “Safonau Statudol Tacsis a Hurio Preifat” yr Adran Drafnidiaeth Gorffennaf 2020
- Llywodraeth Cymru – “Tacsis a cherbydau Hurio Preifat: Canllaw Trwyddedu” Mawrth 2021

Nod ac Amcanion y Polisi

Nod cyffredinol trwyddedu Cerbydau Hackney a Hurio Preifat yw amddiffyn y cyhoedd a hyrwyddo diogelwch y cyhoedd.

Mae'r gwaith o drwyddedu tacsis a cherbydau Hurio Preifat wedi ei ddatganoli yng Nghymru. Yn nogfen Llywodraeth Cymru: "[Taxi and private hire vehicles: Licensing Guidance](#)", mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r canlynol fel rhan o'i gweledigaeth:

'Ein nod yw diweddarau ein system drwyddedu tacsis a cherbydau Hurio Preifat fel ei bod yn addas at y diben yn y Gymru fodern. Rydym am greu un safon gyson a gaiff ei chymhwyso ledled Cymru, sy'n hyrwyddo diogelwch, yn cyfrannu at amgylchedd glanach, yn gwella profiad y cwsmer, ac yn hygyrch i bawb.'

Mae Cyngor Sir Fynwy yn cytuno gyda'r weledigaeth hon ac yn mynd i weithio tuag at y nod a'r pedwar amcan canlynol:

- **Diogelwch** - Sicrhau bod gweithredwyr, cerbydau a gyrwyr yn ddiogel ac yn addas i'w trwyddedu.
- **Yr Amgylchedd** - dylai cerbydau Trwyddedig gyfrannu at dargedau ar gyfer amgylchedd glanach.
- **Cydraddoldeb** - Dylai pob teithiwr gallu cael gafael ar gerbyd addas. Bydd gyrwyr a gweithredwyr yn darparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion y cwsmer.
- **Profiad y Cwsmer**: Dylai pob cwsmer gael profiad o dderbyn safon dda pan yn defnyddio tacsî/cerbyd Hurio Preifat

Y broses drwyddedu a dirprwyo swyddogaethau

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi pwy sydd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau am faterion sydd yn ymwneud gyda thrwyddedu tacsis.

Mae'r Cyngor yn gweithredu cynllun o ddirprwyaeth lle y mae pwerau penodol wedi eu dirprwyo i'r Swyddogion Awdurdodedig ac Aelodau Etholedig sydd yn rhan o'r Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio. Mae copi o'r Cyfansoddiad, sy'n cynnwys y Cynllun o Ddirprwyaeth, ar gael ar wefan y Cyngor neu ar gael ar gais. Mae tabl o ddirprwyaeth sydd yn ymwneud ag a yw ymgeisydd neu Ddeiliad Trwydded yn "ffit a'n briodol" i'w weld yn Atodiad 2.

Gwyro o'r Polisi

Wrth arfer disgresiwn tra'n ymgymryd â'i swyddogaethau, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried y Polisi yma a'r amcanion sydd yn rhan o hyn.

Os oes angen i'r Awdurdod Trwyddedu i wro'n sylweddol o'r Polisi yma, a byddwn yn rhoi rhesymau eglur a sylweddol am wneud hyn gan gynnwys unrhyw ganllawiau statudol sydd wedi eu cyhoeddi gan y Llywodraeth.

Ffioedd y Drwydded

Bydd ffioedd y drwydded yn cael eu gosod er mwyn caniatáu'r Awdurdod Trwyddedu i hawlio'r costau sydd yn rhan o'r gwaith gweinyddol, gwneud gwaith arall a gorfodaeth sydd yn rhan o bob cyfundrefn drwyddedu, cyn belled â bod hawl gwneud hyn yn ôl statud. Bydd y ffioedd yn cael eu hadolygu o dro i dro a bydd unrhyw arian dros ben neu ddiffygion yn cael eu hystyried y tro nesaf y byddwn y gosod y ffioedd.

Mae'r ffioedd trwyddedu cyfredol i'w gweld ar wefan y Cyngor.

www.monmouthshire.gov.uk/licensing/taxi-licence

Trwyddedau Gyrwyr Cerbydau Hackney a Hurio Preifat

Gofynion y Drwydded

Mae unrhyw berson sydd yn gyrru Cerbyd Hackney neu Gerbyd Hurio Preifat angen meddu ar y drwydded ddilys.

Mae trwyddedau ar gyfer gyrwyr Cerbydau Hackney yn cael eu caniatáu yn unol ag adran 46 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847.

Mae trwyddedau ar gyfer gyrwyr cerbydau preifat yn cael eu caniatáu yn unol ag adran 51 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn caniatáu "Trwydded Ddeublyg" er mwyn caniatáu gyrwyr i yrru Cerbydau Hackney a Cherbydau Hurio Preifat yn gyfreithlon yn Sir Fynwy.

Mae unrhyw gyfeiriad yn yr adran hon at 'drwydded gyrrwr' yn cyfeirio at drwydded gyrwyr Cerbydau Hackney a Hurio Preifat.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cyhoeddi trwydded gyrrwr i ymgeiswyr sydd yn cael eu hystyried fel rhai sy'n 'ffit a'n briodol' i feddu ar drwydded, a bydd hyn yn caniatáu bod modd gyrru Cerbydau Hackney a Cherbydau Hurio Preifat.

Hyd y Drwydded

Bydd y trwyddedau ar gyfer gyrwyr yn cael eu rhoi am 3 blynedd fel arfer; ond mae'r Awdurdod Trwyddedu yn meddu ar y disgresiwn i roi trwydded am gyfnod llai pan mae'n credu bod hyn briodol yn amgylchiadau'r fath achos neu ar gais yr ymgeisydd.

Y Broses Gais

Mae'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais a'r canllaw perthnasol ar gyfer sicrhau trwydded i yrru Cerbydau Hackney/Hurio Preifat ar gael yn **Atodiad 1**.

Ffitrwydd a Phriodoldeb

Pwrrpas y gofynion canlynol y broses drwyddedu yw helpu'r Awdurdod Trwyddedu i benderfynu a yw'r ymgeisydd/gyrrwr yn berson 'ffit a phriodol' i feddu ar drwydded neu barhau i feddu ar drwydded.

Yn sgil absenoldeb cyfreithiol o 'ffit a phriodol', bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn defnyddio'r prawf canlynol:

Without any prejudice, and based on the information before them, would the Officer/Members charged with the ability to grant a licence allow their son or daughter, spouse or partner, mother or father, grandson or granddaughter, or any other person for whom they care, to get into a licensed vehicle with the applicant alone at any time of day or night.

Er mwyn helpu gyda deall y dehongliad o'r diffiniad hwn, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried materion sydd yn eu helpu ystyried a yw ymgeiswyr yn yrwyr diogel gyda hanes da o yrru, yn ffit mewn cyd-destun meddyliol a ffisegol, yn onest ac nid ydynt y fath o berson a fyddai'n cymryd mantais o'r ac yn cam-drin, ymosod neu dwyllo aelodau o'r cyhoedd.

Pan fyddwn yn asesu ffitrwydd ymgeisydd i feddu ar drwydded ar gyfer gyrrwyr. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried a oes hanes o droseddu gan yr ymgeisydd ynghyd â phob math o dystiolaeth berthnasol gan gynnwys gwybodaeth a'r hyn sy'n wybyddus am ei hanes (e.e. cwynion neu ganmoliaeth i'r cyhoedd, cydymffurfiaeth gydag amodau trwydded a pharodrwydd i gydymffurfio gyda swyddogion trwydded) tra'n meddu ar drwydded gan yr Awdurdod Trwyddedu neu unrhyw awdurdod arall. Bydd sylw penodol yn cael ei roi i batrymau o ymddygiad, nid ots pryd y digwyddodd hyn, a hynny o ran troseddu ac unrhyw ymddygiad arall sydd yn golygu bod lles a diogelwch aelodau o'r cyhoedd o bosib mewn peryg yn sgil yr ymgeisydd.

Rhaid cydnabod hefyd y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried pob hanes troseddol, ymddygiad ac ati, doed a ddelo bod yr hanes neu ddigwyddiad wedi digwydd tra oedd ymgeiswyr yn gwneud gwaith mewn cerbyd Hackney neu Hurio Preifat ar y pryd neu os oedd hyn wedi digwydd yn ystod amser personol. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried a yw'r unigolyn yn debygol o gyflawni troseddau a/neu'n arddangos ymddygiad annerbyniol tra nad oedd yn gweithio mewn cerbyd Hackney neu Hurio Preifat yr un mor ddifrifol â bod hyn yn digwydd tra eu bod yn gweithio mewn cerbyd Hackney neu Hurio Preifat.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn rhoi ystyriaeth sylweddol i aelodau o'r cyhoedd hynny sy'n fregus fel pobl hŷn, plant heb gwmpeini, pobl anabl, menywod ar ben eu hunain, ymwelwyr tramor a phobl sydd wedi eu heffeithio gan ddiod neu sylweddau eraill.

Er mwyn asesu addasrwydd ymgeiswyr a deiliad swyddi, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried y canllaw hwn gan y Sefydliad Trwyddedu 'Guidance on

determining the suitability of applicants and licensees in the Hackney and private hire trades' Ebrill 2018.

Mae'r canllaw yn **Atodiad 2**, ger Tabl Dirprwyaeth y Cyngor.

Gwiriad DBS

Er mwyn bodloni'r Awdurdod eu bod yn bobl 'ffit a phriodol' rhaid i holl ymgeiswyr sydd am yrru cerbyd Hackney neu gerbyd Hurio Preifat fynd am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), sydd yn cynnwys gwirio'r rhestrau gwahardd gweithio gyda phlant ac oedolion. Ar gyfer gyrwyr Trwyddedug, bydd hyn yn cael ei ail-adrodd bob 6 mis.

Mae pob ymgeisydd/deiliad swydd yn cael ei annog yn gryf i gofrestru ar gyfer Gwasanaeth Diweddariad DBS a chynnal y tanysgrifiad tra eu bod yn meddu ar y drwydded. Rhaid i deiliad y drwydded roi caniatâd i'r Awdurdod Trwyddedu i gynnal gwiriad o'i statws DBS. Os nad oes modd darparu'r gwiriad DBS yma bob 6 mis, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn atal trwydded y gyrrwr tan fod y wybodaeth briodol yn cael ei darparu neu'i rhannu.

Mae gyrwyr sydd am gyflwyno DBS bob mis yn hytrach na defnyddio "gwasanaeth diweddariad y DBS" angen cymryd cyfrifoldeb personol am sicrhau bod y gwiriad yn cael ei gwblhau a'i rannu gyda'r Awdurdod cyn diwedd bob 6 mis. Os na wneir hyn, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn atal trwydded y gyrrwr tan fod y wybodaeth briodol yn cael ei darparu neu'i rhannu. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn argymhell y dylid defnyddio "gwasanaeth diweddariad y DBS"

Noder nad yw'r Awdurdod yn medru hwyluso'r gwaith o rannu gwiriadau DBS o'r naill Gorff Cyhoeddus i'r llall.

Bydd unrhyw yrwyr na sydd yn talu am "wasanaeth diweddariad y DBS" fel sydd angen yn arwain atom yn gwahardd y drwydded.

Byddwn ond yn derbyn tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os yw'r dyddiad o fewn un mis calendr cyn y cais. Er mwyn asesu addasrwydd ymgeiswyr a deiliad trwydded, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried canllaw y Sefydliad Trwyddedu '[Guidance on determining the suitability of applicants and licensees in the Hackney and private hire trades](#)' Ebrill 2018.

Dylid nodi fod y byddwn yn gwrthod cais unrhyw ymgeisydd sydd yn ymddangos ar y rhestrau gwahardd gweithio gyda phlant neu oedolion, oni bai bod yna amgylchiadau eithriadol lle y mae'r Awdurdod Trwyddedu yn ystyried, wrth feddwl am bob dim, bod yr unigolyn 'ffit a'n briodol'.

Gwiriad Cofnodion Troseddol Tramor

Os yw ymgeisydd trwydded yrru ar gyfer y cerbydau Hackney neu Hurio Preifat wedi treulio 6 mis neu fwy yn barhaus y tu allan i'r Deyrnas Unedig ers eu pen-blwydd yn 10 mlwydd oed, bydd angen i'r Awdurdod Trwyddedu weld tystiolaeth o wiriad cofnod troseddol o'r wlad / gwledydd y maent wedi ymweld gyda hwy sydd yn cyfateb i'r cyfnod pan oedd yr ymgeisydd dramor.

Bydd angen i'r ymgeisydd dalu am y fath wiriadau.

Dylai'r gwiriadau yma fod ar gael ar gyfer dinasyddion yr UE (gan gynnwys dinasyddion y DU). Yn y gwledydd hynny lle nad yw'r gwiriadau ar gael, bydd angen i'r Awdurdod Trwyddedu dderbyn tystysgrif o ymddygiad da sydd wedi ei dilysu gan y llysgenhadaeth briodol. Rhaid bod hyn wedi ei ddilysu, ei gyfieithu a'i selio gan y Llysgenhadaeth neu'r Uwch Gomisiwn. Mae gwybodaeth am dystysgrifau ymddygiad da neu ddogfennau tebyg sydd i'w cael mewn nifer o wledydd ar gael ar wefan Lywodraeth y DU yma: [GOV.UK Criminal records checks for overseas applicants](https://www.gov.uk/criminal-records-checks-for-overseas-applicants).

Os nad yw'r ymgeisydd yn medru sicrhau tystysgrif o ymddygiad da, yna ni ddylent fwrw ymlaen gyda'r cais a dylent gysylltu gyda'r Awdurdod Trwyddedu am fwy o wybodaeth.

Rhaid cynnal y gwiriad yma o fewn 6 mis pan eich bod yn cyflwyno eich cais.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu angen tystysgrif o ymddygiad da sydd gan yr ymgeisydd ac nid oes ots beth yw oedran y ddogfen.

Bydd tystysgrif o ymddygiad da sydd mewn iaith estron angen ei chyfieithu a bydd rhaid i'r ymgeisydd dalu am hyn a bydd angen dilysu'r cyfieithiad hefyd.

Profiad a Safonau Gyrru

Rhaid i bob ymgeisydd feddu ar o leiaf blwyddyn o brofiad o yrru h.y. rhaid iddynt feddu ar drwydded yrru lawn ar gyfer y DU neu aelod o'r Undeb Ewropeaidd neu unrhyw "drwydded gyfnewidiol" fel sydd wedi ei ddiffinio gan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 am o leiaf blwyddyn cyn gwneud cais.

Ar adeg gwneud y cais, rhaid meddu ar drwydded yrru'r DU ar gyfer cerbydau Categori B am 12 mis. Mae manylion ynglŷn â sut i newid trwydded yrru dramor i drwydded yrru ar gyfer y DU ar gael yma: <https://www.gov.uk/exchange-foreign-driving-licence>

Er mwyn sicrhau bod safon gyrru'r ymgeisydd yn addas, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cynnal gwiriad o statws yr ymgeisydd gyda'r DVLA er mwyn edrych ar hanes gyrru'r ymgeisydd. Bydd hyn yn digwydd cyn caniatáu'r drwydded gyntaf,

pan yn adnewyddu'r drwydded ac unrhyw adeg y mae'r Awdurdod Trwyddedu yn credu sydd yn berthnasol.

Gwiriadau Meddygol

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod fod gyrwyr Trwyddedig yn gorfod cwrdd â safonau meddygol mwy llym na'r hyn sydd yn berthnasol i yrwyr arferol gan fod y cyhoedd yn disgwyl cael eu cludo yn ddiogel, maent yn gyrru am gyfnodau hwy, ac maent o bosib yn gorfod helpu teithwyr anabl a chario bagiau. Felly, mae rhaid i'r sawl sydd yn meddu ar drwydded yrru ar gyfer Cerbydau Hackney neu Hurio Preifat gwrdd â'r safonau meddygol Grŵp 2 y DVLA o ran ffitrwydd i yrru. Rhaid i Feddyg Teulu'r ymgeisydd neu Feddyg Teulu arall ym meddygfa'r ymgeisydd neu feddygfa sydd yn rhan o'r un busnes i gynnal y gwiriad yma er mwyn sicrhau bod modd edrych ar gofnodion meddygol yr ymgeisydd.

Mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, a gyda chytundeb yr Awdurdod Trwyddedu, bydd modd i Feddygfa gofrestredig arall i gynnal yr asesiad meddygol, ar yr amod bod y Meddyg Teulu yn medru gweld cofnodion meddygol llawn yr ymgeisydd.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn medru gofyn i unrhyw ddeiliad trwydded i ddarparu tystiolaeth sylweddol atodol ar ffurf tystysgrif feddygol sydd yn datgan bod y deiliad trwydded yn cwrdd â safonau Grŵp 2 y DVLA, a hynny os oes yna gwestiwn am ffitrwydd meddygol y deiliad trwydded.

Os oes unrhyw un sydd yn gwneud cais am drwydded newydd neu adnewyddu trwydded ond yn methu darparu'r dystiolaeth feddygol angenrheidiol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn medru gwrthod y cais am drwydded, gwrthod adnewyddu trwydded neu ddirymu trwydded.

Mae'r angen i ymgeiswyr/gyrwyr Trwyddedig i gwblhau asesiad meddygol fel a ganlyn:

- Pan yn gwneud cais, pob 5 mlynedd rhwng 45 a 65 mlwydd oed
- Pob blwyddyn pan fydd y gyrrwr yn 65 mlwydd oed neu'n hŷn
- Ar unrhyw adeg y mae'r Awdurdod Trwyddedu neu'r ymarferydd meddygol yn gwneud cais

Mae'r ffurflen feddygol yn ddilys am 4 mis ar ôl i'r meddyg, optegydd neu optometrydd ei arwyddo.

Rhaid i bob deiliad trwydded hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu ac unrhyw salwch neu gyflwr sydd yn effeithio ar ei allu i yrru.

Rhaid i bob ymgeisydd/deiliad trwydded dalu am y gost o sicrhau tystysgrif feddygol.

Mae'r ffurflen feddygol ar gael yma: [Medical report for taxi or private hire vehicle drivers licence: application form](#)

Dyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod nifer o ddyletswyddau cyfreithiol ar yrwyr Trwyddedig wrth gludo teithwyr ag anabledd.

Cadeiriau Olwyn

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswyddau ar yrwyr Cerbydau Hackney a Hurio Preifat sydd yn defnyddio cerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn i gludo teithwyr mewn cadeiriau olwyn gan ddarparu cymorth iddynt er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn rhesymol gysurus, a'n gwneud hynny heb unrhyw ffi ychwanegol.

Mae'r math o gymorth sydd o bosib ei angen yn cynnwys:

- Os yw'r teithiwr am aros yn y gadair olwyn, rhaid i'r gyrrwr i helpu'r teithiwr i fynd i mewn ac allan o'r cerbyd gan sicrhau bod y gadair olwyn yn ddiogel gyda manylebau'r cerbyd
- Os yw'r teithiwr am symud i sedd, rhaid helpu'r teithiwr i fynd i mewn ac allan o'r cerbyd yn unol gyda manylebau'r cerbyd.
- Os yw'r teithiwr am symud i sedd, rhaid i'r gyrrwr ei helpu symud allan o'r gadair olwyn ac i mewn i sedd ac yna nôl i mewn i'r gadair olwyn; rhaid i'r gyrrwr osod y gadair olwyn yn y cerbyd ac unrhyw fagiau.

Mae gyrrwyr sydd yn methu cydymffurfio gyda'r uchod heb reswm dilys yn troseddu ac o bosib yn medru cael ei ddirwyo hyd at £1,000 am bob trosedd os yn euog. Mae troseddau eraill yn medru arwain at drwyddedau tacsï yn cael eu dirymu neu'u hatal.

Caiff 'cadair olwyn' ei diffinio mewn statud fel a ganlyn: Hyd: 1200mm (tua. 48") gan gynnwys platiau troed Lled: 700mm (28") Cyfanswm uchder sedd: 1350mm (54") Uchder lle y mae'r traed yn gorffwys: 150mm (6")

Rydym yn credu y bydd y dimensiynau uchod yn briodol ar gyfer y rhan fwyaf o gadeiriau olwyn - ond yn cydnabod bod rhai cadeiriau olwyn arbenigol, fecanyddol neu sgwteri mudol, yn fwy na'r dimensiynau yma ac nid oes modd eu gosod a'u cludo yn ddiogel ym mhob math o dacsï. Yn y fath achosion, disgwylir i yrwyr asesu a oes modd cludo'r teithiwr yn y cerbyd yn ddiogel ac yn gysurus, neu eu cynorthwyo i chwilio am gerbyd amgen, os yn ymarferol. Efallai bod y fath amgylchiadau yn cynnig amddiffyniad i'r drosedd a nodir uchod.

Ym mhob achos, mae disgwyl i yrwyr drin teithwyr gyda pharch a sensitifrwydd gan gynnig esboniad eglur iddynt ynglŷn â pham nad ydynt yn medru eu cludo.

Cŵn Cymorth

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar Yrwyr Trwyddedig Cerbydau a Hurio Preifat i gludo cŵn tywys, clywed a mathau eraill o gŵn cymorth sydd gan bobl anabl, gan wneud hyn heb godi ffi ychwanegol.

Mae'r dyletswyddau yma yn berthnasol i gŵn sy'n cael eu darparu gan elusennau'r DU sy'n gysylltiedig gydag Assistance Dogs UK, mudiadau tramor cyfatebol neu gŵn cymorth sydd wedi eu hyfforddi gan eu perchnogion; nid oes ots os yw'r ci yn gwisgo harnais neu siaced neu'n meddu ar dystysgrif ffurfiol. Pan fydd teithiwr posib yn dweud ei fod am deithio gyda chi cymorth, rhaid derbyn hyn.

Mae cŵn cymorth yn cael eu hyfforddi i deithio gyda'u Perchennog gan orwedd fel arfer wrth draed y Perchennog, a bydd y Perchennog yn cyfarwyddo'r ci i mewn ac allan o'r cerbyd. Dylid gofyn i deithiwr sydd â chi cymorth os ydynt am eistedd rhywle arbennig - efallai bod rhai am eistedd yn y sedd flaen gan fod mwy o le ar gyfer y ci ger eu traed. Dylai gyrwyr fod yn barod i gynorthwyo'r fath deithwyr cyn belled ag sydd yn rhesymol; fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd y cŵn angen help i fynd i mewn ac allan o'r rhan fwyaf o gerbydau ac eithrio agor y drws. Ni ddylai gyrwyr geisio gwahanu'r ci cymorth o'r Perchennog gan fynnu fod y ci yn mynd i ran arall o'r cerbyd - mae hyn yn medru achosi trallod i'r ci a'r Perchennog. Mae cŵn cymorth yn medru yng nghefn y car os yw'r Perchennog yn cytuno gyda hyn.

Mae cŵn cymorth yn cael eu magu a'u dewis am eu bod yn addfwyn ac yn derbyn hyfforddiant arbenigol cyn dechrau yn eu rôl. Maent yn cael eu gwirio'n aml gan filfeddyg. Tra ein bod yn cydnabod bod nifer o yrwyr, na sy'n gyfarwydd gyda chŵn yn teimlo'n ansicr bod ci mor agos iddynt mewn car, nid yw hyn yn rheswm digonol dros wrthod cludo teithwyr â chi. At hyn, nid yw credoau crefyddol yn ddigon o sail i wrthod cludo cŵn cynorthwyo mewn tacsis a cherbydau Hurio Preifat, ac nid yw hyn yn gyson gyda gofynion cyfreithiol eraill o dan gyfraith y DU.

Polisi Eithriad Meddygol o'r Ddeddf Cydraddoldeb

Er mwyn gwella cydymffurfiaeth gyda gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb ac i gefnogi cydymffurfiaeth gyda gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb, ac i gefnogi gyrwyr sydd yn meddu ar gyflyrau meddygol gwirioneddol sydd yn eu hatal rhag ymgymryd â'u dyletswyddau yn llawn o dan y Ddeddf fel sydd wedi eu disgrifio uchod, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r **polisi Tacsis a cherbydau Hurio Preifat; eithriad meddygol o'r Ddeddf Cydraddoldeb** sydd yn **Atodiad 3**.

Polisi Gwybodaeth Topograffig ac Amodau Trwyddedu (Profion Gwybodaeth Gyrwyr)

Mae gyrwyr Cerbydau Hackney angen meddu ar ddealltwriaeth dda o'r ardal y maent wedi eu trwyddedu ar ei chyfer, gan fod gyrwyr yn medru cael eu hurio yn syth, yn uniongyrchol gyda'r teithiwr, a hynny mewn mannau ar gyfer Cerbydau Hackney neu ar ochr y stryd. Er mwyn cynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan yrwyr, ni fydd trwydded i yrru Cerbyd Hackney neu Hurio Preifat yn cael ei chaniatáu tan bod yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod yr ymgeisydd yn berson ffit a phriodol. Yn y cyd-destun hwn, mae'r gallu i ddod o leoedd a darllen mapiau yn hanfodol er mwyn medru darparu gwasanaeth o safon i deithwyr.

Er mwyn cadarnhau'r fath ffitrwydd, rhaid i ymgeiswyr gael prawf gyda hyfforddwr sydd wedi ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Trwyddedu er mwyn profi eu dealltwriaeth o'r canlynol:

- Saesneg Sylfaenol
- Rhifedd elfennol
- Prawf cyfathrebu a dealltwriaeth sylfaenol
- Lleoliadau lleoedd penodol o fewn Sir Fynwy
- Mae gyrwyr Cerbydau Hackney yn cael eu profi ar lwybrau penodol heb ddefnyddio map neu Sat Nav.
- Cyfraith Drwyddedu ar gyfer Cerbydau Hackney a Hurio Preifat
- Ymddygiad y Gyrrwr (hyfforddiant ar wahanol sydd yn cynnwys diogelu, pan fydd angen cludo plant ac oedolion Bregus. Bydd angen cwblhau hyfforddiant anwytho wrth adnewyddu'r drwydded.
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd.

Os nad yw gyrrwr yn medru cwblhau'r prawf yn ddigonol yn sgil trafferth yn siarad Saesneg, bydd cefnogaeth yn cael cynnig er mwyn iddynt helpu i feistrolï'r Saesneg. Bydd ymgeiswyr sydd yn methu'r prawf angen ail-sefyll prawf a thalu unrhyw ffi ychwanegol.

Os yw gyrrwr Trwyddedig yn Sir Fynwy yn methu ag adnewyddu ei drwydded, dylid cydnabod ei fod ef/hi yn amlwg yn anwybyddu'r gyfraith ac amodau perthnasol. Felly, bydd angen ail-sefyll y rhan hon o'r prawf a thalu'r costau priodol.

Medrusrwydd a Chymwysterau Gyrru

Mae'r Cyngor yn credu bod y prawf gyrru cyfredol yn cynnig digon o dystiolaeth am gymhwysedd Cerbydau Hackney a Hurio Preifat. Ystyriwyd na fydd cyflwyno anghenraid bod gyrwyr yn cwblhau prawf DVSA (Driving and Vehicle Standard Agency) neu gymhwyster cymhwysedd arall yn sicrhau buddion sydd yn gymesur gyda'r costau ynghlwm wrth hyn. Fodd bynnag, credir bod ymgeiswyr newydd sydd wedi casglu 6 pwynt cosb yn sgil troseddau traffig angen cwblhau Cwrs 'Pass Plus' neu gwrs sydd wedi ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Trwyddedu a darparu tystysgrif eu bod wedi pasio (ni ddylai hyn fod yn fwy na 12 mis yn ôl a rhaid i'r ymgeisydd dalu am hyn).

Hyfforddiant Diogelu

Mae gyrwyr Cerbydau Hackney a Hurio Preifat yn meddu ar gyfrifoldeb pwysig yn cludo teithwyr sydd yn talu mewn modd diogel. Disgwylir i yrwyr weithredu mewn modd proffesiynol drwy'r amser a darparu gwasanaeth cwsmer ardderchog.

Mae gyrwyr Trwyddedig yn aml yn gweithredu fel llygaid a chlustiau cymuned. Mae hyfforddiant yn medru bod yn bwysig yn cynorthwyo gyrwyr Trwyddedig i gydnabod pryd y maent yn cludo teithwyr sydd mewn peryg o gael eu cam-drin neu'u hecsbloetio.

Rhaid i bob ymgeisydd newydd ar gyfer trwydded yrru Cerbyd Hackney neu Hurio Preifat gwblhau hyfforddiant Diogelu gyda hyfforddwr sydd wedi ei awdurdodi gan yr Awdurdod Trwyddedu. Mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio ar yr hyn sydd yn gwneud oedolion a phlant yn fregus, trais, llinellau cyffuriau ac arwyddion o fasnachu pobl. Mae'n cynnwys esiamplau o deithiau amheus ynghyd â gwybodaeth am gynnal ffiniau proffesiynol.

Bydd angen i'r holl yrwyr i gwblhau sesiwn hyfforddi ar ddiogelu plant a phobl fregus.

Bydd y sesiwn hyfforddi yn cynnwys ymddygiad a chyfrifoldebau'r rhai sydd wedi eu trwyddedu. Yn benodol, bydd yn cynnig hyfforddiant er mwyn adnabod pobl fregus sydd angen eu diogelu a sut i sicrhau eu bod yn cael eu cludo i le diogel os oes angen gwneud hyn, yr angen i hysbysu'r awdurdodau fel yr Heddlu a/neu'r gwasanaethau cymdeithasol.

Bydd y darparwr hyfforddiant yn gorfod cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Trwyddedu. Rhaid cyflwyno tystysgrif i Gyngor Sir Fynwy er mwyn cadarnhau bod yr hyfforddiant wedi ei gwblhau. Bydd tystysgrifau ond yn cael eu derbyn gan ddarparwyr hyfforddi sydd wedi eu hawdurdodi gan yr Awdurdod Trwyddedu.

Bydd angen i ymgeiswyr newydd i fynychu'r hyfforddiant gan dalu am hyn eu hunain cyn cyflwyno'r cais.

Rhaid i'r holl yrwyr sydd am adnewyddu eu trwyddedau gyrru Cerbydau Hackney neu Hurio Preifat gwblhau sesiwn anwytho o ran Diogelu, a thalu am hyn cyn cyflwyno eu cais neu o fewn 3 mis o'r cais yn cael ei hadnewyddu. Os na wneir hyn, bydd y drwydded Cerbyd Hackney/Hurio Preifat yn cael ei hatal.

Ymwybyddiaeth Anabledd

Mae'r Cyngor angen bod yr holl weithredwyr a gyrwyr yn cydymffurfio gyda darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010, sydd yn meddu ar adrannau penodol sydd yn ymwneud gyda Gyrwyr Cerbydau Hackney a Hurio Preifat a'u cyfrifoldebau statudol wrth wasanaethu pobl anabl gan gynnwys y rhai sydd yn meddu ar gŵn cymorth, a sut i ymatal rhag gwahaniaethu yn erbyn y fath bobl.

Mae'r Cyngor yn cefnogi cerbydau sydd yn medru darparu gwasanaeth i bobl anabl ac yn annog gweithredwyr a gyrwyr i ddarparu gwasanaeth 24 awr i bobl anabl. Mae'r Cyngor yn annog darparu cerbydau sydd yn hygyrch i gadeiriau olwyn fel rhan o'r fasnach Hurio Preifat a Cherbydau Hackney yn Sir Fynwy.

Mae disgwyl i weithredwyr a gyrwyr i ddeall y dulliau diogel o gludo pobl anabl, pobl mewn cadeiriau olwyn neu beidio.

Mae'r Cyngor yn annog yr holl yrwyr i fynychu hyfforddiant ar sut i gynorthwyo pobl anabl; mae hyn yn ymdrin gyda'r sawl sydd mewn cadair olwyn ond hefyd pobl ag ystod o anabledau.

Mae anabledau yn cynnwys symudedd cyfyngedig neu wedi ei atal, anabledau clywed neu weld, trafferthion dysgu a nam meddyliol. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr; bydd darpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb yn cael ei ystyried wrth bennu a yw person yn anabl.

Rydym yn cynghori gyrwyr cerbydau sydd yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn i fynychu cwrs hyfforddi cydnabyddedig er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r gofynion iechyd a diogelwch ar gyfer cario a diogelu'r gadair olwyn.

Mae'r Cyngor yn medru adolygu trwydded unrhyw yrrwr/gweithredwr na sydd yn ymwybodol o anghenion pobl anabl. Ni fydd diffyg hyfforddiant/gwybodaeth ar ran y gyrrwr/gweithredwr yn cael i dderbyn fel amddiffyniad ar gyfer perfformiad/ymddygiad annigonol neu wahaniaethu.

Bydd rhaid i'r sawl sydd yn ymgeisio i fod yn yrwyr i gwblhau hyfforddiant Ymwybyddiaeth Anabledd a bydd hyn yn ffurfio rhan o'r prawf Gwybodaeth.

Ymgeiswyr sydd yn siarad Saesneg/Cymraeg fel ail iaith

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn croesawu ymgeiswyr o bob cefndir ethnig. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod gyrwyr yn medru cyfathrebu gyda theithwyr yn effeithiol yn Saesneg ac yn y Gymraeg hefyd os yn bosib. Dylent fedru darllen a deall y gofynion statudol sydd wedi eu gosod arnynt.

Os yw'n amlwg i'r Swyddogion Trwyddedu yn ystod bod y broses gais bod yr ymgeisydd yn methu deall neu gyfathrebu yn effeithiol yn Saesneg, bydd angen i'r ymgeisydd i gwblhau cwrs 'Skills for Life English for Speakers of Other Languages (ESOL)', neu gymhwyster cyfatebol ar lefel 3, a bydd rhaid iddynt dalu am hyn, cyn parhau gyda'r broses gais.

Gwirio'r hawl i weithio

Cyn medru caniatáu trwydded, rhaid i'r ymgeisydd o dan Ddeddf Mewnfudo 2016 brofi fod hawl ganddo ef neu hi i weithio yn y DU.

Unwaith bod hyn wedi ei brofi, ni fydd angen dangos prawf pellach oni bai bod yr hawl i weithio wedi ei gyfyngu o ran amser, a bydd angen prawf pellach wedyn i ddangos bod hawl parhau i weithio.

Mae rhestr o'r dogfennau derbyniol ar gyfer dangos hyn i'w gweld yn **Atodiad 4**

Ni fydd ymgeiswyr sydd yn methu arddangos y gallu i weithio yn y DU yn derbyn trwydded.

Os yw deiliad trwydded yn tramgwyddo cyfreithiau mewnfudo, bydd hyn yn cynnig sail i adolygu, amaeth neu ddirymu trwydded.

Os yw'r caniatâd ar gyfer aros yn y wlad yn cael ei hatal, bydd yn drosedd os yw gyrrwr Cerbyd Hackney, gyrwr Hurio Preifat neu Weithredwr Trwyddedig yn methu dychwelyd y drwydded i'r Awdurdod Trwyddedu a byddant o bosib yn cael eu dirwyo.

Gwiriadau treth gorfodol

O'r 1af Ebrill 2022, mae yna anghenraid statudol ar Awdurdodau Trwyddedu i gyfeirio gyrwyr newydd at ganllawiau CThEM a'u goblygiadau treth posib a chadarnhau bod yr ymgeisydd yn ymwybodol o'r canllaw yma cyn ystyried y cais. Os yw'r cais yn gais ar gyfer adnewyddu trwydded, mae angen i'r Awdurdod Trwyddedu, cyn ystyried y cais, gadarnhau gyda'r CThEM bod yr ymgeisydd wedi cwblhau gwiriad treth.

Bydd ymgeisydd yn cynnal gwiriad treth drwy ddarparu gwybodaeth er mwyn bodloni CThEM bod yr ymgeisydd wedi cadarnhau ei fod yn atebol i dalu treth, os yn berthnasol. Bydd y gwiriad yn cynnwys cwestiwn a yw'r incwm sydd yn deillio o weithgarwch Trwyddedig wedi ei ddatgan i'r CThEM. Bydd y gwiriad yn cael ei

gwblhau pan fydd y CThEM yn fodlon fod yr ymgeisydd wedi darparu'r holl wybodaeth sydd angen.

Ymddygiad y Gyrrwr

Disgwylir i yrwyr Trwyddedig i ymddwyn mewn modd proffesiynol a darparu gwasanaeth safon uchel drwy'r amser.

Mae Cod Ymddygiad Gyrrwr sydd yn **Atodiad 5** wedi ei ddatblygu er mwyn amlinellu'r safonau a ddisgwylir o yrwyr Trwyddedig ac yn rhan hanfodol o'r asesiad 'ffit a phrofiadol'.

Mae'r Cod hefyd yn rhoi cyngor i deithwyr posib o lefel y gwasanaeth y dylent ddisgwyl pan yn hurio cerbyd Trwyddedig.

Cod Gwisg Gyrrwr

Mae'n cael ei gydnabod bod y fasnach tacsî, boed yn Gerbyd Hackney a Hurio Preifat, yn chwarae rôl bwysig yn portreadu delwedd bositif o ardal. Mae manylion ynglŷn â chod gwisg y gyrrwr i'w gweld yn **Atodiad 6**

Gyrrwr Hurio Preifat

Mae amodau'r drwydded sydd yn berthnasol i yrwyr Hurio Preifat wedi eu manylu yn **Atodiad 7** o'r Polisi.

Is-ddeddfau Cerbydau Hackney

Mae is-ddeddfau sydd yn berthnasol i yrwyr a pherchnogion Cerbydau Hackney wedi eu manylu yn **Atodiad 8** o'r Polisi.

Y Gofrestr Genedlaethol ar gyfer dirymu neu atal trwyddedau Cerbydau Hackney neu Hurio Preifat (NR3)

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn darparu gwybodaeth i Gofrestr Genedlaethol ar gyfer dirymu neu atal Cerbydau Hackney neu Hurio Preifat (NR3), sef mecanwaith i awdurdodau lleol i rannu manylion am yr unigolion sydd wedi colli eu trwyddedau Cerbyd Hackney neu Hurio Preifat neu os yw cais wedi ei wrthod. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn ymgymryd â'r rôl er budd y cyhoedd neu'n gwneud y gwaith sydd ei angen gan Awdurdod Trwyddedu - hynny yw, asesu p'un ai bod unigolyn berson ffit a phriodol i feddu ar drwydded Cerbyd Hackney neu Hurio Preifat.

Felly:

- Os yw unigolion sydd wedi colli eu trwyddedau Cerbyd Hackney neu Hurio Preifat, neu fod cais wedi ei wrthod, bydd yr Awdurdod yn cofnodi'r penderfyniad hwn ar NR3.

- Mae'r holl geisiadau ar gyfer trwydded newydd neu adnewyddu trwydded yn cael eu gwirio'n awtomatig ar y NR3. Os ydym yn chwilio'r NR3 a bod achos yn cael ei amlygu, byddwn yn gofyn am wybodaeth bellach am y cais hwn ar y gofrestr, a hynny gan yr Awdurdod sydd wedi cofnodi'r wybodaeth. Bydd unrhyw wybodaeth sydd yn cael ei derbyn ar ôl chwilio'r gofrestr NR3 ond yn cael ei defnyddio at ddibenion y drwydded ac ni fydd y wybodaeth yn cael ei gadw ar ôl gwneud penderfyniad am y cais.

Bydd y wybodaeth ar y NR3 wedi ei gyfyngu i:

- enw
- dyddiad geni
- cyfeiriad a manylion cyswllt
- rhif yswiriant cenedlaethol
- rhif trwydded yrru
- penderfyniad a wnaed
- dyddiad y penderfyniad
- dyddiad y daeth y penderfyniad i rym

Bydd y wybodaeth yn cael ei gadw ar y NR3 am 25 mlynedd.

Mae hyn yn rhan hanfodol o'r drwydded ar gyfer Cerbydau Hackney / Hurio Preifat yn cael ei chaniatáu. Mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi polisi ar sut y bydd yn delio gyda cheisiadau am wybodaeth gan awdurdodau eraill am yr hyn sydd ar y gofrestr NR3, a'r defnydd y bydd yn gwneud o'r wybodaeth yma. Mae modd gwneud cais am y polisi yma drwy e-bostio licensing@monmouthshire.gov.uk

Bydd gwybodaeth yn cael ei brosesu yn unol gyda'r Ddeddf Diogelu Data a Rheoleiddio Diogelu Data Cyffredinol. Mae unrhyw waith chwilio, darparu neu dderbyn gwybodaeth sydd yn rhan o NR3 er mwyn caniatáu'r Awdurdod statudol i ymgymryd â'i swyddogaethau statudol yn ceisio sicrhau bod gyrwyr yn ffit a phriodol er mwyn dal y drwydded briodol. Ni cheir unrhyw fwriad i drosglwyddo data NR3 data y tu hwnt i'r Deyrnas Unedig.

Os ydych am godi mater sydd yn ymwneud gyda'r Ddeddf Diogelu Data, gan gynnwys dibynnu ar yr hawliau sydd yn cael ei roi i wrthrychau data o dan GDPR, mae modd gwneud hyn drwy gyflwyno cais i'r Swyddog Diogelu Data. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno cais am wybodaeth.

Mae hawl gennych i wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Mae cyngor ar sut i godi pryder ynglŷn â'r modd y mae data wedi ei drin ar gael ar wefan y Comisiynydd: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Cerbydau Hackney a Hurio Preifat

Y broses gais

Byddwn yn penderfynu ar bob cais ar sail ei rinweddau. Mae'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais am drwydded cerbyd wedi ei fanylu yn **Atodiad 9**.

Ffitrwydd a Phriodoldeb y Perchnogion

Er na fydd perchnogion y cerbydau yn dod i gysylltiad gyda theithwyr, mae'n bwysig eu bod yn cael eu hystyried yn 'ffit ac yn briodol' er mwyn meddu ar drwydded, er mwyn sicrhau bod cerbydau wedi eu trwyddedu yn briodol, ac felly'n cynnal buddion diogelwch y gyfundrefn drwyddedu.

Pan fyddwn yn asesu ffitrwydd ymgeisydd i feddu ar drwydded ar gyfer gyrwyr, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried a oes hanes o droseddu gan yr ymgeisydd ynghyd â phob maeth o dystiolaeth berthnasol gan gynnwys gwybodaeth a'r hyn sy'n wybyddus am ei hanes (e.e. cwynion neu ganmoliaeth i'r cyhoedd, cydymffurfiaeth gydag amodau trwydded a pharodrwydd i gydymffurfio gyda'r Swyddogion Trwyddedu) tra'n meddu ar drwydded gan yr Awdurdod Trwyddedu neu unrhyw awdurdod arall. Bydd sylw penodol yn cael ei roi i batrymau o ymddygiad, nid ots pryd y digwyddodd hyn, a hynny o ran troseddu ac unrhyw ymddygiad arall sydd yn golygu bod lles a diogelwch aelodau o'r cyhoedd o bosib mewn peryg yn sgil yr ymgeisydd.

Er mwyn asesu addasrwydd ymgeiswyr a deiliad swyddi, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried y canllaw hwn gan y Sefydliad Trwyddedu '*Guidance on determining the suitability of applicants and licensees in the Hackney and private hire trades*' Ebrill 2018.

Mae'r canllaw yn **Atodiad 2**, ger Tabl Dirprwyaeth y Cyngor.

Gwiriad DBS

Rhaid i'r holl ymgeiswyr ar gyfer trwydded Cerbydau Hackney a Hurio Preifat gyflwyno ffurflen datgelu sylfaenol DBS er mwyn bodloni'r Awdurdod eu bod yn bobl 'ffit a phriodol'. Bydd y gwiriadau yma yn cael eu hail-adrodd ar gyfer deiliad trwydded cerbydau yn flynyddol. Rhaid i'r ymgeisydd/deiliad swydd dalu am hyn.

Nid oes rhaid i ymgeiswyr sydd yn meddu ar drwydded gyrrwr ar gyfer Cerbyd Hackney neu Hurio Preifat i wneud hyn.

Er mwyn asesu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried canllaw y Sefydliad Trwyddedu '[Guidance on determining the suitability of applicants and licensees in the Hackney and private hire trades](#)' Ebrill 2018. Mae'r canllaw yn **Atodiad 2**.

Ni fydd troseddau gyrrwr yn cael eu hystyried fel rhan o'r asesiad at gyfer deiliad trwydded cerbydau.

Ni fydd gwybodaeth a geir o fewn gwiriad DBS datblygedig, na sydd yn rhan o ddatgeliad sylfaenol, yn cael ei ystyried fel rhan o'r asesiad ar gyfer trwydded cerbyd.

Gwiriad Cofnod Troseddol Tramor

Os yw ymgeisydd trwydded yrru ar gyfer y cerbydau Hackney neu Hurio Preifat wedi treulio 6 mis neu fwy yn barhaus y tu allan i'r Deyrnas Unedig ers eu penblwydd yn 10 mlwydd oed, bydd angen i'r Awdurdod Trwyddedu weld tystiolaeth o wiriad cofnod troseddol o'r wlad / gwledydd y maent wedi ymweld gyda hwy sydd yn cyfateb i'r cyfnod pan oedd yr ymgeisydd dramor.

Bydd angen i'r ymgeisydd dalu am y fath wiriadau.

Dylai'r gwiriadau yma fod ar gael ar gyfer dinasyddion yr UE (gan gynnwys dinasyddion y DU). Yn y gwledydd hynny lle nad yw'r gwiriadau ar gael, bydd angen i'r Awdurdod Trwyddedu dderbyn tystysgrif o ymddygiad da sydd wedi ei dilysu gan y llysgenhadaeth briodol. Rhaid bod hyn wedi ei ddilysu, ei gyfieithu a'i selio gan y Llysgenhadaeth neu'r Uwch Gomisiwn. Mae gwybodaeth am dystysgrifau ymddygiad da neu ddogfennau tebyg sydd i'w cael mewn nifer o wledydd ar gael ar wefan Lywodraeth y DU yma: [GOV.UK Criminal records checks for overseas applicants](#).

Os nad yw'r ymgeisydd yn medru sicrhau tystysgrif o ymddygiad da, yna ni ddylent frwr ymlaen gyda'r cais a dylent gysylltu gyda'r Awdurdod Trwyddedu am fwy o wybodaeth.

Rhaid cynnal y gwiriad yma o fewn 6 mis pan eich bod yn cyflwyno eich cais.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu angen tystysgrif o ymddygiad da sydd gan yr ymgeisydd ac nid oes ots beth yw oedran y ddogfen.

Bydd tystysgrif o ymddygiad da sydd mewn iaith estron angen ei chyfieithu a bydd rhaid i'r ymgeisydd dalu am hyn a bydd angen dilysu'r cyfieithiad hefyd.

Adeiladwaith Cerbydau Cyffredinol

Rhad i'r holl gerbydau sydd i'w hystyried am drwydded gydymffurfio gyda:

- a. Holl ofynion Rheoliadau Cerbydau Modur 1980
- b. Rheoliadau Cerbydau Modur (Prydain Fawr 1984).
- c. Rheoliadau Cerbydau Modur 1998 ac unrhyw ddeddfwriaeth genedlaethol neu ryngwladol sydd yn berthnasol.
- ch. Rheoliadau Cerbydau'r Ffordd (Adeiladu a Defnyddio)1986 (C ac U).
- d. Pob agwedd o reoliadau Prydeinig ac Ewropeaidd ac yn gyson gyda gofynion y **categori M1** o'r 'European Community Whole Type Approval Directive' 2007/46/EC fel y'i diwygir. <http://www.dft.gov.uk/vca/vehicletype/index.asp>
- dd. Yn absenoldeb 'European Community Whole Type Approval', neu os yw cerbyd wedi ei addasu mewn unrhyw ffordd ers ei adeiladu, bydd cerbydau yn cael eu hystyried ar gyfer eu trwyddedu os ydym yn meddu ar:

Categori 'National Small Series Type Approval' a heb eu haddasu ers y 'type-approval'. National Small Series Type Approval
<http://www.dft.gov.uk/vca/vehicletype/index.asp>.

Addasiadau/cyfarpar ychwanegol

Nid oes hawl gwneud unrhyw addasiadau i'r cerbyd neu ychwanegu unrhyw gyfarpar ychwanegol heb ganiatâd yr Awdurdod Trwyddedu. Mae angen esboniad ysgrifenedig yn esbonio natur lawn yr addasiad neu'r cyfarpar gyda gwybodaeth briodol a chadarnhad gan wneuthurwr y cerbyd na fydd yr addasiad/cyfarpar yn effeithio ar ddiogelwch a manylebau'r cerbyd.

Manylebau'r Cerbyd

Er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn teithio yn ddiogel ac yn gysurus, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi gosod amlinelliad o'r isafswm a ddisgwyllir gan gerbydau Trwyddedig cyn bod cerbyd yn cael ei drwyddedu. Mae'r manylebau ar gyfer Cerbyd Hackney ar gael yn **Atodiad 10**, a'r manylebau ar gyfer cerbydau Hurio Preifat yn **Atodiad 11**.

Amodau Trwydded y Cerbyd

Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi ei ymrymuso i osod amodau fel sydd yn briodol a'n rhesymol er mwyn derbyn trwydded cerbyd ar gyfer Cerbyd Hackney neu Hurio Preifat.

Mae amodau'r drwydded ar gyfer Cerbyd Hackney ar gael yn **Atodiad 12** ac mae'r amodau'r drwydded ar gyfer Cerbyd Hurio Preifat yn **Atodiad 13**.

Hyd y Drwydded

Bydd y Cyngor yn caniatáu Trwyddedau Cerbydau Hackney a Hurio Preifat am 12 mis. Mae'r pŵer gan yr Awdurdod i osod amodau ar drwyddedau Cerbydau Hackney a Hurio Preifat.

Oedran y Cerbyd

Mae canllaw blaenorol yr Adran Drafnidiaeth yn atgoffa Awdurdodau Trwyddedu ei fod yn berffaith bosib bod hen gerbydau mewn cyflwr da a bod gosod terfyn oedran – ac ni fydd modd trwyddedu'r cerbyd ar ôl hyn – yn rhywbeth sydd yn cael ei wneud ar hap a'n anghymesur. Efallai fod angen profi cerbydau hŷn yn fwy rheolaidd e.e. dwywaith y flwyddyn ar gyfer cerbydau sydd yn fwy na phum mlwydd oed.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y cyngor sydd wedi ei roi gan yr Adran Drafnidiaeth ac nid yw'n bwriadu gosod cyfyngiadau oedran ar gerbydau Trwyddedig. Os yw hyn yn newid, bydd yr Atodiadau canlynol yn cael eu hychwanegu at y polisi. Bydd y Polisi Oedran y Cerbyd yn **Atodiad 14** ac Amodau Eithriadol ar gyfer y Polisi Oedran yn **Atodiad 15**.

Polisi Allyriadau Cerbyd / Amgylcheddol

Mae Canllawiau blaenorol gan yr Adran Drafnidiaeth yn gofyn i Awdurdodau Trwyddedu i ystyried pa mor bell y mae Polisiâu Trwyddedu yn medru ac yn gallu cefnogi unrhyw bolisiâu amgylcheddol y maent wedi mabwysiadu, gan feddwl am yr angen i sicrhau bod y buddion yn fwy na'r costau.

Mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau bod Cerbydau Hackney a Hurio Preifat yn cynorthwyo i wneud i wneud gwelliant addas yn ansawdd yr aer. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r safonau allyriadau canlynol ar gyfer Cerbydau Hackney a Hurio Preifat

- Bydd trwyddedau newydd ar gyfer Cerbydau Hackney a Hurio Preifat ond yn cael eu caniatáu os ydynt yn cwrdd â'r Safon Euro 6.

- Bydd trosglwyddo trwyddedau ar gyfer Cerbydau Hackney a Hurio Preifat ond yn cael ei ganiatáu os ydy'n cwrdd â'r Safon Euro 6.
- Newid Cerbyd Hackney a Cherbyd Hurio Preifat. Mae deiliad trwydded presennol (perchennog sydd wedi dal y drwydded cyn cyflwyno'r polisi ac wedi parhau i adnewyddu'r drwydded) yn medru parhau i ddal/adnewyddu'r drwydded am oes silff y cerbyd, nid oes ots beth yw'r cyfradd safonol Ewropeaidd.

Safon Euro	Dyddiad y cyflwynwyd y safon
Euro 2	Ionawr 1996
Euro 3	1af Ionawr 2000 tan 31ain Rhagfyr 2004
Euro 4	1af Ionawr 2005 tan 31ain Awst 2009
Euro 5	1af Medi 2009 tan 31ain Awst 2014
Euro 6	1af Medi 2014

Dylid nodi fod rhai gwneuthurwyr cerbydau wedi cyflwyno'r 'Euro Ratings' i'w cerbydau cyn y dyddiadau uchod (h.y. mae'n bosib bod cerbyd wedi derbyn sgôr o Euro 5 cyn 01/09/2009 a / 1/9/2014 gan ddibynnu ar y math o gar. Mae manylion yr 'Euro ratings' i'w gweld ar lyfr cofnod V5 neu V5C)

Ni fydd ceir petrol a disel newydd yn cael eu gwerthu ar ôl 2030, yn unol gyda chyfarwyddyd Llywodraeth y DU. Ni fydd ceir hybrid newydd yn cael eu gwerthu ar ôl 2035. Mae'n bwysig amlygu hyn fel eu bod yn medru paratoi'r cynlluniau busnes hirdymor er mwyn bod yn gyson gyda'r tacsis mwy "gwyrdd". Os caiff polisi allyriadau newydd ei gyflwyno, bydd hyn yn cael ei atodi i'r polisi yma fel **Atodiad 16** – Polisi Allyriadau Cerbyd.

Profi Cerbydau ac Amllder Profi Cerbydau

Mae'r gofynion profi canlynol felly yn cael eu cynnig:

1. Bydd Cerbydau Hackney a Hurio Preifat sydd yn fwy na blwydd oed ond yn llai na 5 mlwydd oed (ers dyddiad y cofrestriad cyntaf) yn cael eu profi'n flynyddol.*

2. Bydd Cerbydau Hackney a Hurio Preifat sydd yn fwy na 5 mlwydd oed ond yn llai na 10 mlwydd oed (ers dyddiad y cofrestriad cyntaf) yn cael eu profi bob chwe mis. (Er y bydd y cerbyd yn derbyn trwydded am 12 mis/blwyddyn, bydd angen i'r cerbyd basio'r prawf cerbyd 6 mis o'r prawf cychwynnol). Os nad yw'r cerbyd yn cael ei brofi cyn diwedd 6 mis, bydd trwydded y cerbyd yn cael ei hatal.*
3. Bydd Cerbydau Hackney a Hurio Preifat sydd yn fwy na 10 mlwydd oed ond yn llai na 10 mlwydd oed (ers dyddiad y cofrestriad cyntaf) yn cael eu profi bob chwe mis. (Er y bydd y cerbyd yn derbyn trwydded am 12 mis/blwyddyn, bydd angen i'r cerbyd basio'r prawf cerbyd 4 mis o'r prawf cychwynnol). Os nad yw'r cerbyd yn cael ei brofi cyn diwedd 4 mis, bydd trwydded y cerbyd yn cael ei hatal.*

**(Mewn achosion lle y mae hanes gwael gan y Perchennog o gynnal y cerbyd, mae'r Rheolwr Trwyddedu yn medru penderfynu fod y cerbyd(au) sydd i'w trwyddedu gan y Perchennog yn cael eu profi yn chwarterol. Cyn gweithredu hyn, bydd rhybudd ysgrifenedig a chyfarfod cyfryngu yn cael ei drefnu rhwng y Perchennog a'r Rheolwr Trwyddedu/Swyddog Trwyddedu.)*

4. Mae'r trefniadau profi ar gyfer cerbydau yn cael eu cydlynu drwy orsaf brawf lleol enwebedig sydd yn asesu'r gofynion a'r gydymffurfiaeth gyda'r gofynion cyn cadarnhau bod modd rhoi tystysgrif. Mae unrhyw Swyddog Cyngor Awdurdodedig neu unrhyw Gwnstabl yn meddu ar y pŵer i arolygu Cerbyd Hackney neu Hurio Preifat ar unrhyw adeg er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben. Os yw Swyddog yn anhapus gyda'r cerbyd a'n credu ei fod yn anaddas i'w ddefnyddio fel Cerbyd Hackney neu Hurio Preifat, neu os nad yw'r cerbyd yn cydymffurfio gyda Deddfwriaeth Tacsï neu Bolisi ac Amodau'r Trwyddedu'r Cyngor, bydd modd atal, dirymu neu wrthod adnewyddu trwydded y cerbyd. Mae'r Swyddog Trwyddedu yn medru cyfeirio'r fath achosion at y Panel Trwyddedu er mwyn cadarnhau a yw'r cerbyd yn addas. Dylid nodi nad yw unrhyw berchnogion sydd yn gorchuddio'r brêc/darnau sy'n symud ayyb neu unrhyw ran arall o'r cerbyd rhag cael ei arolygu, yn mynd i dderbyn trwydded.
5. Bydd y cerbyd yn cael ei eithrio o ddarpariaethau Adran 44 o'r Ddeddf Traffig Ffyrdd Act (Prawf MOT blynyddol ar gyfer cerbydau) os yw Cyngor Sir Fynwy yn meddu ar lythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn ymwneud gyda Rheoliadau 30(m) a 30(n) (Profion) Cerbydau Modur 1976 fel y'i diwygir. Mae'r eithriad o'r angen i sicrhau tystysgrif MOT ond yn berthnasol ar ôl cyflwyno Tystysgrif Profi gan Orsaf Brofi sydd wedi ei awdurdodi gan Gyngor Sir Fynwy ac wedi derbyn trwydded. Rydym yn argymhell fod ymgeiswyr yn cwblhau'r ffurflen V112 gan y DVLA fel prawf nad oes angen iddynt gael tystysgrif MOT.

Yswiriant

Mae angen tystysgrifau yn unol gyda'r gofynion gwahanol:

- Rhaid bod yna dystysgrif yswiriant dilys ar gyfer hurio cyhoedd a Cherbydau Hackney, a Hurio Preifat o ran cerbydau Hurio Preifat.
- Rhaid bod unrhyw yswiriant neu 'cover note' sydd yn briodol ar gyfer "unrhyw gerbyd" neu "unrhyw yrwyr" yn medru cynnwys hefyd amserlen sydd yn dangos yr holl gerbydau a'r gyrwyr sydd wedi eu manylu yn y dystysgrif yswiriant
- O ran cerbyd Trwyddedig, os yw Perchennog yn methu cyflwyno tystysgrif yswiriant dilys i'r Cyngor ar gais, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn medru atal y drwydded a bydd angen i Berchennog y Cerbyd Hackney neu Gerbyd Hurio Preifat i ddychwelyd y platiau i'r Awdurdod Trwyddedu tan y cyfnod apêl.

Tystysgrif Cofrestru V5

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn derbyn nad yw tystysgrif cofrestru V5 llawn ar gael yn enw'r Perchennog newydd bob tro ar gyfer y drwydded gyntaf; fodd bynnag, rhaid dangos y rhan werdd V5/2 o'r ffurflen V5 a phrawf eich bod wedi prynu'r cerbyd. Os yn bosib, dylid dangos tystysgrif cofrestru V5 y Perchennog blaenorol a'i gyflwyno gydag adran werdd V5/2. Os yw cerbyd yn newydd sbon, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cadw'r 'Bill of Sale' tan fod tystysgrif cofrestru newydd V5 ar gael.

Rhaid cyflwyno tystysgrif cofrestru V5 a phrawf eich bod wedi prynu'r cerbyd wrth drosglwyddo trwydded cerbyd. Os yn bosib, dylid dangos tystysgrif cofrestru V5 y Perchennog blaenorol a'i gyflwyno gydag adran werdd V5/2.

Os yw'r rhan werdd wedi ei lunio ar ôl trwyddedu'r cerbyd am y tro cyntaf, bydd tystysgrif cofrestru V5 llawn yn enw newydd y Perchennog angen ei gyflwyno i'r Cyngor o fewn 7 diwrnod calendr ar ôl bod y ffurflen yn cael ei derbyn gan berchennog y cerbyd.

Cofnodi Damweiniau

Yn unol ag Adran 50(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, budd unrhyw Gerbyd Hackney neu Hurio Preifat sydd mewn damwain ac yn effeithio ar:

- (i) diogelwch, perfformiad neu ymddangosiad y cerbyd, neu
- (ii) cysur y teithwyr

angen ei adrodd i'r Awdurdod Trwyddedu cyn gynted ag sydd yn rhesymol ymarferol, ac ym mhob un achos, rhaid gwneud hyn o fewn **saith deg dwy awr (72) awr**.

Yn dilyn damwain neu ddifrod i gerbyd Trwyddedig, os mai bwriad y Perchennog neu'r Gweithredwr yw parhau i ddefnyddio'r drwydded, rhaid arolygu'r cerbyd yn syth mewn gorsaf brofi sydd wedi ei henwebu gan yr Awdurdod Trwyddedu er mwyn nodi a yw'n briodol i barhau i ddefnyddio'r cerbyd. Cyfrifoldeb deiliad y drwydded yw hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu bod hyn wedi ei wneud. Os yw'r orsaf brofi sydd wedi ei henwebu gan yr Awdurdod Trwyddedu yn nodi nad oes modd parhau i ddefnyddio'r cerbyd, rhaid cytuno ar amserlen ar gyfer gwneud atgyweiriadau gyda Swyddog Awdurdodedig o'r Awdurdod Trwyddedu.

Efallai y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn atal y defnydd a wneir o'r cerbyd trwydded tan ei fod yn cael ei atgyweirio'n addas a'n cydymffurfio gyda gofynion profi'r Awdurdod Trwyddedu.

Mae cerbyd trwydded sydd wedi dioddef difrod sylweddol neu angen gwaith atgyweirio mecanyddol o bosib yn medru cael ei ddisodli gan gerbyd hurio, ar yr amod:

- (i) mae'r difrod, neu'r diffyg, i'r cerbyd wedi ei adrodd i'r Awdurdod Trwyddedu,
- (ii) mae cais wedi ei wneud yn y modd priodol am drwydded cerbyd dros dro,
- (iii) mae'r cerbyd arall yn cwrdd â gofynion y Polisi ac yn ddas ar gyfer ei hurio.

Ffioedd

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn gosod yr uchafswm o ran ffioedd ar gyfer teithiau Cerbydau Hackney sydd at gyfer teithiau o fewn ardaloedd yr awdurdod lleol. Mae'r tabl cyfredol o ffioedd i'w gweld yn **Atodiad 17**. Rhaid arddangos copi ym mhob un cerbyd.

Mae'n drosedd i godi ffi uwch ar gyfer teithiau sydd yn dechrau ac yn gorffen yn ardaloedd yr awdurdod lleol. Mae modd codi ffi llai ond byth mwy.

Mae gyrwyr sydd yn dechrau neu'n gorffen y daith y tu allan i ffiniau'r awdurdod lleol yn medru cytuno ar ffi gyda'r teithiwr cyn dechrau'r daith neu mae modd dewis defnyddio'r mesurydd tacsî.

Bydd y Cyngor yn adolygu'r tabl o ffioedd o dro i dro. Bydd diwygiadau yn amodol ar ymgynghoriad cyhoeddus.

Mae cynrychiolwyr y Cerbydau Hackney yn medru gwneud cais i'r Awdurdod Trwyddedu ar gyfer ystyried gwneud newid i'r tabl o ffioedd.

Nid yw'r Awdurdod Lleol yn medru gosod ffioedd ar gyfer cerbydau Hurio Preifat. Yr arfer gorau yw cytuno ar bris y daith cyn dechrau'r daith gyda'r Gweithredwr Hurio Preifat.

Rhaid i'r gyrrwr, os yw'r teithiwr yn gwneud cais, i ddarparu derbynneb ysgrifenedig ar gyfer yr holl ffioedd sydd wedi eu talu. Rhaid i dderbynneb gynnwys yr holl wybodaeth ganlynol: -

- ffi wedi ei arddangos a'i gyfrif gan y mesurydd gyda'r ffioedd cymeradwy eraill yn unol gyda'r siart ffioedd
- rhif trwydded y cerbyd

Nid oes angen cyflwyno derbynneb papur. Mae'n cael ei dderbyn bod nifer o deithwyr yn fodlon derbyn derbynneb electroneg os yw'r gyrrwr yn medru danfon hyn ar ffurf neges destun neu e-bost. Fodd bynnag, dylid sicrhau bod modd ysgrifennu/argraffu derbynneb os oes angen.

Mesuryddion Tacsï

Mae Mesuryddion Tacsï neu 'Fesurydd Tacsï' yn meddu ar yr un ystyr ag sydd i'w weld yn Adran 80 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976:

'...any device for calculating the fare to be charged in respect of any journey in a Hackney carriage or private hire vehicle by reference to the distance travelled or time elapsed since the start of the journey, or a combination of both;'

Rhaid bod mesuryddion tacsï yn cael eu gosod mewn Cerbydau Hackney ac mae'n **bosib** eu gosod mewn cerbydau Hurio Preifat

Os yw mesurydd tacsï yn cael ei osod, rhaid ei fod yn:

- Cydymffurfio'n llawn gyda Rheoliadau Offerynnau Mesur (Taximeters) 2006 ac wedi ei dilysu gan gorff yn unol gyda Chyfarwyddeb Offerynnau Mesur (MID) (2004/22/EC), yn enwedig Atodiad 007.
- O ran tacsï, sydd yn meddu ar ddyfais, bydd y gair 'HIRED' yn ymddangos ar y mesurydd pan fydd yn mesur y daith a rhaid bod modd ei gloi wedyn fel and yw'n gweithio pam nad oes angen ei ddefnyddio ac ni cheir dim ar sgrin y peiriant;
- O ran tacsï, rhaid bod y mesurydd wedi ei osod fel nad yw'r ffi a osodir yn uwch na'r hyn a bennir gan yr Awdurdod Trwyddedu.
- Wedi ei reoli gan galendr.
- Rhaid ei osod yn ddiogel yn y cerbyd fel and oes unrhyw berson yn medru ymyrryd gyda'r mesurydd oni bai ei fod yn cael ei ddifrodi neu drwy dynnu'r seliau oddi yno'n barhaol.
- Sicrhau bod y gair 'FARE' yn amlwg mewn llythrennau plaen ar y mesurydd fel ei fod yn berthnasol ar gyfer yr holl deithiau lle y mae angen talu ffi; a
- Sicrhau bod yn dystysgrif/adroddiad o gydymffurfiaeth wedi ei roi gan rywun sydd yn gymwys i osod mesurydd (bydd yr Awdurdod Trwyddedu ond yn derbyn tystysgrif sydd wedi ei roi o fewn y 10 diwrnod gwaith blaenorol).

- O ran tacs – os yw Perchennog yn methu cyflwyno tystysgrif/adroddiad dilys o gydymffurfiaeth i'r Awdurdod Trwyddedu (oni bai ei fod wedi ei oedi neu'i atal yn sgil rheswm digonol a bod hyn wedi ei gytuno gyda'r Awdurdod Trwyddedu), gall yr Offerynnau Mesur atal y drwydded a bydd rhaid i'r Perchennog ddychwelyd yr holl blatiau i'r Awdurdod Trwyddedu tan y cyfnod apêl.

Mesuryddion GPS /systemau rheoli a danfon

Mae 'mesuryddion' GPS 'yn defnyddio 'global positioning systems' (GPS) yn hytrach na'r dull 'pulse' a ddefnyddir gan fesuryddion safonol er mwyn mesur y pellter. Nid yw mesuryddion GPS yn cydymffurfio gyda'r Gyfarwydddeb Offerynnau Mesur (MID) (2004/22/EC) ar fesuryddion tacsï, ac felly, nid oes modd eu defnyddio fel opsiwn amgen ar gyfer mesurydd tacsï 'pulse' traddodiadol sydd wedi ei drwyddedu fel Cerbyd Hackney.

Mae'r defnydd o fesuryddion GPS, a systemau danfon/rheoli wedi ei ganiatáu mewn tacsï a cherbydau Hurio Preifat; fodd bynnag, mewn Cerbyd Hackney, ni ddylid disodli'r mesurydd tacsï cymeradwy ac ni ddylai atal neu aflonyddu rhag dangos y wybodaeth ar y mesurydd tacsï. Rhaid medru dangos i'r teithwyr y ffi y maent yn talu ar y mesurydd tacsï cymeradwy. Er mwyn osgoi unrhyw gymhlethdod i deithwyr, rhaid bod unrhyw ffi a ddangosir ar y system GPS gael ei guddio o olwg y teithiwr.

Rhaid gosod unrhyw system GPS yn unol gyda chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Camerâu Cylch Cyfyng (CCTV)

Mae diogelwch gyrwyr a theithwyr o'r pwysigrwydd mwyaf ac mae camerâu cylch cyfyng mewn cerbydau yn medru bod yn declyn gwerthfawr.

Nid yw'r Awdurdod Trwyddedu yma wedi gorfodi'r defnydd o gamerâu cylch cyfyng mewn cerbydau Trwyddedug; fodd bynnag, rydym yn medru cydnabod y buddion a ddaw o hyn i yrwyr a theithwyr ac yn argymhell yn gryf bod gyrwyr yn gosod camerâu cylch cyfyng yn eu cerbydau. Efallai y bydd ymgynghoriad pellach ar orfodi gosod camerâu cylch cyfyng mewn cerbydau yn cael ei ystyried yn y dyfodol, ond yn y cyfamser, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn caniatáu defnyddio systemau camerâu cylch cyfyng yn wirfoddol.

Rhaid i Berchnogion sydd yn penderfynu gosod camerâu cylch cyfyng yn eu cerbydau sicrhau bod hyn yn cydymffurfio'n llawn gyda manylion Polisi Camerâu Cylch Cyfyng yr Awdurdod Trwyddedu sydd i'w gweld yn **Atodiad 18**.

Systemau Fideo Pwynt Trawiad (Dash Cam)

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn caniatáu'r defnydd o systemau VPIS mewn Cerbydau Hackney a Cherbydau Hurio Preifat. Rhaid i Berchnogion sydd yn

penderfynu gosod system VPIS gydymffurfio'n llawn gyda'r manylion fel sydd wedi eu nodi yn **Atodiad 19**.

Eiddo Coll

Rhaid i yrrwr y cerbyd wirio'r cerbyd yn ofalus ar ôl pob taith, neu cyn gynted ag sydd yn rhesymol ymarferol, am unrhyw eiddo personol sydd wedi ei adael yn y cerbyd.

O fewn 48 awr o ddod o hyd i'r eiddo, rhaid i'r gyrrwr naill ai rhoi'r eiddo yng ngofal yr heddlu neu roi gwybod i'r adran eiddo coll gan ddefnyddio system ar-lein neu system ffôn yr heddlu.

Lifrai ac Arwyddion

Nid yw rhai aelodau o'r cyhoedd yn medru sylwi'r gwahaniaeth rhwng Cerbydau Hurio Preifat a Cherbydau Hackney ac nid ydynt yn deall nad oes modd hurio Cerbydau Hurio Preifat yn syth neu geisio galw amdano oddi ar ochr y stryd. Felly, mae'n bwysig bod y cyhoedd yn medru adnabod pob math o gerbyd. Mae creu lliwiau gwahanol ar gyfer Cerbydau Hackney yn delio gyda hyn.

Nid yw arwyddion ar doeon cerbydau Hurio Preifat yn cael eu hystyried yn arfer gorau, er eu bod yn medru nodi 'pre-booked only'. Mae hyn am fod unrhyw arwyddion yn medru cymhlethu cwsmeriaid gan fod y rhain ar doeon y Cerbyd Hackney hefyd.

Mae cerbydau sydd wedi eu trwyddedu gan Gyngor Sir Fynwy, boed yn Gerbydau Hackney a Hurio Preifat angen arddangos plât allanol sydd wedi ei roi gan y 'Cyngor', a hynny ar flaen y cerbyd ac ar y cefn. Rhaid bod y platiau wedi eu gosod yn ofalus ar y cerbyd, gan ddefnyddio sgrîwiau ac ati neu fraced sydd wedi ei roi gan y Cyngor. Bydd y cerbyd hefyd yn meddu ar blât mewnol a fydd ar y ffenestr ffrynt, fel ei fod yn weladwy i deithwyr. Mae dyluniad y platiau i'w gweld yn **Atodiad 20**

Mae Cerbyd Hackney Carriages sydd wedi ei drwyddedu gan y Cyngor yn gorfod meddu ar arwydd ar do'r car sydd wedi ei oleuo. Rhaid bod hyn yn darllen 'Taksi' tua'r blaen a 'Taxi' i gyfeiriad y cerbyd sydd tu nôl a rhaid goleuo hyn pan fydd y cerbyd yn chwilio am gwsmeriaid.

Hysbysebu

Nid oes hawl rhoi unrhyw arwyddion neu hysbysebu ar gerbydau Trwyddedig heb ganiatâd ysgrifenedig gan yr Awdurdod Trwyddedu. Ac eithrio enw a manylion cyswllt y cwmni.

Os oes caniatâd ysgrifenedig wedi ei sicrhau, bydd modd hysbysebu ar Gerbydau Hackney yn unol gyda'r polisi hysbysebu fel sydd wedi ei fanylu yn **Atodiad 21**.

Bydd pob hysbyseb yn cydymffurfio gyda gofynion y Cyngor Safonau Hysbysebu o ran chwaeth dda, a hynny gyda chynnwys ac ymddangosiad, ac ni fydd yn ymwneud

gyda materion sydd yn cynnwys tybaco, gamblo, gwleidyddiaeth, crefydd, materion rhywiol, neu unrhyw gynnwys arall sydd yn debygol o godi gwrychyn pobl.

Taliadau â Cherdyn

Mae modd i gerbydau Trwyddedig gynnwys dyfeisiau talu gyda chardiau credyd neu ddebyd. Bydd angen i'r teclyn fedru creu derbynneb.

Os yw cerbyd yn cynnwys dyfais talu â cherdyn, rhaid cynnwys arwydd ar ddwy ochr y cerbyd, sydd naill ai yn arddangos logo'r cwmni cerdyn neu arwydd ddwyieithog yn datgan: 'Mae'r cerbyd Trwyddedig yma yn derbyn taliadau cardiau credyd a debyg gan gynnwys digyffwrdd.

Rhaid i'r arwydd mewnol fod ar y ffenestri ar ddwy ochr y car lle y mae'r teithwyr yn eistedd.

Os oes problem gyda'r teclyn talu gyda cherdyn, dylai'r gyrrwr ddilyn y cyngor canlynol:

- Gofyn i'r teithiwr roi cynnig ar y cerdyn talu eto
- Os yw'r broblem yn parhau, gofynnwch i'r teithiwr a oes cerdyn arall ganddynt neu arian
- Gofynnwch i fynd â'r teithiwr i'r peiriant arian (ATM) agosaf
- Os yw'r teithiwr yn gwrthod talu, ystyriwch gysylltu gyda'r heddlu

Dylai gyrrwr wirio bod y teclyn talu gyda cherdyn yn gweithio cyn eu bod yn dechrau'r gwaith, gan gynnwys sicrhau ei fod yn medru argraffu derbynneb.

Mae taliadau a wneir gyda chardiau o dan ddarpariaeth systemau Apiau Gweithredwyr Hurio Preifat hefyd yn medru cael eu defnyddio gan gwsmeriaid. Os yw Gweithredwr Hurio Preifat yn defnyddio'r fath system, y teithiwr, nid y gyrrwr, sydd yn penderfynu os yw am ddefnyddio arian, ap neu system talu gyda cherdyn.

Hygyrchedd

Rhaid bod cerbydau penodol sydd yn hygyrch ar gyfer cadeiriau olwyn yn medru cludo pobl anabl a chludo person anabl mewn cadair olwyn 'reference' lle y mae'r teithiwr yn eistedd.

*Mae cadair olwyn 'reference' wedi ei ddiffinio yn Atodlen 1 o'r Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus 2000.

<http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2000/1970/schedule/1/made>

Mae Adran 167 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn caniatáu Awdurdodau Lleol i gynnal rhestr o gerbydau penodol sydd yn hygyrch ar gyfer cadeiriau olwyn. Mae'r

Awdurdod Trwyddedu wedi cymryd y penderfyniad i gynnal y fath restr sydd ar gael ar wefan yr Awdurdod. <https://www.monmouthshire.gov.uk/licensing/taxi-licence/wheelchair-accessible-vehicles/>

Mae Perchnogion yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw yrrwr Trwyddedig sydd yn gyrru un o'u cerbydau penodol sydd yn hygyrch ar gyfer cadeiriau olwyn yn ymwybodol o'u dyletswyddau wrth gludo pobl mewn cadeiriau olwyn wrth yrru cerbyd penodol sydd yn hygyrch ar gyfer cadeiriau olwyn.

Rhaid i Berchennog cerbydau Trwyddedig sydd yn hygyrch ar gyfer cadeiriau olwyn ddangos i yrrwr y fath gerbyd sut i gynorthwyo teithiwr mewn cadair olwyn i mewn ac allan a'r car a diogelu'r gadair olwyn yn ddiogel yn y cerbyd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio sut i ddangos y gyrrwr i ddefnyddio'r rampiau ac addasu'r hyn sydd yn eu dal yn sownd. Rhaid i'r Perchennog gadw cofnod o bryd y mae hyn yn cael ei wneud a chynnwys y canlynol:

- a. Dyddiad y gwnaed hyn
- b. Enw a rhif trwydded y gyrrwr
- c. Llofnod a dyddiad y gyrrwr yn cydnabod bod hyn wedi digwydd a bod ef/hi nawr yn deall sut i gludo teithiwr mewn cadair olwyn y cerbyd.

Rhaid i'r Perchennog gadw hyn am gyn hired y mae'r gyrrwr yn defnyddio'r cerbyd. Os yw'r gyrrwr yn rhentu'r cerbyd yn y dyfodol, rhaid i'r Perchennog ddangos unwaith eto sut i wneud hyn.

Os mai'r Perchennog sydd hefyd yn yrrwr Trwyddedi gar gyfer y cerbyd, bydd y Perchennog yn cadarnhau ei fod ef/hi yn medru perfformio yn unol gyda chyfarwyddiadau gwneuthurwr y cerbyd ar sut i gludo teithiwr mewn cadair olwyn i mewn ac allan o'r cerbyd a sut i ddiogelu'r cadair olwyn.

Amodau Trwydded Gyrru Cerbyd Hackney

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn meddu ar y pŵer i osod yr amodau ar drwydded Cerbyd Hackney fel sydd yn cael ei ystyried yn rhesymol, yn angenrheidiol a'n gymesur. Mae amodau'r drwydded i'w gweld yn **Atodiad 22**.

Car a Cheffyl (Cerbyd Hackney yn Unig)

Mae modd defnyddio car a cheffyl o bosib at ddefnydd cludiant Hackney. Mae'r manylebau a'r amodau sydd yn ymwneud gyda char a cheffyl i'w gweld yn **Atodiad 22**.

Amodau Trwydded Cerbydau Hurio Preifat

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn meddu ar y pŵer i osod yr amodau ar drwydded Cerbyd Hurio Preifat fel sydd yn cael ei ystyried yn rhesymol, yn angenrheidiol a'n gymesur. Mae amodau'r drwydded i'w gweld yn **Atodiad 23**.

Hurio Gweithredol (Hurio Preifat yn Unig)

Gall cerbydau sydd ond yn cael eu defnyddio at ddibenion hurio gweithredol gael eu heithrio o nifer o'r amodau safonol fel dangos lliwiau a phlatiau trwydded allanol.

Bydd cerbyd ond yn cael ei ystyried ar gyfer cael ei eithrio os yw'r gwasanaeth gweithredol yn gyfrifol am gontractau corfforaethol neu fusnes; ni fyddai proms/diwrnodau rasio a chludo teithwyr i'r maes awyr yn cael eu hystyried fel defnyddio cerbyd at ddefnydd hurio corfforaethol, ac felly, byddai'n rhaid iddynt gydymffurfio gyda'r amodau cerbyd Hurio Preifat.

Mae'r gwaith sydd yn cael ei ystyried fel 'hurio gweithredol' yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i:

- Contractau rhwng y naill fusnes a'r llall h.y. cludo gweithwyr a chleientiaid ar deithiau sydd yn ymwneud gyda busnes fel rhan o gontract gyda chwmni neu berson.
- Cludo cleientiaid penodol (gwleidyddion neu sêr enwog) sydd, o ganlyniad i resymau diogelwch neu bersonol, yn methu teithio mewn cerbyd sydd yn cael ei adnabod fel cerbyd Hurio Preifat.

Bydd tu fewn a thu allan y cerbyd o'r ansawdd uchaf o ran dyluniad a'r holl ddeunydd mewn cyflwr eithriadol. Dylai 'trim' y cerbyd fod o'r safon uchaf ar gyfer y math o gerbyd dan sylw. Mae'r ystyriaethau a ddefnyddir wrth benderfynu a yw cerbyd yn cwrdd â'r safon weithredol yn cynnwys cost, enw da'r cerbyd, ymddangosiad, sut y mae eraill yn ystyried y cerbyd, lefelau cysur gwell a'r seddau e.e. a ydynt yn cynnig mwy o le i deithwyr o'u cymharu gyda cherbydau safonol.

Rhaid i unrhyw Berchennog sydd am wneud cais am drwydded ar gyfer hurio gweithredol ddarparu cadarnhad ysgrifenedig o'u gweithredwr Hurio Preifat y bydd y cerbyd ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer hurio gweithredol.

Dylid cadw nodyn ysgrifenedig yn nodi bod yr Awdurdod Trwyddedu yn caniatáu bod amodau trwydded y cerbyd wedi eu heithrio yn y cerbyd bob amser.

Mae cerbydau sydd wedi eu trwyddedu ar gyfer hurio gweithredol angen eu gyrru gan yrrwr Hurio Preifat Trwyddedig.

Cerbydau 'Novelty' / Hurio Preifat Arbennig gan gynnwys Cerbydau Limousine

Mae cerbydau Hurio Preifat 'Novelty' yn cael eu trwyddedu yn unol gyda Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Rhaid iddynt sicrhau nad ydynt yn edrych fel Cerbyd Hackney ac wedi eu dylunio i gludo 8 teithiwr neu lai.

Mae Perchnogion sydd am drwydded cerbydau Limousine angen ystyried 'Guidance for Operators of Stretch Limousines' (2011) gan VOSA.

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/147836/Guidance_for_Operators_of_Stretch_Limousines_2.pdf

Mae'r manylebau a'r amodau sydd yn ymwneud gyda Cherbydau Limousine i'w gweld yn **Atodiad 24**.

Mae cerbydau Novelty fel hen geir, hen gerbydau diffodd tân, Tuk Tuks, Rickshaws trydanol a seiclo (pedicabs) hefyd yn medru cael eu hystyried at ddefnydd Hurio Preifat. Mae'r manylebau a'r amodau sydd yn ymwneud gyda'r fath gerbydau i'w **Atodiad 25**.

Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Cerbydau Hackney yn unig:

Cyfyngiadau ar Niferoedd

Mae Awdurdodau Trwyddedu yn meddu ar y pŵer i gyfyngu ar y nifer o drwydded Cerbydau Hackney y mae'n eu caniatáu fel ei fod yn fodlon nad oes yna ormod ohonynt ar gyfer y galw am y fath wasanaeth.

Er mwyn asesu lefel yr angen sydd heb ei ddiwallu yn yr ardal, dylai Awdurdod Trwyddedu gomisiynu arolwg annibynnol, yn unol gyda Chanllawiau Arfer Gorau'r Adran Drafnidiaeth (<https://www.gov.uk/government/publications/taxi-and-private-hire-vehicle-licensing-best-practice-guidance>) - os yw'r nifer o drwyddedau wedi eu cyfyngu, dylid adolygu hyn bob 3 blynedd.

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi penderfynu peidio â chyflwyno Cyfyngiadau ar Niferoedd.

Nid yw deddfwriaeth yn caniatáu Awdurdodau Trwyddedu i osod cyfyngiadau niferoedd ar drwyddedau cerbyd Hurio Preifat.

Safleoedd Dal Tacsî (cyfeirir atynt yn gyfreithiol fel stondinau Cerbyd Hackney)

Mae'n ofyniad gorfodol fod yr Awdurdod Lleol yn cynnig mannau penodol er mwyn dal Cerbydau Hackney. Os caiff mannau penodol eu clustnodi, bydd defnydd a lleoliad y llefydd yma yn cael eu hadolygu gan yr Adran Drwyddedu ac adran Priffyrdd y Cyngor.

Mae newid mannau tacsî cyfredol neu ychwanegu rhai newydd yn gorfod bod yn rhan o ymgynghoriad. Mae sylwadau ac awgrymiadau o ran lleoliad mannau newydd ar gyfer Cerbydau Hackney yn cael eu croesawu gan Adran Briffyrdd y Cyngor.

Mae mannau dal tacsî yn cael eu darparu ar gyfer Cerbydau Hackney yn unig. Nid oes hawl gan gerbydau Hurio Preifat i ar aros, casglu neu ollwng teithwyr mewn mannau sydd yn benodol ar gyfer Cerbydau Hackney.

Gweithredwyr Hurio Preifat

Y Broses Gais

Bydd yr holl geisiadau yn cael eu hystyried ar sail eu rhinweddau. Mae'r broses gais ar gyfer trwydded gweithredwr Hurio Preifat wedi ei fanylu yn **Atodiad 26**.

Hyd y Drwydded

Bydd y trwyddedau gweithredu yn cael eu rhoi am 5 blynedd fel arfer; ond mae'r Awdurdod Trwyddedu yn meddu ar y disgresiwn i roi trwydded am gyfnod llai pan mae'n credu bod hyn briodol yn amgylchiadau'r fath achos neu ar gais yr ymgeisydd.

Cyfrifoldebau a Ffitrwydd/Priodoldeb y Gweithredwr

Mae'r gweithredwr yn gyfrifol am yr holl bobl (a cherbydau) sydd yn cael eu cyflogi, o dan contract neu fel arall a ddefnyddir fel rhan o'u busnes. Felly, rhaid i'r gweithredwr gynnal gwiriadau digonol er mwyn bodloni eu hunain mai ond gyrwyr addas, staff gweinyddol a cherbydau sydd yn cael eu defnyddio (a'n parhau i gael eu defnyddio) fel rhan o'r busnes. Mae methiant gweithredwr i sicrhau bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal o bosib yn mynd i gwestiynu ffitrwydd a phriodoldeb y gweithredwr. At hyn, mae methu cymryd camau priodol yn erbyn gyrwyr sydd yn tramgwyddo amodau eu trwydded yn barhaus hefyd yn mynd i gwestiynu ffitrwydd a phriodoldeb y gweithredwr.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o amgylchiadau sydd yn effeithio ar ffitrwydd a phriodoldeb gweithredwr Hurio Preifat:

- Gyrwyr Trwyddedig neu yrwyr cerbydau sydd yn tramgwyddo amodau eu trwyddedau yn barhaus (boed yn unigol neu fel grŵp) tra'n gweithio ar ran / neu o dan gyfarwyddyd gweithredwr penodol.
- Cerbydau yn cael eu defnyddio ond yn anaddas o ran cyflwr.
- Gweithredwr yn methu mynd i'r afael â phryderon sydd yn ymwneud gyda gyrwyr Trwyddedig/ perchnogion cerbydau (gan gynnwys materion sydd yn ymwneud gyda diogelu plant / oedolion).
- Cyflogi staff atodol lle nad oes gwiriad DBS sylfaenol wedi ei gwblhau ar gyfer yr unigolyn, neu bod y canlyniadau o bosib yn peri bygythiad i'r cyhoedd.
- Colli/camddefnyddio data personol
- Unrhyw droseddau perthnasol

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl bod gweithredwyr Trwyddedig yn cefnogi ei amcanion i godi ymwybyddiaeth a mynd i'r afael gyda diogelu plant ac oedolion. Rhaid i weithredwyr barhau'n ymwybodol o'r materion yma a materion tebyg, ac os ydynt yn methu gwneud, bydd ffitrwydd a phriodoldeb y gweithredwr yn cael ei gwestiynu.

Tra'n asesu ffitrwydd yr ymgeisydd i ddal trwydded gweithredwr Hurio Preifat, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried hanes troseddol yr ymgeisydd, gyda'r holl dystiolaeth berthnasol, gwybodaeth a deallusrwydd, gan gynnwys eu hanes (e.e. cwynion a sylwadau positif o'r cyhoedd, cydymffurfiaeth gydag amodau trwydded a pharodrwydd i gydweithio gyda swyddogion trwyddedu) tra'n dal trwydded gan yr Awdurdod Trwyddedu neu unrhyw Awdurdod arall. Bydd yna sylw penodol yn cael ei roi i batrwm ymddygiad, nid oes ots pryd y digwyddodd hyn, a hynny o ran troseddau sydd wedi eu profi ac ymddygiad arall sydd yn medru awgrymu y byddai diogelwch a lles y cyhoedd mewn peryg yn sgil yr ymgeisydd.

Rhaid cydnabod hefyd y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried pob hanes troseddol, ymddygiad ac ati, doed a ddelo bod yr hanes neu ddigwyddiad wedi digwydd tra oedd ymgeiswyr yn gwneud gwaith mewn cerbyd Hackney neu Hurio Preifat ar y pryd neu os oedd hyn wedi digwydd yn ystod amser personol. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried a yw unigolyn yn debygol o gyflawni troseddau a/neu'n arddangos ymddygiad annerbyniol tra nad oedd yn gweithio mewn cerbyd Hackney neu Hurio Preifat yr un mor ddifrifol â bod hyn yn digwydd tra eu bod yn gweithio mewn cerbyd Hackney neu Hurio Preifat.

Er mwyn helpu asesu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried canllaw'r Sefydliad Trwyddedu '[Guidance on determining the suitability of applicants and licensees in the Hackney and private hire trades](#)', *Ebrill 2018*. Mae'r canllaw i'w weld yn **Atodiad 2**.

Gwiriad DBS

Rhaid i'r holl ymgeiswyr ar gyfer gwneud cais neu adnewyddu trwydded Gweithredwr Hurio Preifat gyflwyno ffurflen datgelu sylfaenol DBS (o fewn mis o wneud y cais) sydd ar gael o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn bodloni'r Awdurdod eu bod yn bobl 'ffit a phriodol' Os yw'r cais yn cael ei wneud gan gwmni neu fudiad, rhaid i gyfarwyddwr y cwmni/mudiad ddarparu datgeliad sylfaenol. Rhaid i'r ymgeisydd/deiliad swydd dalu am hyn.

Nid oes rhaid i ymgeiswyr sydd yn meddu ar drwydded gyrrwr ar gyfer Cerbyd Hackneu neu Hurio Preifat i ddarparu datgeliad sylfaenol fel rhan o'u cais ar gyfer trwydded gweithredwr Hurio Preifat.

Ni fydd troseddau gyrrwyr yn cael eu hystyried fel rhan o'r asesiad at gyfer deiliad trwydded cerbydau. Ni fydd gwybodaeth a geir o fewn gwiriad DBS datblygedig, na sydd yn rhan o ddatgeliad sylfaenol, i'w ystyried fel rhan o'r asesiad ar gyfer trwydded cerbyd.

Gwiriad Cofnodion Troseddol Tramor

Rhaid i'r holl ymgeiswyr am drwydded gweithredwr cerbydau Hurio Preifat sydd wedi treulio 6 mis neu fwy yn barhaus y tu allan i'r Deyrnas Unedig ers eu pen-blwydd yn 10 mlwydd oed, bydd angen i'r Awdurdod Trwyddedu weld tystiolaeth o wiriad cofnod troseddol o'r wlad / gwledydd y maent wedi ymweld gyda hwy sydd yn cyfateb i'r cyfnod pan oedd yr ymgeisydd dramor.

Bydd angen i'r ymgeisydd dalu am y fath wiriadau.

Dylai'r gwiriadau yma fod ar gael ar gyfer dinasyddion yr UE (gan gynnwys dinasyddion y DU). Yn y gwledydd hynny lle nad yw'r gwiriadau ar gael, bydd angen i'r Awdurdod Trwyddedu dderbyn tystysgrif o ymddygiad da sydd wedi ei dilysu gan y llysgenhadaeth briodol. Rhaid bod hyn wedi ei ddilysu, ei gyfieithu a'i selio gan y Llysgenhadaeth neu'r Uwch Gomisiwn. Mae gwybodaeth am dystysgrifau ymddygiad da neu ddogfennau tebyg sydd i'w cael mewn nifer o wledydd ar gael ar wefan Lywodraeth y DU yma: [GOV.UK Criminal records checks for overseas applicants](https://www.gov.uk/guidance/criminal-records-checks-for-overseas-applicants).

Os nad yw'r ymgeisydd yn medru sicrhau tystysgrif o ymddygiad da, yna ni ddylent fwrw ymlaen gyda'r cais a dylent gysylltu gyda'r Awdurdod Trwyddedu am fwy o wybodaeth.

Rhaid cynnal y gwiriad yma o fewn 6 mis pan eich bod yn cyflwyno eich cais.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu angen tystysgrif o ymddygiad da sydd gan yr ymgeisydd a nid oes ots beth yw oedran y ddogfen.

Bydd tystysgrif o ymddygiad da sydd mewn iaith estron angen ei chyfieithu a bydd rhaid i'r ymgeisydd dalu am hyn a bydd angen dilysu'r cyfieithiad hefyd.

Amodau'r Drwydded

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn meddu ar y pŵer i osod y fath amodau ar drwydded gweithredwr Hurio Preifat fel y mae'n ystyried sydd yn rhesymol, angenrheidiol a'n gymesur. Mae amodau'r drwydded wedi eu manylu yn **Atodiad 27**.

Cydymffurfiaeth a Gorfodaeth Gyffredinol

Prif bwrpas trwydded Cerbydau Hackney a Hurio Preifat yw amddiffyn y cyhoedd a hyrwyddo diogelwch cyhoeddus.

Caiff ei gydnabod fod gweithgarwch gorfodi sydd wedi ei dargedu'n dda gan yr Awdurdod Trwyddedu yn elwa nid yn unig y cyhoedd ond aelodau o'r fasnach Cerbydau Hackney a Hurio Preifat. Wrth geisio cyflawni'r nod i annog busnesau cyfrifol o ran Cerbydau Hackney a Hurio Preifat, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gweithredu cyfundrefn ddisgyblu a gorfodaeth sydd yn gymesur. Er mwyn trafod cydbwysedd rhwng hyrwydd diogelwch y cyhoedd a'r angen i sicrhau nad ydym yn aflonyddu ar fusnes deiliad y drwydded, bydd yr Awdurdod Trwyddedu ond yn ymyrryd pan fydd angen gwneud hyn a'i fod yn briodol. Os yw diffygion yn cynnwys bod angen mynd i'r afael gyda diffygion ar y cerbyd, mae'n anochel bod bywoliaeth pobl yn mynd i gael ei effeithio.

Mae asesiadau cydymffurfiaeth yn sicrhau bod deiliad trwydded yn parhau'n 'ffit a phriodol', Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn medru defnyddio amryw o declynnau a phwerau er mwyn nodi diffyg cydymffurfiaeth, ac mae hyn yn medru cynnwys, ond heb ei gyfyngu, i arolygon rhagweithiol ac adweithiol, ymarferion 'siopwyr cudd', ymarferion gyda phartneriaid, gweithrediadau gorfodaeth sydd wedi eu targedu, ymchwilio cwynion/ceisiadau gwasanaeth.

Bydd camau gorfodaeth yn gymesur, yn gyson a'n sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu hamddiffyn. Bydd pennu'r dull gorfodaeth yn medru cynnwys y canlynol:

- Difrifoldeb y drwydded
- Hanes cydymffurfiaeth flaenorol y drosedd
- Canlyniad diffyg cydymffurfiaeth
- Risg i'r cyhoedd
- Tebygolrwydd o fethu cydymffurfio eto
- Effeithiolrwydd dulliau cydymffurfiaeth/gorfodaeth eraill

Hunan-adrodd gan Ddeiliad y Drwydded

Mae'n ofynnol i bob Deiliad Trwydded hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu o fewn 48 awr i unrhyw achos lle mae wedi cael ei arestio a'i ryddhau am unrhyw drosedd rywiol, unrhyw drosedd sy'n ymwneud ag anonestrwydd neu drais ac unrhyw drosedd foduro. Rhaid hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu ymhellach o fewn 48 awr am unrhyw gyhuddiad ac unrhyw euogfarn. Gallai methiant i ddatgelu arestiad yr hysbysir yr Awdurdod Trwyddedu amdano wedi hynny gael ei ystyried yn ymddygiad sy'n codi amheuaeth ynghylch gonestrwydd ac, felly, addasrwydd deiliad y drwydded, waeth beth fo canlyniad y cyhuddiad cychwynnol. Dylai gyrrwyr hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw gyfweliad gwirfoddol sydd wedi ei gynnal gan yr Heddlu o fewn 48 awr.

Gweithdrefn Disgyblu

Bydd cwynion a wneir yn erbyn deiliaid trwydded gan aelodai o'r cyhoedd, yr heddlu, swyddogion Cyngor neu unrhyw berson perthnasol, yn cael eu hymchwilio'n llawn gan yr Awdurdod Trwyddedu.

Yn dilyn ymchwiliad o gwyn sydd yn ymwneud gydag ymddygiad deiliad trwydded, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried y cosbau disgyblu hefyd:

- a. **Dim cymryd camau** –Os yw'n gwyn gweddol fân heb unrhyw hanes o ymddygiad truenus neu amgylchiadau lliniaru
- b. **Llythyr rhybudd** - ar gyfer unrhyw fân gwynion neu gwynion neu os oes yna batrwm amlwg o ymddygiad truenus. Bydd llythyr rhybudd o bosib yn cael ei ddanfôn os nad yw'r gwyn/trosedd yn cyfiawnhau atal neu ddirymu trwydded. Bydd llythyr rhybudd yn aros ar ffeil deiliad yr unigolyn am 6 mlynedd (neu am gyfnod sydd yn briodol ym marn yr Awdurdod Trwyddedu). Nid oes yna gyfyngiad ar y nifer o lythyron rhybudd y mae gyrrwr yn medru derbyn, ond os yw gyrrwr yn derbyn 2 lythyr cwyn neu fwy o fewn 3 mlynedd am gwynion tebyg, bydd yr Awdurdod Trwyddedu o bosib yn ystyried camau difrifol fel rhybudd ysgrifenedig terfynol neu atal y drwydded dros dro.
- c. **Rhybudd ysgrifenedig terfynol** – gyfer unrhyw fân gwynion neu gwynion os yw deiliad trwydded wedi derbyn llythyr(on) rhybudd am fater tebyg.
- d. **Angen i'r gyrrwyr gwblhau hyfforddiant pellach.** Efallai y daw'r Awdurdod Trwyddedu i'r casgliad bod y gwyn neu'r adroddiad yn erbyn deiliad y

drwydded i'w briodoli i ddiffyg gwybodaeth a bod angen i'r deiliad trwydded i gwblhau hyfforddiant pellach er mwyn cywiro unrhyw ymddygiad ac atal cam-ymddwyn pellach.

- e. **Erlyn** – os oes yna dystiolaeth eglur a bod yna fudd cyhoeddus, bydd deiliad trwydded yn cael ei erlyn am droseddau o dan y ddeddfwriaeth briodol.
- f. **Gwaharddiad Dros Do** – ar gyfer cwynion/troseddau mwy difrifol neu achosion lle y mae deiliad trwydded wedi derbyn rhybudd blaenorol am gwyn/trosedd debyg yn 2 flynedd ddiwethaf. Mae hyd y gwaharddiad yn cael ei ben ar sail yr achos. Mae modd ystyried gwaharddiad lle nad oes rhybudd wedi ei roi cynt os yw'r Awdurdod Trwyddedu yn credu fod difrifoldeb yn gwarantu hyn.
- g. **Gwahardd y Cerbyd (Hysbysiad Stop)** – bydd trwydded cerbyd yn medru cael ei wahardd dros dro os nad yw'r cerbyd yn cwrdd ag amodau'r drwydded neu os nad yw'n addas i fod ar yr heol. Mae'r hysbysiad yn datgan nad oes modd defnyddio'r cerbyd fel cerbyd Trwyddedig tan fod y diffyg wedi ei gywiro a bod yr hysbysiad wedi ei ddirymu gan yr Awdurdod Trwyddedu.
- h. **Dirymu** – ar gyfer patrymau parhaus o ymddygiad gwael lle y mae rhybudd(ion) neu waharadd(iadau) eisoes wedi eu rhoi. Ar gyfer materion difrifol lle y mae'r Awdurdod Trwyddedu yn credu nad yw'r gyrwyr yn ffit ac yn briodol mwyach i feddu ar drwydded.
- i. **Goruchwyliaeth/Dirymu'n syth** – os oes yna fudd cyhoeddus, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn medru atal/dirymu'r drwydded yn syth.
- j. **Gwrthod adnewyddu trwydded** – fel 'Dirymu' uchod
- k. **Ychwanegu amodau pellach ar y drwydded** - Efallai y byddai ychwanegu amodau pellach i'r drwydded er mwyn atal yr Awdurdod rhag atal neu ddirymu trwydded.

Cynllun Pwyntiau Cosb

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn gweithredu cynllun pwyntiau cosb er mwyn cynorthwyo camau gorfodi cyson a thryloyw yn erbyn gyrwyr trwyddedig, perchnogion cerbydau a gweithredwyr. Mae'r cynllun wedi ei fanylu yn **Atodiad 28**

Apeliadau

Mae unrhyw unigolyn sydd yn anhapus am ei fod trwydded wedi ei hatal/gwrthod/dirymu yn medru apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Trwyddedu i'r Llys Ynadon Lleol o fewn 21 diwrnod o'r penderfyniad. Rhaid nodi hyn gyda'r Llys yn unol gyda'r darpariaethau statudol perthnasol. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cyngori partïon i ofyn am farn gyfreithiol briodol yn y fath amgylchiadau.

Mae hawl gwneud apêl yn erbyn penderfyniad gan Lys yr Ynadon drwy wneud apêl at Lys y Goron.

Gweithio mewn Partneriaeth

Er mwyn sicrhau bod y camau gorfodi a chydymffurfiaeth mor effeithiol ag sydd yn bosib, mae angen weithiau i'r Awdurdod Trwyddedu i weithio ag asiantaethau eraill. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys, yr heddlu, Driver and Vehicles Standards Agency (DVSA), Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, awdurdodau lleol cyfagos, timau diogelu oedolion a phlant ac unedau cludo teithwyr.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu hefyd yn ceisio gweithio'n agos gyda'r fasnach Cerbydau Hackney a Hurio Preifat er mwyn parhau i sicrhau od y diwydiant yn dod yn fwy proffesiynol a'n gwella safon y gwasanaeth.

Ceisiadau a Chwynion am y Gwasanaeth

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ymchwilio ceisiadau gwasanaeth a chwynion a wneir yn erbyn deiliad trwydded, yn darparu manylion sydd wedi eu derbyn a fydd yn medru helpu cadarnhau hunaniaeth y deiliad trwydded. Bydd manylion yn cynnwys neu'r deiliad trwydded, rhif y drwydded neu rif cofrestru'r cerbyd.

Wedi ymchwilio'r gwyn, efallai y bydd angen i'r sawl sydd yn gwneud y gwyn i ddarparu datganiad tyst ysgrifenedig. At hyn, efallai y bydd angen cyflwyno tystiolaeth mewn person i Bwyllgor Disgyblu neu'r Llys.

Efallai y byddwn yn gofyn am ddatganiadau gan y deiliad trwydded neu unrhyw dystion eraill.

Wrth ddod i benderfyniad ynglŷn â pha gamau sydd angen eu cymryd, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried yr holl dystiolaeth a'r amgylchiadau lliniaru.

Mae manylion ynglŷn â sut i wneud cwyn i'w cael ar wefan y Cyngor

www.monmouthshire.gov.uk/taxi-licence

Gorfodaeth ar draws Ffiniau

Os daw'n amlwg bod nifer o gerbydau sydd wedi'u trwyddedu gan yr Awdurdod hwn yn gwneud y mwyafrif (h.y. mwy na 50%) o'r gwaith Hurio Preifat mewn ardal awdurdod lleol arall, neu pan fo'n amlwg bod nifer o gerbydau sydd wedi'u trwyddedu gan awdurdod lleol arall yn gwneud y mwyafrif o'r gwaith Hurio Preifat yn yr ardal hon, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ceisio datblygu protocolau gorfodi gyda'r Awdurdodau lleol hynny.

O dan yr amgylchiadau hyn, dilynir y protocol canlynol (fel y'i disgrifir yn Local Government Association's Taxi and PHV Licensing Councillor's handbook):

- Mae pob Awdurdod yn cytuno ar y lefel ofynnol o arbenigedd/cymwysterau/sgiliau ar gyfer cymeradwyo awdurdodi pob unigolyn.
- Mae pob Awdurdod yn nodi, drwy ei gynlluniau dirprwyo ei hun, ba gamau gweithdrefnol sydd angen eu cymryd er mwyn Awdurdodi unigolyn yn ddilys (h.y. adroddiad prif swyddog, penderfyniad is-bwyllgor neu bwyllgor llawn).
- Mae pob Awdurdod yn cytuno ar ffurf a geiriad y 'llythyr Awdurdodi' a'r 'cerdyn gwarant â llun' sydd i'w cyhoeddi.
- Mae pob 'cyngor sy'n gwneud cais' yn gwneud cais ffurfiol i awdurdodi swyddogion unigol a enwir.
- Mae pob 'cyngor sy'n derbyn' yn cael awdurdodiad ac yn rhoi 'llythyr Awdurdodi' mewn perthynas â swyddogion yr Awdurdod arall.
- Mae pob Awdurdod cyflogi yn rhoi cerdyn gwarant â llun i'w swyddogion ei hun sy'n nodi, at ddibenion [nodwch y Deddfau Seneddol], fod [enw] yn swyddog a Awdurdodwyd yn briodol yn [rhestr o'r holl gynghorau awdurdodi].
- Mae pob Awdurdod yn rhoi copiâu o is-ddeddfau priodol, amodau a methodolegau/systemau adrodd y cytunwyd arnynt ar gyfer ymdrin â cherbydau diffygiol a materion eraill o ardaloedd eraill i bob swyddog.
- Mae pob Awdurdod yn ceisio cymeradwyaeth wleidyddol ac ariannol ar gyfer gweithrediadau ar y cyd a gynlluniwyd ymlaen llaw gyda'i gilydd a gyda'r heddlu/Cyllid a Thollau EM.
- Caiff protocolau rhannu data, fel y bo angen, eu sefydlu rhwng Awdurdodau, gan gynnwys templedi cofnodi digwyddiadau/logiau gweithrediadau safonol i'w defnyddio gan bawb er mwyn sicrhau cysondeb a chofnodi cynlluniau.

Mae unrhyw gynllun neu ystyriaeth leol i'w cael yma

www.monmouthshire.gov.uk/licensing/taxi-licence

Atodiad 1

Gweithdrefn/canllaw Gwneud Cais am Yrrwr

Rhaid gwneud cais am drwydded gyrrwr Cerbyd Hackney Hurio Preifat ar ffurf benodol. Bydd yr Awdurdod Lleol yn danfon gohebiaeth at yrwyr ar e-bost, er y dylid nodi mai cyfrifoldeb y gyrrwr yw sicrhau bod ceisiadau adnewyddu yn cael eu cyflwyno mewn modd amserol.

Er mwyn caniatáu'r dogfennau i gael eu prosesu, rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr Awdurdod Trwyddedu yn derbyn eu ceisiadau cyflawn, gan gynnwys y ffi ac unrhyw ddogfennau eraill e.e. DBS, o leiaf pythefnos cyn dyddiad dod i ben trwydded y gyrrwr. Nid oes modd adnewyddu trwydded ar ôl y dyddiad yma, ac yn y fath achosion, bydd ymgeiswyr yn cael eu trin fel rhai newydd. (Os yw gyrrwr yn methu adnewyddu ei drwydded ar amser ac yn caniatáu'r drwydded i fynd yn annilys, byddai hyn yn cael ei ystyried fel bod ef/hi yn anwybyddu'r gyfraith ac amodau'r drwydded, ac felly, efallai y bydd angen ail-sefyll yr elfen hon o'r prawf gwybodaeth).

Mae angen i'r holl yrwyr i gael cyfeiriad e-bost cyfredol a dilys fel bod yr Awdurdod yn medru cynnal gwiriad DBS a danfon apwyntiadau perthnasol ac yn medru danfon nodyn atgoffa i ymgeiswyr a gyrwyr.

Mae'r ffurflenni a'r canllaw llawn ar gael yma - www.monmouthshire.gov.uk/licensing/taxi-licence

Tabl o ddirprwyaeth

Delegation Caution or Conviction	Panel Disgyblu /Is-Bwyllgor Trwyddedu	Rheolwr Trwyddedu/Prif Swyddog
Trosedd yn Arwain at Farwolaeth		X
Ecsbloetio		X
Troseddau yn Ymwneud gyda Thrais		X
Yn Cario Arf		X
Troseddau Rhyw ac Anwedduster		X
Anonestrwydd		X
Cyffuriau		X
Gwahaniaethu		X
Euogfarnau Moduro (Mân)	X (7 pwynt +)	X (o dan 7 pwynt)
Euogfarnau Moduro (Mawr)	X (Gyrwyr neu Trwyddedig geisiadau adnewyddu)	X (Ymgeiswyr newydd)
Yfed a Gyrru		X
Gyrru o dan Ddylanwad Cyffuriau		X
Defnyddio Ffôn neu Declyn Llaw Tra'n Gyrru.	X	
Troseddau Cerbydau Hackney a Hurio Preifat	X	
Troseddau'n Ymwneud gyda Defnyddio Cerbyd	X	
Gweithredwyr Hurio Preifat	X	X (Ychwanegu amodau pellach at drwydded y Gweithredwr os yw'r Gweithredwr yn cytuno; atal trwydded y Gweithredwr am resymau Diogelu)
Perchnogion Cerbyd	X	
Materion Eraill i'w Hystyried, er enghraifft ymddygiad gyrwyr.	X	X (Materion yn ymwneud gyda Diogelu * gweler isod)
Materion sydd y tu hwnt i'r polisïau uchod ond angen eu pennu er budd y cyhoedd neu os yw'r Rheolwr Trwyddedu yn teimlo ei fod yn briodol i atgyfeirio unrhyw ymgeisydd neu yrrwr i'r Panel Trwyddedu i'w hystyried er budd y cyhoedd os yw'r Rheolwr yn teimlo nad yw ef/hi yn medru pennu'r fath gais.	X	

Nid yw'r polisi yn ymdrin gyda phob sefyllfa ond byddwn yn ystyried pob achos ar sail ei rinweddau.

Os yw'n cael ei ystyried yn fater brys a'n ymwneud gyda mater o ddiogelu* gan y Rheolwr Trwyddedu neu'r Uwch Swyddog yn absenoldeb y Rheolwr, bydd y Rheolwr Trwyddedu yn medru dirymu Trwydded Gyrwyr Cerbyd Hackney neu Hurio Preifat.

Wedi derbyn adroddiad gan y Swyddog Trwyddedu, bydd y Rheolwr Trwyddedu yn penderfynu a ddylid caniatáu ymgeisydd i ail-ymgeisio am drwydded ar ôl cael ei ddirymu gynt, a hynny o dan telerau'r polisi. Mae'r naill swyddog yn medru cyfeirio'r mater at Y pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio.

Ni fydd ffi yn cael ei godi am gais newydd i ail-osod trwydded ar ôl iddi gael ei dirymu, a hynny ar yr amod bod hyn yn cael ei wneud yn y cyfnod trwyddedu pe na bai'r drwydded wedi ei dirymu a bod ail-osod y drwydded ddim y tu hwnt i'r cyfnod trwyddedu gwreiddiol.

Bydd y canllaw canlynol yn ystyried pryd y dylid ystyried cais yn dilyn dirymiad: -

Natur y sail ar gyfer dirymu.

Bydd y drwydded yn cael ei dirymu os caiff ei ystyried nad yw gyrrwr y Cerbyd Hackney / Hurio Preifat yn ddigon 'ffit a phriodol' mwyach yn unol ag Adran 61 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Bydd ystyried cais newydd yn dilyn dirymiad ond yn cael ei ystyried os yw'r ymgeisydd yn cwrdd â'r meini prawf fel person 'ffit a phriodol' a'r rhesymau gwreiddiol ar gyfer dirymu'r drwydded ddim mor berthnasol erbyn hyn. Rhaid i'r ymgeisydd sicrhau ei fod yn cwrdd â'r meini prawf cyn bod y Rheolwr Trwyddedu yn ystyried y cais. Yr ymgeisydd sydd yn gyfrifol am gwrdd â'r meini prawf yma ac efallai y bydd rhaid, mewn rhai amgylchiadau, i gael gwiriadau newydd gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (Swyddfa Cofnodion Troseddol gynt) a manylion gan y DVLA gan ddibynnu ar natur y dirymiad. Y Rheolwr Trwyddedu fydd yn penderfynu hyn.

Cyfnod sydd wedi mynd heibio ers dirymu'r drwydded

Ni fydd unrhyw ystyriaeth yn cael ei rhoi i ymgeiswyr os yw eu trwydded wedi ei ddirymu am gyfnod o 6 mis neu fwy. Yn y fath amgylchiadau, bydd angen i'r ymgeisydd i fynd drwy'r broses gais lawn.

Dirymu am Resymau Meddygol

Os yw'r drwydded yn cael ei dirymu am resymau meddygol, rhaid i'r ymgeisydd brofi nad yw hyn yn bryder mwyach a chynnig manylion gan arbenigwyr a/neu Feddyg Cyffredinol yr ymgeisydd sydd yn cadarnhau bod yr ymgeisydd yn cydymffurfio gyda Grŵp II fel sydd wedi ei nodi gan y DVLA, a hyn oll cyn bod y Rheolwr Trwyddedu yn ystyried y cais.

Dirymu am Resymau Troseddol

Efallai y bydd gofyn i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth yn dangos ei fod yn berson ffit a phriodol ac o bosib bydd y Rheolwr Trwyddedu yn gofyn am wiriadau pellach. Efallai y bydd yr Awdurdod yn gofyn am gadarnhad Heddlu Gwent os yw'r person yn

‘ffit a phriodol’ i yrru Cerbyd Hackney / Hurio Preifat. Byddai unrhyw bryderon gan Heddlu Gwent yn golygu gwrandawriad gyda Phwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio.

Hawl Gwneud Apêl

Mae hawl gan ymgeisydd i wneud apêl i'r Llys Ynadon o fewn 21 diwrnod pan wneir unrhyw benderfyniad i atal neu ddirymu trwydded.

Atodiad 3

Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat: polisi eithriad meddygol o'r Ddeddf Cydraddoldeb

Gyrwyr Cerbydau Hackney a Hurio Preifat – Polisi Eithriad Meddygol o Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb Act 2010 yn gosod nifer o ddyletswyddau cyfreithiol at yrwyr trwyddedig wrth gludo teithwyr ag anableddau.

Cŵn Cymorth

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar Yrwyr Trwyddedig Cerbydau a Hurio Preifat i gludo cŵn tywys, clywed a mathau eraill o gŵn cymorth sydd gan bobl anabl, gan wneud hyn heb godi ffi ychwanegol.

Mae'r dyletswyddau yma yn berthnasol i gŵn sy'n cael eu darparu gan elusennau'r DU sy'n gysylltiedig gydag Assistance Dogs UK, mudiadau tramor cyfatebol neu gŵn cymorth sydd wedi eu hyfforddi gan eu perchnogion; nid oes ots os yw'r ci yn gwisgo harnes neu siaced neu'n meddu ar dystysgrif ffurfiol. Pan fydd teithiwr posib yn dweud ei fod am deithio gyda chi cymorth, rhaid derbyn hyn.

Mae cŵn cymorth yn cael eu hyfforddi i deithio gyda'u Perchennog gan orwedd fel arfer wrth draed y Perchennog, a bydd y Perchennog yn cyfarwyddo'r ci i mewn ac allan o'r cerbyd. Dylid gofyn i deithiwr sydd â chi cymorth os yn am eistedd rhywle arbennig – efallai bod rhai am eistedd yn y sedd flaen gan fod mwy o le ar gyfer y ci ger eu traed. Dylai gyrwyr fod yn barod i gynorthwyo'r fath dithwyr cyn belled ag sydd yn rhesymol; fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd y cŵn angen help i fynd i mewn ac allan o'r rhan fwyaf o gerbydau ac eithrio agor y drws. Ni ddylai gyrwyr geisio gwahanu'r ci cymorth o'r Perchennog gan fynnu fod y ci yn mynd i ran arall o'r cerbyd – mae hyn yn medru achosi trallod i'r ci a'r Perchennog. Mae cŵn cymorth yn medru yng nghefn y car os yw'r Perchennog yn cytuno gyda hyn.

Mae cŵn cymorth yn cael eu magu a'u dewis am eu bod yn addfwyn ac yn derbyn hyfforddiant arbenigol cyn dechrau yn eu rôl. Maent yn cael eu gwirio'n aml gan filfeddyg. Tra ein bod yn cydnabod bod nifer o yrwyr, na sy'n gyfarwydd gyda chŵn yn teimlo'n ansicr bod ci mor agos iddynt mewn car, nid yw hyn yn rheswm digonol dros wrthod cludo teithwyr â chi. At hyn, nid yw credoau crefyddol yn ddigon o sail i wrthod cludo cŵn cynorthwyo mewn tacsis a cherbydau Hurio Preifat, ac nid yw hyn yn gyson gyda gofynion cyfreithiol eraill o dan gyfraith y DU.

Mae gyrwyr sydd â chyflyrau meddygol penodol sydd yn cael eu gwaethygu os ydynt yn dod i gysylltiad gyda chŵn yn medru cael eu heithrio o'r gofynion yma ar sail feddygol.

Mae cael eich eithrio i gludo teithwyr sydd â chŵn cymorth ond yn cael ei ganiatáu ar sail feddygol. Rhaid i ymgeiswyr felly i ddarparu tystiolaeth feddygol i'r Awdurdod Trwyddedu ar gyfer hyn.

Y prif resymau pam fod gyrwyr Cerbyd Hackney neu gerbyd Hurio Preifat am wneud cais am eithriad meddygol yw:

i) os oes cyflwr difrifol fel asthma difrifol sydd yn cael ei waethygu pan eu bod yn dod i gysylltiad gyda chŵn.

ii) os oes ganddynt alergedd at gŵn; neu

iii) os oes ganddynt ffobia aciwt tuag at gŵn.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu felly'n disgwyl bod y nifer sydd yn gymwys am eithriadau yn isel iawn.

Er mwyn gwneud cais am gael eich eithrio rhag gorfod cludo cŵn cymorth, rhaid i Ymarferydd Meddygol Arbenigol lenwi ffurflen. Mae'r ffurflen ar-lein neu ar gael gan yr Awdurdod Trwyddedu.

Mae Ymarferwyr Meddygol Arbenigol yn cynnwys ond nid wedi eu cyfyngu i:

i) arbenigwr / ymgynghorydd

ii) nyrs arbenigol (er enghraifft, nyrs asthma).

iii) nyrsys practis; neu

iv) meddyg annibynnol enwebedig y Cyngor.

Mewn amgylchiadau eithriadol, ac os nad oes dim opsiynau eraill, gall yr Awdurdod Trwyddedu ystyried tystiolaeth gan Feddyg Teulu'r ymgeisydd.

Rhaid i'r ffurflen gynnwys tystiolaeth ddigonol yr alergedd e.e. canlyniadau profion alergedd, hanes clinigol ayyb. Nid yw datganiad syml yn ddigonol ar gyfer caniatáu eithriad.

Os oes ffobia cronig gan y gyrrwr tuag at gŵn, byddai'r Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl adroddiad gan seiciatrydd neu seicolegydd clinigol cyn caniatáu eithriad.

Yr ymgeisydd fydd yn gyfrifol am dalu a darparu unrhyw dystiolaeth feddygol.

Os yw gyrwyr yn cael ei eithrio rhag cludo cŵn cymorth, bydd yn derbyn tystysgrif a bathodyn fel sydd wedi ei ragnodi gan y gyfraith.

Bydd yr eithriad yn cael ei roi am gyfnod o amser fel sydd yn cael ei benderfynu gan yr Awdurdod Trwyddedu.

Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r fath o Gerbyd Hackney sydd i'w yrru. Rhoddir ystyriaeth benodol i tu mewn y cerbyd ac a oes rhywbeth yn gwahaniaethu'r gyrrwr rhag y ci cymorth a'r teithiwr.

Rhaid arddangos y bathodyn yn eglur drwy'r amser mewn unrhyw Gerbyd Hackney Carriage neu gerbyd Hurio Preifat sydd yn cael ei yrru gan y gyrrwr sydd wedi ei eithrio a bydd angen dangos hyn i Swyddog Awdurdodedig pan fydd angen.

Os na cheir tystysgrif eithriad meddygol gan yr Awdurdod Trwyddedu, byddai'n drosedd i yrwyr Cerbyd Hackney neu Hurio Preifat i wrthod cludo ci cymorth, neu wrthod caniatáu'r ci cymorth i aros gyda'r teithiwr yn ystod y daith, neu os yw'n codi ffi ychwanegol am gludo'r ci cymorth.

Cadeiriau Olwyn

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswyddau ar yrwyr Cerbydau Hackney a Hurio Preifat sydd yn defnyddio cerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn i gludo teithwyr mewn cadeiriau olwyn gan ddarparu cymorth iddynt er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn rhesymol gysurus, a'n gwneud hynny heb unrhyw ffi ychwanegol.

Mae'r math o gymorth sydd o bosib ei angen yn cynnwys:

- Os yw'r teithiwr am aros yn y gadair olwyn, rhaid i'r gyrrwr i helpu'r teithiwr i fynd i mewn ac allan o'r cerbyd gan sicrhau bod y gadair olwyn yn ddiogel gyda manylebau'r cerbyd
- Os yw'r teithiwr am symud i sedd, rhaid i'r gyrrwr ei helpu symud allan o'r gadair olwyn ac i mewn i sedd ac yna nôl i mewn i'r gadair olwyn; rhaid i'r gyrrwr osod y gadair olwyn yn y cerbyd ac unrhyw fagiau.

Mae gyrrwyr sydd yn methu cydymffurfio gyda'r uchod heb reswm dilys yn troseddu ac o bosib yn medru cael ei ddirwyo hyd at £1,000 am bob trosedd os yn euog. Mae troseddau eraill yn medru arwain at drwyddedau tacsï yn cael eu dirymu neu'u hatal.

Caiff 'cadair olwyn' ei diffinio mewn statud fel a ganlyn: Hyd: 1200mm (tua. 48") gan gynnwys platiau troed Lled: 700mm (28") Cyfanswm uchder sedd: 1350mm (54") Uchder lle y mae'r traed yn gorffwys: 150mm (6")

Rydym yn credu y bydd y dimensiynau uchod yn briodol ar gyfer y rhan fwyaf o gadeiriau olwyn - ond yn cydnabod bod rhai cadeiriau olwyn arbenigol, fecanyddol neu sgwteri mudol, yn fwy na'r dimensiynau yma ac nid oes modd eu gosod a'u cludo yn ddiogel ym mhob math o dacsï. Yn y fath achosion, disgwylir i yrwyr asesu a oes modd cludo'r teithiwr yn y cerbyd yn ddiogel ac yn gysurus, neu eu cynorthwyo i chwilio am gerbyd amgen, os yn ymarferol. Efallai bod y fath amgylchiadau yn cynnig amddiffyniad i'r drosedd a nodir uchod.

Ym mhob achos, mae disgwyl i yrwyr drin teithwyr gyda pharch a sensitifrwydd gan gynnig esboniad eglur iddynt ynglŷn â pham nad ydynt yn medru eu cludo.

Mae ambell reswm meddygol yn golygu nad yw gyrrwr yn medru rhoi cymorth, er enghraifft, os yw cyflwr corfforol y person yn golygu nad yw hyn yn bosib, neu'n anodd, i gynorthwyo teithwyr mewn modd penodol o gadair olwyn.

Gan mai'r prif reswm sydd gan yrwr Cerbyd Hackney neu Hurio Preifat i wneud cais am eithriad meddygol yw anafiadau sydd yn ymwneud gyda chyhyrau, ni fyddai'n debygol eu bod yn gyrru am gyfnodau hir beth bynnag, ac mae'r Awdurdod Trwyddedu yn dysgu bod y nifer sydd yn gymwys am eithriad yn isel.

Er mwyn gwneud cais am eithriad i gludo cadair olwyn a chynnig cymorth, rhaid cwblhau ffurflen. Rhaid bod y ffurflen hefyd yn cael ei chwblhau gan Ymarferydd Cyffredinol yr ymgeisydd neu Ymarferydd Meddygol Arbenigol, a thystiolaeth ddigonol fel diagnosis llawn, manylion ymchwiliadau parhaus ayyb. Ni fydd ffurflen datganiad syml gan weithiwr proffesiynol meddygol yn ddigon er mwyn gofyn am eithriad.

Bydd rhaid i'r ymgeisydd i dalu am unrhyw gostau sydd yn rhan o'r broses hon.

Penderfyniad yr Awdurdod Trwyddedu

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn dod i benderfyniad ar sail y wybodaeth yn y ffurflen feddygol a'r adroddiadau perthnasol. Os yw'r rhain yn amwys mewn unrhyw ffordd, ni fydd penderfyniad yn cael ei wneud a bydd angen cyflwyno gwybodaeth bellach gan Ymarferydd Meddygol Arbenigol yn gofyn am ymateb clir.

Bydd ymgeiswyr sydd yn meddu ar gyflwr dros dro yn derbyn eithriad am gyfnod penodol. Os yw'r ymgeisydd am ymestyn y cyfnod hwn, bydd angen asesiad meddygol pellach cyn bod y dystysgrif eithriad yn dod i ben.

Os nad oes yna gais i ymestyn yr eithriad, bydd disgwyl i yrwyr i barhau gyda'u dyletswyddau normal o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 unwaith y mae'r dystysgrif eithriad yn dod i ben.

Rhaid i unrhyw yrwyr sydd yn meddu ar dystysgrif eithriad meddygol dros dro ei ddychwelyd i'r Awdurdod Trwyddedu o fewn un diwrnod ar ôl i'r dystysgrif ddod i ben.

Apelio

Mae unrhyw yrwyr sydd yn anhapus gyda phenderfyniad yr Awdurdod Trwyddedu i wrthod rhoi dystysgrif eithriad meddygol yn medru apelio at Lys yr Ynadon o fewn 21 diwrnod o'r dyddiad ar ôl derbyn y penderfyniad.

Deddf Tacsî a Cherbyd Hurio Preifat (Pobl Anabl) 2022

Cynt, roedd gyrwyr Cerbydau Sy'n Hygyrch i Gadeiriau Olwyn yn medru gwneud cais am dystysgrif eithriad am resymau meddygol neu os yw eu cyflwr corfforol yn golygu nad yw hi'n bosib neu' anodd i ymgymryd â'r dyletswyddau sydd eu hangen o dan adran 165 o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. (Fel sydd wedi ei amlygu uchod)

Daeth y Ddeddf Tacsî a Cherbyd Hurio Preifat (Pobl Anabl) 2022 i rym ar 28 Mehefin 2022.

Golyga hyn nawr bod **Pob Gyrwr Cerbyd Hackney a Hurio Preifat (nid gyrwyr Cerbydau Sy'n Hygyrch i Gadeiriau Olwyn)** yn medru gwneud cais am dystysgrif eithriad ar sail feddygol neu os yw eu cyflwr meddygol yn eu hatal rhag ymgymryd â'r dyletswyddau symudedd sydd eu hangen ac wedi eu manylu yn adrannau 164a a 165 (fel sydd wedi eu hychwanegu/diwygio gan Ddeddf 2022).

- Bydd hysbysiadau eithriad cyfredol a newydd, pan maent yn cael eu harddangos yn gywir, yn eithrio gyrwyr o'r **dyletswyddau cymorth symudedd yn unig** fel sydd yn adrannau 164a a 165 - gan olygu nad oes modd defnyddio cyflwr meddygol y gyrrwr mwyach fel cyfiawnhad ar gyfer codi ffi uwch ar bobl anabl o'u cymharu gyda phib anabl.

O'r 28 Mehefin 2022, bydd yr holl Yrwyr a Gweithredwyr Cerbydau Hackney Hurio Preifat – nid oes ots os yw'r cerbyd yn hygyrch i gadeiriau olwyn – yn gorfod cydymffurfio gyda'r dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae'r prif newidiadau i'w gweld isod.

Bydd angen i Yrwyr Cerbydau Hackney Hurio Preifat i:

- Cludo person anabl, a rhoi cymorth symudedd rhesymol a charo unrhyw offer anabl, a hynny heb godi ffi uwch ar bobl anabl o'u cymharu gyda phobl anabl.
- Rhoi cymorth i unrhyw bobl anabl sydd yn gofyn am help i ddod o hyd i'r cerbyd y maent wedi archebu, am ddim.

Bydd angen i weithredwr Hurio Preifat:

- Derbyn archebion ar ran unrhyw bobl anabl, os oes ganddynt gerbyd addas.

Mae modd o wybodaeth am y dyletswyddau yma ar gael drwy fynd i'r wefan [Access to taxis and private hire vehicles for disabled users - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/topics/access-to-taxis-and-private-hire-vehicles-for-disabled-users)

Mae gyrwyr sydd yn credu nad ydynt yn medru cynnig cymorth symudedd yn gorfod gwneud cais i'r Tîm Trwyddedu am dystysgrif eithriad ar gyfer cynnig cymorth rhesymol i deithwyr anabl. Nodwch os gwelwch yn dda bod yn rhaid i'ch Meddyg gymeradwyo hyn. Mae'r ffurflen eithriad ar gael yma www.monmouthshire.gov.uk/licensing/taxi-licence neu drwy gysylltu gyda'r Tîm Trwyddedu licensing@monmouthshire.gov.uk

Atodiad 4

Canllaw yr Hawl i Weithio

Bydd yr Awdurdod ond yn caniatáu trwydded gyrrwr Cerbyd Hackney / Hurio Preifat i'r sawl sydd yn meddu ar yr hawl i weithio o fewn y DU yn unol gyda deddfwriaeth genedlaethol. Mae angen i yrwyr i ddarparu tystiolaeth o'u statws mewnfudo yn unol gyda Chanllawiau'r Llywodraeth neu Ddeddfwriaeth.

Os yw ymgeisydd yn gwneud cais am drwydded ond nid oes hawl ganddo i weithio yn y DU, bydd y manylion yn cael eu trosglwyddo i'r Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo. Mae manylion pellach ar gae yma www.bia.homeoffice.gov.uk/employingmigrants

Atodiad 5

Cod Ymddygiad Gyrwyr Cerbydau Hackney / Hurio Preifat

Dylid darllen y Cod yma ar y cyd gyda gofynion statudol a Pholisïau eraill sydd wedi eu hamlinellu yn y ddogfen hon, a dylid nodi **nad** yw'r rhain yn **amodau** er y **dylai gyrwyr sydd yn Ffit a'n Briodol i gydymffurfio gyda'r Cod**.

Cyfrifoldeb i'r Fasnach:

Bydd deiliad trwydded yn ceisio hyrwyddo delwedd y Cerbydau Hackney a Hurio Preifat drwy:

- Cydymffurfio gyda'r Cod Ymddygiad Da.
- Cydymffurfio ag holl Amodau'r Drwydded, Is-ddeddfau a Pholisi Trwyddedu Cerbydau Hackney a Hurio Preifat.
- Ymddwyn mewn modd sifil, trefnus a chyfrifol drwy'r amser.

Cyfrifoldebau i'r Cleientiaid :

Bydd deiliaid trwydded yn:

- Cynnal eu cerbydau mewn cyflwr diogel a boddhaol drwy'r amser. Yn cynnal gwiriadau cyson o'r cerbyd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Rheoliadau Adeiladwaith a Defnydd o Gerbydau Modur er mwyn sicrhau bod y cerbyd yn addas ar gyfer yr heol ac yn medru cludo teithwyr. Os oes yna ddiffygion sydd yn tanseilio cyflwr y cerbyd, ni ddylai'r gyrrwr yrru'r cerbyd tan fod hyn wedi ei gywiro.
- sicrhau bod y cerbyd yn lân, yn ddiogel ac mewn cyflwr boddhaol bob amser
- cyrraedd yn brydlon pan fyddant wedi cael eu hurio ymlaen llaw
- lle y bo angen, yn helpu teithwyr i fynd i mewn ac allan o'r cerbyd
- rhoi cymorth rhesymol i deithwyr ag unrhyw fagiau
- Ni ddylai'r gyrrwr gael unrhyw gyswllt rhywiol neu bod ymddwyn mewn modd rhywiol yn gorfforol neu'n eiriol, tuag at deithwyr sydd yn cael eu cludo. Dylai'r gyrrwr sicrhau bod ei fod yn gofalu am y teithiwr/teithwyr ac ni ddylai eu rhoi mewn unrhyw sefyllfa sydd yn medru arwain at beryg corfforol neu foesol. Rhaid hysbysu'r Awdurdod perthnasol o unrhyw ymddygiad amheus e.e. Heddlu, Gwasanaethau Plant neu swyddogion trwyddedu.
- Yn broffesiynol a'n dangos dealltwriaeth o ddefnyddwyr y ffordd
- Yn gwrtais i deithwyr
- Ymatal rhag defnyddio ffôn mudol neu ddyfais debyg tra'n gyrru
- Yn weddus a'n lân o ran ymddangosiad
- Yn ymwybodol o hylendid personol
- Yn cludo teithwyr ar y llwybr byrraf sydd ar gael

1. Cyfrifoldeb ar Drigolion:

Er mwyn osgoi bod yn niwsans i drigolion wrth gasglu neu aros am deithwyr, bydd y gyrrwr yn:

- Ymatal rhag defnyddio'r corn rhwng 11:30 pm a 07:00am oni bai bod yna beryg yn sgil defnyddiwr ffordd arall neu gerbyd sydd gerllaw).
- Cadw lefel y sŵn neu'r radio yn isel
- Diffodd injan y car os oes angen aros, oni bai bod y car yn meddu ar dechnoleg dechrau/diffodd
- Cymryd unrhyw gamau sydd angen er mwyn osgoi aflonyddwch i drigolion yn y gymdogaeth
- Casglu a gollwng teithwyr yn ddiogel heb beryglu cerddwyr ac eraill sydd yn defnyddio'r ffordd

2. Cyfrifoldebau o ran Safleoedd a Swyddfeydd

Bydd deiliaid trwydded yn:

- Ffurio rhes drefnus a'n symud ar hyd y rhes yn brydlon ac mewn trefn
- Aros gyda'r cerbyd.
- Ymatal rhag gadael eu radio neu beiriannau eraill i wneud sŵn sydd yn aflonyddu'r gymdogaeth
- Nid oes hawl gan Gerbydau Hurio Preifat i barcio mewn maes ar gyfer Cerbydau Hackney.

5. Cyffredinol

Bydd gyrwyr yn:

- gofalu am eu hyllendid personol a'u gwisg fel eu bod yn cyfleu delwedd broffesiynol i'r cyhoedd.
- yn foegar, yn ddefnyddiol ac yn deg i deithwyr
- gyrru gyda gofal ac ystyriaeth i ddefnyddwyr a cherddwyr eraill
- cydymffurfio gorchmynion rheoleiddio traffig
- ymatal rhag bwyta yn y cerbyd tra bod cwsmeriaid yno; a
- parchu Swyddogion Trwyddedig wrth iddynt ymgymryd â'u dyletswyddau normal.
- O fewn 48 awr i ddod o hyd i eiddo coll, rhaid i'r gyrrwr adael yr eitemau yn yr orsaf heddlu neu drwy gofrestru hyn gyda system ar-lein neu system ffôn Heddlu.
- Bydd deiliad y drwydded yn hysbysu'r Cyngor yn syth yn ysgrifenedig (neu ym mhob achos o fewn 48 awr) os yw'n wynebu un o'r canlynol:
 - Wedi ei arestio neu'n rhan o ymchwiliad troseddol,
 - gwŷs,
 - arwystl,
 - euogfarn,
 - rhybudd ffurfiol/symf,
 - hysbysiad cosb benodol neu gwrs ymwybyddiaeth o gyflymder,
 - gorchymyn llys troseddol,
 - gorchymyn ymddygiad troseddol neu waharddeb ymddygiad gwrthgyrmyddasol,
 - gorchymyn trais domestig,
 - rhybudd neu rwympo
 - unrhyw fater sydd yn ymwneud gyda chyfiawnder adferol a'n darparu'r fath wybodaeth am amgylchiadau fel sydd angen gan y Cyngor.

Mae'n ofynnol i bob Deiliad Trwydded hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu o fewn 48 awr i unrhyw achos lle mae wedi cael ei arestio a'i ryddhau am unrhyw drosedd rywiol, unrhyw drosedd sy'n ymwneud ag anonestrwydd neu drais ac unrhyw drosedd foduro. Rhaid hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu ymhellach o fewn 48 awr am unrhyw gyhuddiad ac unrhyw euogfarn. Gallai methiant i ddatgelu arestiad yr hysbysir yr Awdurdod Trwyddedu amdano wedi hynny gael ei ystyried yn ymddygiad sy'n codi amheuaeth ynghylch gonestrwydd ac, felly, addasrwydd deiliad y drwydded, waeth beth fo canlyniad y cyhuddiad cychwynnol. Dylai gyrwyr hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw gyfweliad gwirfoddol sydd wedi ei gynnal gan yr Heddlu o fewn 48 awr.

Rhaid i yrwyr hysbysu'r Cyngor o unrhyw newid mewn cyfeiriad o fewn 5 diwrnod gwaith.

Rhaid i yrwyr hysbysu'r Cyngor o unrhyw newid o ran Gweithredwr o fewn 5 diwrnod gwaith.

6. Ymddygiad Tra'n Gweithio gyda Theithwyr Bregus

Mae teithiwr bregus yn deithiwr sydd yn fwy agored i niwed na theithiwr arferol yn sgil eu hoedran neu anabledd. Efallai bod hyn yn blentyn, yn berson hŷn neu'n rhywun sydd â thrafferthion dysgu. At hyn, mae person yn fregus os ydynt yn fwy agored i niwed na fyddai fel arfer yn digwydd (e.e. salwch corfforol neu feddyliol, o dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol).

Mae'r Cod Ymddygiad yma yn ceisio hyrwyddo practis diogelu da i yrwyr a staff sydd yn gweithio gyda theithwyr bregus yn y fasnach tacsî a Hurio Preifat. Dylai'r egwyddorion diogelu canlynol gael eu hatgyfnerthu fel rhan o arferion gwaith o ddydd i ddydd:

- Rhaid i yrwyr gario cardiau adnabod drwy'r amser a'u gwisgo yn unol gydag amodau'r drwydded.
- Ni ddylid cludo teithiwr anabl yn sedd flaen y cerbyd oni bai bod Swyddog Trwyddedu/Heddlu neu'r Gweithredwr yn dweud y dylid gwneud hyn.
- Rhaid i'r gyrrwr / Gweithredwr gadarnhau bod y ddarpariaeth briodol wedi ei gwneud ar gyfer y person bregus cyn derbyn yr archeb neu'n dechrau'r daith. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod y gyrrwr / Gweithredwr yn gyfrifol am ddarparu mesurau priodol, ond os nad oes mesurau priodol yn eu lle, ni ddylai'r gyrrwr / Gweithredwr wneud y daith.
- Os ydy cais person bregus yn cael ei wrthod, dylid hysbysu'r Person Cyfrifol fel bod modd gwneud trefniadau amgen. Er enghraifft, gall hyn ddigwydd os oes ci cymorth gan y cwsmer a bod eithriad meddygol gan y gyrrwr sydd wedi ei ganiatáu gan y Cyngor.
- Dylai gyrwyr ofyn bob tro os yw'r teithiwr bregus angen help ac ni ddylai gyrwyr gymryd dim byd yn ganiataol.
- Rhaid i yrwyr barhau'n broffesiynol drwy'r amser.
- Ni ddylid cyfwrdd â theithwyr oni bai bod teithwyr angen cymorth.
- Defnyddio iaith sydd yn tramgwyddo (rhegi neu sylwadau rhywiol).
- Achosi unrhyw deithiwr i deimlo'n chwithig neu o dan fygythiad.
- Ceisio defnyddio manylion y teithwyr sydd wedi ei gofnodi gan y Gweithredwr am unrhyw resymau oni bai am yr hyn sydd angen o ran y Contract Hurio Preifat.
- Ni ddylai Gyrwyr ymddwyn mewn modd sydd yn or-gyfarwydd gyda theithwyr ac ni ddylid cynnig unrhyw roddion ac ati.
- Ni ddylai'r gyrwyr wyro o'r daith sydd wedi ei gosod gan y Gweithredwr.

Mae'r safonau yma mor berthnasol i deithwyr bregus a'r teithwyr hynny na sy'n fregus.

- Dylai gyrrwyr gadw cofnod lle y mae yna ddigwyddiad wedi bod a'r camau sydd wedi eu cymryd ar ôl gwrthod rhoi taith i berson bregus.
- Ar ôl rhoi cludo teithiwr bregus, rhaid i yrrwyr a Gweithredwyr fod yn effro i faterion Diogelu sydd yn ymwneud gyda diogelu plant ac oedolion bregus. Os yw gyrrwr/Gweithredwr yn poeni am ddiogelwch lles neu ymddygiad person bregus, dylid hysbysu'r heddlu drwy ffonio 101 (neu 999 mewn rhai achosion).
- Os yw gyrrwr/Gweithredwr yn poeni am ymddygiad diogelwch, dylent roi gwybod am unrhyw bryderon i Wasanaeth Trwyddedu'r Cyngor neu'r Heddlu.

Atodiad 6.

Cod Gwisg Cerbydau Hackney / Hurio Preifat

Cod Gwisg Gyrwyr

Mae'n cael ei gydnabod bod y fasnach tacsî, boed yn Gerbyd Hackney a Hurio Preifat, yn chwarae rôl bwysig yn portreadu delwedd bositif o ardal ac mae gyrwyr yn medru chwarae rôl lysgenhadol i Gymru a Sir Fynwy.

Mae unrhyw beth sydd yn ceisio gwella delwedd broffesiynol Cerbydau Hackney a Hurio Preifat ac yn hyrwyddo'r cysyniad bod gyrwyr cerbydau Trwyddedig yn yrwyr galwedigaethol proffesiynol i'w groesawu.

Nid oes yna god gwisg ffurfiol wedi ei amlinellu yn y polisi yma ond mae gyrwyr yn cael eu hatgoffa i wisgo yn broffesiynol a'n meddu ar hylendid priodol drwy'r amser wrth gludo aelod o'r cyhoedd. Rhaid sicrhau nad oes unrhyw eiriad neu fotif yn debygol o dramgwyddo eraill.

Atodiad 7

Amodau Gyrwyr Hurio Preifat

DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - RHAN II TRWYDDED GYRRWR HURIO PREIFAT - AMODAU'R DRWYDDED

1. Bydd gyrrwr yn cynnal 'safon uchel o ymddangosiad ac ymddygiad' bob amser, ac yn rhoi cymorth i deithwyr gyda'u 'bagiau' ac yn cymryd yr holl gamau rhesymol sydd angen er mwyn sicrhau bod teithwyr yn ddiogel. (Dylai gyrrwr sicrhau eu bod wedi derbyn eithriad meddygol o'r Awdurdod Trwyddedu os nad ydynt yn medru ymgymryd gyda'r dyletswyddau yma am resymau meddygol)
2. Bydd y gyrrwr yn sicrhau bob amser bod yna yswiriant priodol yn ei le er mwyn caniatáu ef/hi i yrru'r fath gerbyd.
3. Ni fydd gyrrwr yn defnyddio radio / cerddoriaeth neu ddyfais electronig yn y cerbyd sydd yn aflonyddu ar gysur y teithwyr, ac ni ddylent fwyta/yfed heb ofyn am ganiatâd y teithiwr.
4. Ni ddylai'r gyrrwr ar unrhyw adeg ysmegu tybaco neu gymryd unrhyw sylwedd tebyg mewn cerbyd trwyddedig. At hyn, ni fydd y gyrrwr yn gadael unrhyw un arall yn y cerbyd i ysmegu. Ni fydd y gyrrwr yn defnyddio unrhyw sigarét trydanol neu ddyfeisiau tebyg mewn cerbyd Trwyddedig gan fod hyn yn medru cael ei gangymryd fel ysmegu ac effeithio ar gysur y teithwyr.
5. Ni fydd gyrrwr yn cludo nifer uwch o deithwyr na'r hyn sydd wedi ei nod yn Nhrwydded y cerbyd sydd yn cael ei ddefnyddio, a hynny gan fod plant o dan 10 mlwydd oedd yn medru cael eu cludo ar y sedd gefn.
6. Ni fydd unrhyw blentyn o dan 10, neu un person neu fwy dros yr oedran hwnnw, yn medru cael ei gludo yn y sedd flaen. Ni fydd y gyrrwr yn caniatáu i unrhyw berson, ac eithrio'r Teithiwr, i deithio yn y cerbyd (ac eithrio os yw'n tywys plant i'r ysgol) pan fydd y cerbyd yn cael ei hurio, heb ganiatâd y sawl sydd yn hurio'r cerbyd.
7. O fewn 48 awr i ddod o hyd i eiddo coll, rhaid i'r gyrrwr adael yr eitemau yn yr orsaf heddlu neu drwy gofrestru hyn gyda system ar-lein neu system ffôn Heddlu.
8. Bydd y gyrrwr yn medru darparu derbyn ysgrifenedig am y ffi sydd wedi ei dalu os yw'r teithiwr yn gofyn am hyn.
9. Ni fydd y gyrrwr yn cludo unrhyw anifail oni bai ei fod yn eiddo o'r teithiwr a rhaid cludo'r anifail yn rhan gefn y cerbyd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn berthnasol i gwn cymorth ac ni ddylai gyrrwr geisio gwahanu'r perchnogion a'u cŵn cymorth. Ni ddylai gyrrwr gludo eu hanifeiliaid anwes eu hunain pan yn cludo teithwyr.
10. Bydd y gyrrwr yn gwneud pob ymgais i gyrraedd yn brydlon ac yn y lle sydd wedi ei nodi gan y Teithiwr.

11. Ni fydd gy gyrrwr yn mynnu fod y teithiwr yn talu mwy o arian na'r hyn a gytunwyd rhwng y Teithiwr a'r Gweithredwr. Os yw'r cerbyd yn cynnwys mesurydd tacsï, dylai'r teithiwr gael y cyfle i weld y ffi ar y mesurydd ar ddiwedd y daith.
12. Bydd deiliad y trwydded yn hysbysu'r Cyngor yn syth yn ysgrifenedig (neu ym mhob achos o fewn 48 awr) os yw'n amodol ar unrhyw un o'r canlynol:

- Wedi ei arestio neu'n rhan o ymchwiliad troseddol,
 - gwŷs,
 - arwystl,
 - euogfarn,
 - rhybudd ffurfiol/symf,
- hysbysiad cosb benodol neu gwrs ymwybyddiaeth o gyflymder,
- gorchymyn llys troseddol,
- gorchymyn ymddygiad troseddol neu waharddeb ymddygiad gwrth-gymdeithasol,
- gorchymyn trais domestig,
- rhybudd neu rwympo
 - unrhyw fater sydd yn ymwneud gyda chyfiawnder adferol a'n darparu'r fath wybodaeth am amgylchiadau fel sydd angen gan y Cyngor.

Mae'n ofynnol i bob Deiliad Trwydded hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu o fewn 48 awr i unrhyw achos lle mae wedi cael ei arestio a'i ryddhau am unrhyw drosedd rywiol, unrhyw drosedd sy'n ymwneud ag anonestriwydd neu drais ac unrhyw drosedd foduro. Rhaid hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu ymhellach o fewn 48 awr am unrhyw gyhuddiad ac unrhyw euogfarn. Gallai methiant i ddatgelu arestiad yr hysbysir yr Awdurdod Trwyddedu amdano wedi hynny gael ei ystyried yn ymddygiad sy'n codi amheuaeth ynghylch gonestrwydd ac, felly, addasrwydd deiliad y drwydded, waeth beth fo canlyniad y cyhuddiad cychwynnol. Dylai gyrrwyr hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw gyfweliad gwirfoddol sydd wedi ei gynnal gan yr Heddlu o fewn 48 awr.

Rhaid i gyrrwyr hysbysu'r Cyngor o unrhyw newid mewn cyfeiriad o fewn 5 diwrnod gwaith.

13. Ni ddylai'r gyrrwr gael unrhyw gysyllt rhywiol neu ymddwyn mewn modd rhywiol sy'n gorfforol neu'n eiriol, tuag at deithwyr sydd yn cael eu cludo. Dylai'r gyrrwr sicrhau ei fod yn gofalu am y teithiwr/teithwyr ac ni ddylai eu rhoi mewn unrhyw sefyllfa sydd yn medru arwain at beryg corfforol neu foesol. Rhaid hysbysu'r Awdurdod perthnasol o unrhyw ymddygiad amheus e.e. Heddlu, Gwasanaethau Plant neu swyddogion trwyddedu.
14. Ni ddylai Gyrrwyr Hurio Preifat chwarae unrhyw ran yn y gwaith o drefnu'r daith rhwng y cwsmer a'r Gweithredwr Hurio Preifat. Mae hyn yn cynnwys rhoi dyfais cyfathrebu i'r cwsmer h.y. ffôn mudol, dyfais gyfrifiadurol fel eu bod yn medru gosod archeb gyda'r Gweithredwr - oni bai mai'r Gyrrwr yw'r Gweithredwr.
15. Bydd y Gyrrwyr Hurio Preifat ond yn gweithio ar gyfer y Gweithredwr(wyr) y maent wedi rhestru ar y ffurflen gais. Os yn newid Gweithredwr, rhaid hysbysu'r Awdurdod Lleol o fewn 5 diwrnod gwaith.
16. Unwaith y mae Gyrrwr Hurio Preifat wedi derbyn swydd gan Weithredwr Hurio Preifat Trwyddedug, nid oes hawl canslo'r gwaith oni bai bod yna esgus rhesymol* neu os yw'r Gweithredwr Hurio Preifat yn dweud wrthynt. Rhaid i'r r gyrrwyr hysbysu'r Gweithredwr Hurio Preifat am yr esgus rhesymol wrth ganslo'r gwaith.

*mae esgus rhesymol yn cynnwys ymddygiad y teithiwr arfaethedig, gan gynnwys teithiwr sydd yn dreisgar, yn hiliol, yn rhywiaethol, yn rhegi, yn fygythiol neu'n hynod feddw ac mae hyn yn cynnwys cwsmeriaid sydd yn gwrthod stopio ysmegu neu

yfed/bwyta neu wedi cyfogi dros eu hunain neu wedi gwlychu eu hunain mewn ffyrdd eraill neu fod yna bryderon dilys eu bod yn mynd i niweidio'r car.

17. Ymddygiad sydd yn ymwneud gydag aros ar gyfer hurio

- Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau mai'r teithwyr sydd yn mynd i mewn i'r cerbyd yw'r bobl gywir sydd wedi archebu'r cerbyd.

Rhaid i ddeiliad y drwydded gymryd camau yn erbyn ymddygiad sydd yn cael ei ystyried fel annog cwsmeriaid sydd heb osod archeb, a hynny drwy osgoi;

- a) osgoi aros mewn llefydd prysur, gyda llawer o bobl
- b) tu allan i leoliadau/busnesau prysur neu'n agos i ddigwyddiadau
- c) o flaen neu tu nol safleoedd ar gyfer Cerbydau Hackney
- d) mewn grwpiau sydd yn eu cyflwyno fel 'safle tacsî
- e) mewn modd sydd yn tramgwyddo gorchmynion traffig ffordd

18. Wrth yrru'r cerbyd Hurio Preifat, bydd deiliad y drwydded yn gwisgo'r bathodyn gyrrwr a roddwyd i'r Cyngor fel ei fod yn gwbl amlwg a bod modd ei ddangos i unrhyw deithwyr os oes angen.

Bydd y bathodyn yn cael ei ddychwelyd i'r Cyngor yn syth ar gais y Swyddog Awdurdodedig (h.y. os yw'r drwydded wedi ei hatal dirymu neu'n dod yn annilys am ryw reswm).

Bydd y deiliad swydd yn gwisgo 'lanyard, clip, holder' a roddir iddynt gan y Cyngor.

19. Bydd deiliad y drwydded yn hysbysu'r Cyngor o unrhyw ddiagnososis newydd neu unrhyw newid i gyflwr meddygol sydd yn medru effeithio ar yr hawl i feddu ar drwydded yrru sydd angen safon meddygol Grŵp 2 y DVLA. Rhaid nhysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig (neu o fewn 48 awr ym mhob achos) gan nodi'r diagnosis perthnasol neu newid mewn cyflwr meddygol.

Bydd angen i ddeiliad y drwydded (ar adegau sydd yn rheysmol ym marn y Cyngor) i gyflwyn tystysgrif fel sydd angen gan y Cyngor sydd wedi ei arwyddo gan Feddyg/Ymgynghorydd ac sydd yn yn medru cael mynediad at gofnodion meddygol llawn y gyrrwyr er mwyn cadarnhau fod y gyrrwr yn parhau i fod yn ffit i fod yn yrrwr ceryd Hurio Preifat.

Deddfwriaeth

Bydd deiliad y Drwydded Gyrrwr Hurio Preifat yn cydymffurfio gyda'r darpariaethau sydd yn ymwneud gyda cherbydau Hurio Preifat sydd yn y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Cyfrifoldebau'r Heddluoedd Trefol 1847
- Rhan 11 Deddf Llywodraeth Leol (darpariaethau Amrywiol) 1976
- Deddf Traffig Ffyrdd 1988 Rhan 11(a) Adeiladwaith a'r Defnydd o Gerbydau Modur a Chyfarpar
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Iechyd 2006

Atodiad 8

Is-ddeddfau Cerbydau Hackney

Dehongliad

1. Yn yr is-ddeddfau yma, mae “Cyngor” yn golygu Cyngor Sir Fynwy.

Bydd darpariaethau sydd yn rheoleiddio sut y mae'r nifer o Gerbydau Hackney yn cyfateb i'r nifer o drwyddedau, yn cael eu harddangos.

2. (a) Bydd Perchennog y Cerbyd Hackney yn gyfrifol am sicrhau bod rhif y drwydded yn cael ei ddangos tu fewn a thu allan y cerbyd neu ar blatiau sydd ynn cael eu gosod tu fewn a thu allan.
(b) Bydd Perchennog neu yrrwr y Cerbyd Hackney yn:
 - (i) Ymatal rhag caniatáu – boed yn fwriadol neu'n anfwriadol – fod y rhif yn cael ei guddio o'r cyhoedd tra bod y cerbyd yn cludo teithwyr neu'n chwilio am waith,
 - (ii) Ymatal rhag cludo teithwyr neu'n chwilio am waith gyda'r paent, marciau neu'r plât wedi ei farcio fel nad os modd ei ddarllen.

Darpariaethau ynglŷn â sut y mae Cerbydau Hackney yn cael eu dodrefnu neu ddarparu

3. Bydd Perchennog y Cerbyd Hackney yn:
 - (a) Darparu ffordd y mae person yn y cerbyd yn medru cyfathrebu gyda'r gyrrwr;
 - (b) Sicrhau bod y to yn cadw unrhyw ddŵr allan;
 - (c) Darparu unrhyw ffenestri a ffyrdd o agor a chau o leiaf un ffenestr ar y ddwy ochr;
 - (d) Sicrhau bod y seddi yn gyfforddus neu wedi eu gorchuddio;
 - (e) Sicrhau bod yna garped, mat neu orchudd addas arall ar y llawr;
 - (f) Sicrhau bod y celfi yn cael eu cadw'n lân, yn derbyn gofal ac yn addas ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus;
 - (g) Sicrhau bod bagiau yn medru cael eu cadw'n ofalus;
 - (h) Darparu diffoddydd tân y mae modd cael gafael arno'n hawdd;
 - (i) Darparu o leiaf dau ddrws ar gyfer teithwyr sydd yn cael eu cludo yn y cerbyd a drws arall i'r gyrrwr i fynd i mewn ac allan.
4. Bydd Perchennog y Cerbyd Hackney yn sicrhau bod unrhyw fesurydd tacsï yn cael ei adeiladu, gosod a'i gynnal mewn modd sydd yn gyson gyda'r gofynion canlynol:-
 - (a) Bydd y mesurydd tacsï yn cynnwys allwedd, fflag neu ddyfais arall er mwyn ei weithredu ac yn achosi'r gair “HIRED” i ymddangos ar y mesurydd tacsï;
 - (b) Bydd modd i'r allwedd, fflag neu ddyfais gael ei gloi pan nad oes ei angen ac nid oes unrhyw ffi yn cael ei gofnodi ar y mesurydd;
 - (c) Pan fydd y peiriant yn gweithio, bydd yn dangos ffi na sydd yn uwch na chyfradd y ffi y mae'r Perchennog neu'r gyrrwr yn medru codi ar gyfer hurio'r cerbyd;
 - (d) Bydd y gair “FARE” ar flaen y mesurydd mewn llythrennau plaen;
 - (e) Bydd y mesurydd tacsï yn cael ei osod fel bod yr holl lythrennau a ffigyrau yn cael eu dangos yn blaen bob tro i unrhyw deithiwr yn y cerbyd, ac felly, bydd modd goleuo ac amlygu'r rhain tra'n cludo teithiwr;

- (f) Bydd y mesurydd tacsï yn cael eu gosod mewn ffordd sydd yn golygu ei fod wedi ei selio ac ni fydd yn bosib i unrhyw berson i chwarae gyda'r teclyn oni bai ei fod yn cael ei dorri, ei niweidio ayyb

Darpariaethau sydd yn rheoleiddio ymddygiad Perchnogion a Gyrwyr y Cerbydau Hackney sydd yn gweithio mewn sawl dalgylch a'n nodi a oes angen iddynt wisgo unrhyw fathodynau.

5. Bydd gyrrwr y Cerbyd Hackney sydd yn derbyn mesurydd tacsï yn:-

- (a) Wrth aros neu'n chwilio am waith, yn cadw'r allwedd, fflag neu ddyfais arall mewn modd sydd wedi ei gloi fel nad oes ffi yn cael ei ddangos ar wyneb y mesurydd tacsï;
- (b) Cyn dechrau'r daith y mae'n rhaid talu amdani o ran pellter ac amser, bydd angen troi'r mesurydd ymlaen drwy symud yr allwedd, fflag neu ddyfais arall, fel bod y gair "HIRED" yn ymddangos ar wyneb y mesurydd a dylid cadw'r peiriant ymlaen tan fod y daith yn dod i ben;
- (c) Sicrhau bod y mesurydd yn cael ei oleuo'n briodol yn ystod y daith ac yn ystod yr oriau o dywyllwch fel sydd wedi ei ddiffinio at ddibenion Deddf Traffig Ffyrdd 1972, ac ar unrhyw adeg arall ar gais y teithiwr.

6. Bydd Perchennog neu Yrrwr Cerbyd Hackney yn ymatal rhag chwarae, neu adael i rywun arall i chwarae, gydag unrhyw fesurydd tacsï neu unrhyw beth sydd wedi selio'r mesurydd.

7. Bydd Perchennog neu Yrrwr Cerbyd Hackney, tra'n aros am waith, yn ymatal rhag aflonyddu ar rywun er mwyn eu hannog i ddefnyddio'r tacsï ac ni fyddant yn defnyddio unrhyw berson arall i wneud hyn chwaith.

8. Bydd Gyrrwr y Cerbyd Hackney yn ymddwyn mewn modd sifil a pharchus ac yn cymryd yr holl gamau rhesymol er mwyn sicrhau bod pobl yn medru mynd i mewn ac allan o'r cerbyd yn ddiogel.

9. Bydd Perchennog neu Yrrwr Cerbyd Hackney sydd wedi cytuno ar waith yn mynychu ar yr amser a'r lle sydd wedi eu cytuno, oni bai nad oes modd gwneud hyn yn sgil rheswm penodol.

10. Bydd Gyrrwr Cerbyd Hackney, pan gaiff ei hurio ar gyfer lleoliad penodol, gan ddibynnu ar unrhyw gyfarwyddiadau gan y teithiwr, yn teithio i'r lleoliad ar y llwybr cyflymaf posib.

11. Ni fydd Perchennog neu Yrrwr y Cerbyd Hackney yn cludo mwy o bobl yn y cerbyd na'r nifer o bobl a ganiateir ac fel sydd wedi ei nodi ar y plât sydd tu fas y cerbyd.

12. Os yw bathodyn wedi ei ddarparu gan y Cyngor a'i roi i yrrwr Cerbyd Hackney, bydd ef, pan yn aros a'n chwilio am waith, a phan ei fod yn cael ei hurio, yn gwisgo'r bathodyn a bydd modd ei weld yn amlwg.

13. Bydd unrhyw yrrwr Cerbyd Hackney sydd wedi ei adeiladu ar gyfer cludo bagiau, yn mynd ati pan fydd person am hurio'r cerbyd yn,

- (a) Cludo nifer sylweddol o fagiau;
- (b) Yn medru cynnig cymorth rhesymol wrth lwytho a dadlwytho bagiau.
- (c) Cynnig cymorth rhesymol yn symud y bagiau o fynedfa'r adeilad, gorsaf, neu le arall y mae'n casglu neu'n gollwng y person.

14. Os yw Cerbyd Hackney sydd â mesurydd tacsï yn cael ei hurio o bellter, nid oes hawl gan y Perchennog neu Yrrwr i godi ffi sydd yn uwch na'r hyn a gofnodir ar y mesurydd tacsï.

15. (a) Bydd Perchennog y Cerbyd yn sicrhau bod datganiad o'r ffioedd sydd wedi eu gosod gan is-ddeddf yn cael ei arddangos o fewn y cerbyd, mewn llythrennau a ffigyrau breision.

(b) Bydd Perchennog neu Yrrwr y Cerbyd Hackney yn cynnwys datganiad o'r ffioedd yn unol gyda'r is-ddeddf ac ni fydd yn caniatáu, boed yn fwriadol neu'n anfwriadol, i'r fath ddatganiad gael ei orchuddio neu'n methu ei ddarllen tra bod yna deithiwr yn y cerbyd.

Darpariaethau sydd yn sicrhau bod unrhyw eiddo sydd yn cael ei adael mewn Cerbydau Hackney ar ddamwain yn cael ei gadw a'i ddychwelyd yn ddiogel, heb unrhyw ffi

16. Bydd Perchennog neu Yrrwr y Cerbyd Hackney yn syth ar ôl cwblhau'r daith, neu mor gyflym ag sydd yn rhesymol ymarferol wedi hynny, yn chwilio'r cerbyd am unrhyw eiddo sydd wedi ei adael yno ar ddamwain.

17. Bydd Perchennog neu Yrrwr y Cerbyd Hackney sydd yn dod o hyd i eiddo coll ar ôl i rywun deithio yn y cerbyd, neu os oes rhywun yn rhoi rhywbeth iddynt, yn;

(a) Cludo'r eitem cyn gynted ag sydd yn bosib neu o fewn 48 awr, os nad yw wedi ei hawlio gan y Perchennog, i swyddfa'r Cyngor a'i adael yng ngofal y swyddog priodol a'n derbyn derbynneb.

(b) Yn medru derbyn gan unrhyw berson sydd yn derbyn yr eiddo coll swm o arian sydd yn cyfateb i bum punt o'i werth (neu'r ffi o'r lle yr oedd wedi canfod yr eiddo coll i swyddfa'r Cyngor, pa un bynnag sydd fwyaf) ond dim mwy na phum punt.

Cosbau

18. Byd unrhyw berson sydd yn troseddu yn erbyn yr is-ddeddfau yma yn medru bod yn euog o euogfarn ddiannod a dirwy dim mwy na chan punt, ac os yw'n parhau i droseddu, bydd yna ddirwy bellach na sydd yn uwch na phum punt am bob diwrnod o droseddu.

Diddymu Is-ddeddfau

19. Mae'r is-ddeddfau yma gan y Comisiynwyr Annibynnol ar gyfer dalgylch y Fenni sydd yn gweithredu fel yr Awdurdod Cyfleusterau Trefol ar y trydydd diwrnod o Orffennaf 1889 and ac wedi eu cadarnhau gan y Bwrdd Llywodraeth Leol ar y deunawfed diwrnod ym Medi 1889 wedi eu diddymu yma.

Penderfyniad y Cyngor 16eg Rhagfyr 1986

Dyddiad yr Is-ddeddfau 3ydd Chwefror 1987

Dyddiad y Cadarnhad 10fed Mehefin 1987

Mae'r is-ddeddfau yma wedi eu cadarnhau gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac yn dod i rym ar 1af Gorffennaf 1987.

Atodiad 9.

Y Broses Gais am Gerbydau

Rhaid gwneud cais am drwydded Cerbyd Hackney a Hurio Preifat ar ffurflen benodol. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn danfon gohebiaeth at berchnogion cerbydau ar e-bost, er y dylid nodi mai cyfrifoldeb y gyrrwr yw sicrhau bod unrhyw gais am adnewyddu trwydded yn cael ei wneud mewn modd amserol.

Er mwyn caniatáu amser digonol i brosesu dogfennau, rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr Awdurdod Trwyddedu yn derbyn y cais cyflawn, gan gynnwys y ffi ac unrhyw ddogfennau eraill, o fewn 14 diwrnod cyn bod y drwydded yn dod i ben. Nid oes modd adnewyddu trwydded ar ôl i'r drwydded ddod i ben, ac felly, bydd hyn yn cael ei drin fel cais newydd.

Rydym yn argymhell fod Perchennog cerbyd yn trefnu profion 3 wythnos cyn bod y drwydded yn dod i ben er mwyn osgoi oedi gyda phrosesu unrhyw drwydded cerbyd.

Mae'r holl Geisiadau a'r canllawiau ar gael ar wefan y Tîm Tacsî Trwyddedig
www.monmouthshire.gov.uk/licensing/taxi-licence

Atodiad 10 Manylebau Cerbydau Hackney ac Atodiad 12 Amodau Trwydded Cerbydau Hackney

Amodau Cerbyd y Cerbydau Hackney

Amodau Trwydded Cerbydau Hackney

Mae Perchennog Cerbyd Hackney yn Berchen neu'n Rhannol Berchen ar gerbyd, neu os yw'r cerbyd ar brydles, cytundeb hurio neu hurbwrcasu, a'r Perchennog yw'r person sydd yn meddu ar y cerbyd o dan y cytundeb. Yn y fath achosion, mae angen i'r Perchennog i gael Trwydded Perchennog Cerbyd Hackney o Gyngor Sir Fynwy cyn eu bod yn medru defnyddio'r cerbyd er mwyn chwilio am waith.

Mae modd sicrhau trwydded drwy wneud cais llawn i'r Cyngor. Rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno cais ar gyfer pob un cerbyd sydd angen trwydded.

Manylebau

1. Bydd y Perchennog yn sicrhau bod y cerbyd a'r holl gyfarpar yn cael ei gadw drwy'r amser – pan fydd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio - mewn modd sydd yn effeithiol, yn dactlus a'n lân a bod yna cydymffurfiaeth gyda'r holl ofynion statudol (gan gynnwys y rhai yn y Rheoliadau Adeiladwaith a Defnyddio Cerbydau Modur).
 - a) Ni fydd y cerbyd yn dangos unrhyw arwyddion amlwg o ddamweiniau. Bydd y gwaith paent dros yr holl gar yn broffesiynol.
 - b) Ni fydd yna rwd ar unrhyw ran o'r car, Mae rhwd yn cynnwys rhwd amlwg ac unrhyw arwyddion o rwd fel y gwaith paent yn dechrau pilio.
 - c) Nid oes modd ceisio delio ag unrhyw niwed gyda 'Gaffer Tape' ayyb. (Er bod modd defnyddio 'Gaffer Tape' ar y ffenestri 'quarter light' er mwyn atal trosedd ac mae modd tapio'r drychau ystlys os yw'r drych wedi ei niweidio ond dylid cywiro hyn cyn mynd am unrhyw brofion yn y Cyngor.)
 - d) Bydd holl rannau y rhan ar gyfer teithwyr yn cael eu cadw'n lân a heb newid a fyddai fel arall yn effeithio ar ei addasrwydd u gludo teithwyr.
 - e) Os caiff gorchuddion eu defnyddio ar y seddau, byddant yn cael eu gosod mewn modd yn sicrhau nad ydynt yn dod yn rhydd. Rhaid eu cadw'n lân a heb unrhyw niwed.
 - f) Bydd system wresogi ac aerdymheru yn cael eu darparu gyda'r Cerbyd Hackney.
 - g) Os yw'r cerbyd wedi ei adeiladu gyda ffenestr i'r teithwyr eu hagog, bydd modd agor y ffenestri ar y ddwy ochr yn hawdd gan y teithwyr a/neu'r gyrrwr.
2. Ni fydd yna unrhyw addasiadau neu newid yn cael eu gwneud i fanyleb, dyluniad, amodau neu ymddangosiad y cerbyd heb ganiatâd y Rheolwr Trwyddedu.

Math o Gerbyd

3. Rhaid i'r cerbyd gydymffurfio gyda'r Rheoliadau Cerbyd Prydeinig ac Ewropeaidd a'i gymeradwyo o safon yr 'M1 whole-vehicle', categori M1 (Low volume) a heb ei addasu ers ei gymeradwyo. Mae cadeiriau olwyn yn medru mynd i mewn i'r cerbyd o'r ochr neu drwy gefn y cerbyd.

PLATIAU, ARWYDDION, HYSBYSEBU A LLIWIAU

- 4 (a) Bydd yr holl gerbydau yn arddangos – drwy'r amser – platiau allanol a'r plât mewnol sydd yn cael eu cyflenwi gan y Cyngor. Rhaid gosod y platiau allanol yn ddiogel i'r cerbyd gyda'r defnydd o fraced sydd wedi ei ddarparu gan y Cyngor neu wedi ei sgriwio ar flaen ac ar gefn y cerbyd (nid oes hawl defnyddio pethau magnetig er mwyn ceisio gosod y plât) Yr unig eithriad dros beidio dangos y plât ar y braced yw pan fydd y braced yn tramgwyddo Deddf Traffig Ffyrdd, neu os yw'r cerbyd yn atal y defnydd o blât; os felly, rhaid i'r perchnogion gysylltu gyda'r Tîm Trwyddedu er mwyn sicrhau eithriad rhag gorfod dangos braced plât.

A

- (b) Arddangos y plât mewnol y Cyngor i fyny ar ochr chwith a thu fewn y ffenestr flaen gan sicrhau bod manylion y drwydded i'w gweld yn amlwg ac nid yw'r manylion yma yn cael eu cuddio mewn rhyw ffordd. Dylai'r plât mewnol ddangos rhif y plât a'r dyddiad y mae'n dod i ben.

NEWID AMGYCLHIADAU

5. Bydd deiliad y trwydded yn hysbysu'r Cyngor yn syth yn ysgrifenedig (neu o fewn 48 awr ym mhob un achos) os ydynt yn cael eu heffeithio gan unrhyw un o'r canlynol:

- Wedi ei arestio neu'n rhan o ymchwiliad troseddol,
 - gwŷs,
 - arwystl,
 - euogfarn,
 - rhybudd ffurfiol/symf,
- hysbysiad cosb benodol neu gwrs ymwybyddiaeth o gyflymder,
- gorchymyn llys troseddol,
- gorchymyn ymddygiad troseddol neu waharddeb ymddygiad gwrth-gymdeithasol,
- gorchymyn trais domestig,
- rhybudd neu rwympo
- unrhyw fater sydd yn ymwneud gyda chyfiawnder

Mae'n ofynnol i bob Deiliad Trwydded hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu o fewn 48 awr i unrhyw achos lle mae wedi cael ei arestio a'i ryddhau am unrhyw drosedd rywiol, unrhyw drosedd sy'n ymwneud ag anonestrwydd neu drais ac unrhyw drosedd foduro. Rhaid hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu ymhellach o fewn 48 awr am unrhyw gyhuddiad ac unrhyw euogfarn. Gallai methiant i ddatgelu arestiad yr hysbysir yr Awdurdod Trwyddedu amdano wedi hynny gael ei ystyried yn ymddygiad sy'n codi amheuaeth ynghylch gonestrwydd ac, felly, addasrwydd deiliad y drwydded, waeth beth fo canlyniad y

cyhuddiad cychwynnol. Dylai gyrwyr hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw gyfweiliad gwirfoddol sydd wedi ei gynnal gan yr Heddlu o fewn 48 awr.

Rhaid i yrwyr hysbysu'r Cyngor o unrhyw newid mewn cyfeiriad o fewn 5 diwrnod gwaith.

6. Bydd y Perchennog, o fewn pum diwrnod, yn hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau sydd yn effeithio ar y drwydded, fel: newid cyfeiriad, rhif ffôn, gweithredwr tacsï, newid mewn cwmni yswiriant, cyfeiriad e-bost ayyb.
7. Dylai'r Perchennog hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu o fewn 72 awr yn ysgrifenedig o unrhyw niwed i'r cerbyd a cyflwyno'r cerbyd fel bod modd ei arolygu os yw'r Swyddog Trwyddedu yn gwneud cais am hyn.

DYCHWELYD Y PLÂT

8. Mae platiau allanol y Cerbydau Hackney a'r plât trwydded mewnol, sydd yn berchen i Gyngor Sir Fynwy. Dylid dychwelyd y plât o fewn 14 diwrnod ar ôl y dyddiad dod i be; bydd methu gwneud hyn yn golygu eich bod yn colli eich blaendal ac o bosib yn wynebu camau gweithredu eraill.

YSWIRIANT

9. Bydd y Perchennog yn sicrhau bod copi o'r Polisi Yswiriant neu 'Nodyn Cover' yn y cerbyd drwy'r amser. Ni fydd y Perchennog yn defnyddio'r cerbyd, neu'n caniatáu iddo gael ei ddefnyddio fel Cerbyd Hackney pan nad oes yna Bolisi Yswiriant mewn grym, neu'r fath ddiogelwch fel sydd yn cydymffurfio gyda gofynion Rhan VI o Deddf Traffig Ffordd 1988 a bod y dreth ffyrdd wedi ei thalu am y flwyddyn. Bydd y Perchennog, ar gais, yn medru rhannu copi o ddogfen gofrestru'r cerbyd a'r dystysgrif prawf.

CYNLLUN SEDDI A'R RHAN SY'N DAL BAGIAU

10. Rhaid bod y cerbyd yn medru cludo dim llai na phedwar teithiwr a dim mwy nag wyth. Rhaid bod ceir yn meddu ar sedd gefn (pan gaiff ei fesur o'r un pen i'r llall) yn o leiaf 1220mm (48 modfedd). Dylai seddi fod yn 400mm o led o leiaf ar gyfer pob teithiwr. Rhaid bod o leiaf 200mm ar gyfer coesau pob teithiwr, a hynny o ffrynt y sedd i gefn y sedd, y 'dashboard' neu'r panel blaen yn y ffrynt.
11. Rhaid i gerbydau mwy (MPV, bws mini neu gerbydau 'people mover') gael drysau digonol o faint digonol er mwyn caniatáu teithwyr i fynd i mewn ac allan yn gyflym a'n ddiogel. Wrth ddod allan o'r cerbyd a bod angen dod o'r rhes gefn sydd gyda thair sedd ond bod angen dod dros y rhes ganol a defnyddio teclyn i symud y seddi, bydd rhaid i deithwyr fedru mynd allan o'r cerbyd o'r ddwy ochr. Os yw cerbydau yn cynnwys seddi 'pop-up' neu atodol sydd i'w defnyddio weithiau, ni ddylid cynnwys y seddi yma yn nhrwydded y cerbyd. Os yw'r cerbyd wedi ei adeiladu mewn ffordd

sydd yn golygu bod angen i'r rhes o sedd gyfan i symud er mwyn cael mynediad i'r rhes gefn, ni ddylid cynnwys y rhes gefn ar gyfer y capasiti seddau a dylid ei symud er mwyn osgoi pwysau gan deithwyr i gludo nifer uwch na'r hyn a ganiateir yn y drwydded.

12. Bydd pob teithiwr yn medru cael mynediad at ddrws heb yr angen i symud neu fynd ati i blygu sedd arall yn ei hanner. Os nad yw teithiwr yn medru cael mynediad at ddrws, bydd cerbydau sydd yn meddu ar "tilt" yn cael eu caniatáu gan y Cyngor. Dylai arwydd glir o fewn y cerbyd ddynodi lleoliad y ddolen sydd yn mynd i symud y sedd ymlaen.
13. Dylai'r cerbyd gynnwys rhan sydd yn cynnig digon o le i gludo nifer rhesymol o bethau, er enghraifft, pram, cadair olwyn a bagiau. Rhaid bod ceir 'estate' neu amlbwrpas gynnwys gril diogelwch neu 'cargo net' neu 'parcel shelf' er mwyn atal y pethau yma rhag effeithio ar y teithwyr. Mewn cerbydau eraill, ni ddylid storio'r bagiau fel eu bod yn uwch nag uchder y seddi cefn oni bai bod y cerbyd wedi ei ddylunio'n benodol i wneud hyn.
14. Bydd pob teithiwr yn meddu ar wregys diogelwch. Ni ddylai unrhyw seddi wynebu'r ochr, oni bai am gadair olwyn sydd wedi ei osod yn ddiogel yn y cerbyd, yn unol gyda chanllawiau'r gwneuthurwr.
15. Ni ddylai'r cerbyd gludo unrhyw blant mewn pramiau; dylid plygu a storio pob pram yn ofalus. Os nad yw'r cerbyd yn meddu ar declyn i ddal plant, dylid gosod y plentyn ar y sedd gefn yn unig. Mae plant o dan 3 mlwydd oed yn medru cael eu cludo yn nwylo/côl oedolyn. Rhaid i blant sy'n 3 mlwydd oed a'n hŷn ddefnyddio gwregys fel oedolyn yn unol gyda'r Ddeddf Traffig Ffyrdd. (mae manylion pellach ar gael drwy'r ddolen hon)

http://www.dft.gov.uk/think/focusareas/children/childincar?page=Advice&whoareyou_id=

ADDASU'R CERBYD

16. Nid oes hawl gwneud unrhyw addasiadau i fanylebau gwneuthurwr y cerbyd gan gynnwys newid y math o danwydd ychwanegol oni bai bod caniatâd ysgrifenedig wedi ei dderbyn gan y Cyngor.

FFENESTRI WEDI EU TINTIO

17. Mae'r ffenestr flaen a ffyrnt yn gorfod cynnwys 'visible light transmission' (VLT) dim llai na 75 y cant ac ni ddylid tintio unrhyw un o'r ffenestri eraill fel nad oes modd gweld y teithwyr o du allan y cerbyd,

PROFION AR GYFER CERBYDAU

18. Mae Cerbydau Hackney dros 1 mlwydd oed ond llai na 5 mlwydd oed i'w profi unwaith y flwyddyn. Bydd Cerbydau Hackney dros 5 mlwydd oed ond llai na 10 mlwydd oed i'w profi bob 6 mis ar ôl derbyn trwydded 12 mis/blwyddyn. Bydd Cerbydau Hackney dros 10 mlwydd oed yn cael eu profi bob 4 mis ar ôl derbyn trwydded 12 mis/blwyddyn. Mae deiliad swydd yn medru trefnu fod cerbydau yn cael eu profi hyd at 28 diwrnod cyn bod angen cynnal y prawf.

19. Os yw cerbyd yn methu prawf y Cyngor ar gyfer bod yn addas ar gyfer y ffordd, nid oes modd ei ddefnyddio fel Cerbydau Hackney Carriage tan fod y cerbyd wedi ei ail-asesu ac yn llwyddo ym mhrawf y Cyngor.

CYFARPAR Y CERBYD

20. Rhaid bod y cerbyd yn cludo'r cyfarpar canlynol:
- Olwyn sbâr sydd yn medru cael ei defnyddio yn syth. Os yw'r olwyn sbâr yn fath o olwyn sbâr sydd yn fach a'n cael ei defnyddio fel mesur dros dro gan fod angen arbed lle, mae ond modd ei defnyddio ar gyfer y daith i gywiro'r olwyn ac mae cerbydau sydd yn cynnwys math penodol i dechnoleg yn cael ei eithrio o'r amodau ar ddisgresiwn y Cyngor (e.e. mae'r cerbyd yn cynnwys olwynion 'run-flat').
 - 'Jack' a theclynnau ar gyfer newid olwynion.
 - Bydd unrhyw gyfarpar atodol sydd yn cael eu gosod yn ymatal rhag effeithio ar yrwyr mewn unrhyw ffordd, neu'n effeithio ar eu golwg, neu'n achosi peryglon i deithwyr neu eraill sydd yn defnyddio'r ffordd.
 - Rhaid bod pecyn cymorth cyntaf yn cael ei osod mewn lle sydd yn golygu ei fod yn hawdd cael gafael arno mewn argyfwng. Bydd yn cynnwys darpariaethau cymorth cyntaf priodol. Yn sgil deddfwriaeth iechyd a diogelwch, nid ydym yn cynghori cynnwys 'ointments' neu'r hyn sydd angen i leddfu poen. Os oes unrhyw bryderon gan y Cyngor am gynnwys neu gyflwr y pecyn cymorth cyntaf, efallai y bydd angen i'r gyrrwyr drefnu pecyn newydd yn syth. Bydd rhif cofrestru'r cerbyd yn cael ei nodi ar y pecyn cymorth cyntaf drwy'r amser.

HYSBYSEBU

21. Mae ond modd cynnwys hysbysebion ar y tu mewn yn y Cerbyd Hackney, a hynny mewn llefydd penodol yn unig sef 'underside of the tip-up seats and across the bulkhead above the dividing glass partition'. Mae'r maint a ganiateir fel a ganlyn:

- bulkhead 60cm x 8 cm
- tip up seat 33cm x 30.5cm.

Nid oes hawl gosod hysbysebion ar y gwydr rhwng y gyrrwr a'r teithwyr (os yn berthnasol) ac eithrio unrhyw hysbysiadau sydd wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor, fel y cerdyn tariff.

SYSTEMAU SŴN, FIDEO A RECORDIO

22. Nid oes hawl gosod unrhyw systemau sŵn, fideo neu recordio yn y cerbyd na sydd wedi eu gosod gan wneuthurwyr neu ni ddylid ei ddefnyddio mewn modd na sydd yn cydymffurfio gyda chanllawiau camerâu cylch cyfyng y Cyngor.

DIM YSMYGU YN Y CERBYD

23. Nid oes hawl ysmegu yn y cerbyd ac mae hyn yn berthnasol i'r gyrrwr a'r teithwyr (mae hyn yn cynnwys sigarêts trydanol neu ddyfeisiau syml). Dylai'r cerbyd gydymffurfio gyda rheoliadau "di-fwg" fel sydd wedi eu datgan yn y Ddeddf Iechyd 2006. Rhaid i'r cerbyd arddangos arwydd 'dim ysmegu' mewn safle amlwg. Dylai gynnwys y symbol 'dim ysmegu' rhyngwladol.

MESURYDDION A FFIOEDD

24. Rhaid bod y cerbyd yn cynnwys mesurydd tacsï sydd yn gorfod cydymffurfio gyda Rheoliadau Offerynnau Mesur (Mesuryddion Tacsï) 2006. Bydd y mesurydd tacsï yn:
- dangos y ffi sydd wedi ei gofnodi ar y mesurydd tacsï yn gwbl amlwg gyda'r gair 'FARE' wedi ei arddangos yn agos i'r ffigyrau yma.
 - Bydd y mesurydd yn cael ei osod yn unol gyda Thabl y Cyngor ar gyfer Ffioedd Cerbydau Hackney oni bai bod y Perchennog am gynnig ffi is. Yn y fath achos, dylai'r Perchennog arddangos Tariff y Cyngor ar y cyd gyda Cherdyn Ffioedd y Perchennog. Yn y fath amgylchiadau, rhaid bod Cerdyn Ffioedd y Perchennog yn datgan yn eglur nad yw'r Perchennog am godi'r uchafswm sydd yn cael ei osod gan y Cyngor. Bydd copi o'r Cerdyn Perchennog yn cael ei roi i'r Cyngor ar gyfer ei gofnodion ei hun.
25. Rhaid gosod y ffi mewn modd amlwg fel bod y ffi sydd i'w dalu yn weledol i'r holl deithwyr yn y cerbyd drwy'r amser, gyda'r ffigyrau wedi eu hamlygu. Yn achos Cerbydau Hackney sydd yn meddu ar dariannau diogelwch, dylai'r ffi gael ei arddangos yn rhan gefn y cerbyd.
26. Bydd Perchennog y Cerbyd Hackney yn sicrhau bod yna lyfr derbynneb ar gael yn y cerbyd drwy'r amser a dylid rhoi derbynneb o'r fath i'r teithiwr ar gais.

EIDDO COLL

27. Bydd Perchennog neu yrrwr y Cerbyd Hackney yn cymryd pob cam rhesymol er mwyn ceisio dychwelyd unrhyw eiddo sydd wedi ei adael yn y cerbyd i'r Perchennog cywir ac yn rhoi gwybod am unrhyw eiddo col i'r Cyngor o fewn 48 awr.

28. Amgylchiadau Amgylcheddol

- **Bydd trwyddedau ar gyfer Cerbydau Hurio Preifat newydd** ond yn cael eu rhoi i gerbydau sydd yn cwrdd â'r safon Euro 6.
 - **Bydd trwyddedau ar gyfer Cerbydau Hurio Preifat newydd** ond yn medru cael eu trosglwyddo i gerbydau sydd yn cwrdd â'r safon Euro 6.
 - **Newid Cerbyd Hackney a Cherbyd Hurio Preifat.** Mae deiliad trwydded presennol (perchennog sydd wedi dal y drwydded cyn cyflwyno'r polisi ac wedi parhau i adnewyddu'r drwydded) yn medru parhau i ddal/adnewyddu'r drwydded am oes sillf y cerbyd, nid oes ots beth yw'r cyfradd safonol Ewropeaidd.
26. Bydd deiliad y Drwydded Gyrrwr Hurio Preifat yn cydymffurfio gyda'r darpariaethau sydd yn ymwneud gyda cherbydau Hurio Preifat sydd yn y ddeddfwriaeth ganlynol:
- Deddf Cyfrifoldebau'r Heddluoedd Trefol 1847
 - Rhan 11 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976
 - Deddf Traffig Ffyrdd 1988 Rhan 11(a) Adeiladwaith a'r Defnydd o Gerbydau Modur a Chyfarpar
 - Deddf Cydraddoldeb 2010
 - Deddf Iechyd 2006

Atodiad 11 Manylebau Cerbyd Hurio Preifat ac Atodiad 13 Amodau Trwydded Hurio Preifat

AMODAU TRWYDDED CERBYD HURIO PREIFAT

Mae Perchennog Cerbyd Hurio Preifat sydd yn Berchen neu'n rhannol berchen ar gerbyd, neu os yw'r cerbyd ar brydles, cytundeb hurio neu hurbwrcasu, a'r Perchennog yw'r person sydd yn meddu ar y cerbyd o dan y cytundeb. Yn y fath achosion, mae angen i'r Perchennog Hurio Preifat i gael Trwydded Perchennog Hurio Preifat o Gyngor Sir Fynwy cyn eu bod yn medru defnyddio'r cerbyd er mwyn chwilio am waith.

Mae modd sicrhau trwydded drwy wneud cais llawn i'r Cyngor. Rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno cais ar gyfer pob un cerbyd sydd angen trwydded.

MANYLEBAU

1. Bydd y Perchennog yn sicrhau bod y cerbyd a'r holl gyfarpar yn cael ei gadw drwy'r amser – pan fydd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio - mewn modd sydd yn effeithiol, yn daclus a'n lân a bod yna cydymffurfiaeth gyda'r holl ofynion statudol (gan gynnwys y rhai yn y Rheoliadau Adeiladwaith a Defnyddio Cerbydau Modur).
 - a) Ni fydd y cerbyd yn dangos unrhyw arwyddion amlwg o ddamweiniau. Bydd y gwaith paent dros yr holl gar yn broffesiynol.
 - b) Ni fydd yna rwd ar unrhyw ran o'r car, Mae rhwd yn cynnwys rhwd amlwg a unrhyw arwyddion o rwd fel y gwaith paent yn dechrau pilio.
 - c) Nid oes modd ceisio delio ag unrhyw niwed gyda 'Gaffer Tape' ayyb. (Er bod modd defnyddio 'Gaffer Tape' ar y ffenestri 'quarter light' er mwyn atal trosedd a mae modd tapio'r drychau ystlys os yw'r drych wedi ei niweidio ond dylid cywiro hyn cyn mynd am unrhyw brofion yn y Cyngor.)
 - d) Bydd holl rannau y rhan ar gyfer teithwyr yn cael eu cadw'n lân a heb newid a fyddai fel arall yn effeithio ar ei addasrwydd u gludo teithwyr.
 - e) Os caiff gorchuddion eu defnyddio ar y seddau, byddant yn cael eu gosod mewn modd yn sicrhau nad ydynt yn dod yn rhydd. Rhaid eu cadw'n lân a heb unrhyw niwed.
 - f) Bydd system wresogi ac aerdymheru yn cael eu darparu gyda'r Cerbyd Hackney.
 - g) Os yw'r cerbyd wedi ei adeiladu gyda ffenestr i'r teithwyr eu hagog, bydd modd agor y ffenestri ar y ddwy ochr yn hawdd gan y teithwyr a/neu'r gyrrwr.
2. Ni fydd yna unrhyw addasiadau neu newid yn cael eu gwneud i fanyleb, dyluniad, amodau neu ymddangosiad y cerbyd heb ganiatâd y Rheolwr Trwyddedu

3. Rhaid i'r cerbyd gydymffurfio gyda'r Rheoliadau Cerbyd Prydeinig ac Ewropeaidd a'i gymeradwyo o safon yr 'M1 whole-vehicle', categori M1 (Low volume) a heb ei addasu ers ei gymeradwyo.

PLATIAU, ARWYDDION, HYSBYSEBU A LLIWIAU

- 4 (a) Bydd yr holl gerbydau yn arddangos – drwy'r amser – platiau allanol a'r plât mewnol sydd yn cael eu cyflenwi gan y Cyngor. Rhaid gosod y platiau allanol yn ddiogel i'r cerbyd gyda'r defnydd o fraced sydd wedi ei ddarparu gan y Cyngor neu wedi ei sgriwio ar flaen ac ar gefn y cerbyd (nid oes hawl defnyddio pethau magnetig er mwyn ceisio gosod y plât) Yr unig eithriad dros beidio dangos y plât ar y braced yw pan fydd y braced yn tramgwyddo Deddf Traffig Ffyrdd, neu os yw'r cerbyd yn atal y defnydd o blât; os felly, rhaid i'r perchnogion gysylltu gyda'r Tîm Trwyddedu er mwyn sicrhau eithriad rhag gorfod dangos braced plât.

A

- (b) Arddangos y plât mewnol y Cyngor i fyny ar ochr chwith a thu fewn y ffenestr flaen gan sicrhau bod manylion y drwydded i'w gweld yn amlwg ac nid yw'r manylion yma yn cael eu cuddio mewn rhyw ffordd. Dylai'r plât mewnol ddangos rhif y plat a'r dyddiad y mae'n dod i ben.

NEWID AMGYCLHIADAU

6. Bydd deiliad y drwydded yn hysbysu'r Cyngor yn syth yn ysgrifenedig (neu o fewn 48 awr ym mhob un achos) os ydynt yn cael eu heffeithio gan unrhyw un o'r canlynol:

- Wedi ei arestio neu'n rhan o ymchwiliad troseddol,
 - gwŷs,
 - arwystl,
 - euogafrn,
 - rhybudd ffurfiol/symf,
- hysbysiad cosb benodol neu gwrs ymwybyddiaeth o gyflymder,
- gorchymyn llys troseddol,
- gorchymyn ymddygiad troseddol neu waharddeb ymddygiad gwrth-gymdeithasol,
- gorchymyn trais domestig,
- rhybudd neu rwymo
- unrhyw fater sydd yn ymwneud gyda chyfiawnder

Mae'n ofynnol i bob Deiliad Trwydded hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu o fewn 48 awr i unrhyw achos lle mae wedi cael ei arestio a'i ryddhau am unrhyw drosedd rywiol, unrhyw drosedd sy'n ymwneud ag anonestriwydd neu drais ac unrhyw drosedd foduro. Rhaid hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu ymhellach o fewn 48 awr am unrhyw gyhuddiad ac unrhyw euogfarn. Gallai methiant i ddatgelu arestiad yr hysbysir yr Awdurdod Trwyddedu amdano wedi hynny gael ei ystyried yn ymddygiad sy'n codi amheuaeth ynghylch gonestrwydd ac, felly, addasrwydd deiliad y drwydded, waeth beth fo canlyniad y

cyhuddiad cychwynnol. Dylai gyrwyr hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw gyfweiliad gwirfoddol sydd wedi ei gynnal gan yr Heddlu o fewn 48 awr.

Rhaid i yrwyr hysbysu'r Cyngor o unrhyw newid mewn cyfeiriad o fewn 5 diwrnod gwaith.

6. Bydd y Perchennog, o fewn pum diwrnod, yn hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau sydd yn effeithio ar y drwydded, fel: newid cyfeiriad, rhif ffôn, gweithredwr tacsï, newid mewn cwmni yswiriant, cyfeiriad e-bost ayyb.
7. Dylai'r Perchennog hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu o fewn 72 awr yn ysgrifenedig o unrhyw niwed i'r cerbyd a chyflwyno'r cerbyd fel bod modd ei arolygu os yw'r Swyddog Trwyddedu yn gwneud cais am hyn.

DYCHWELYD Y PLÂT

8. Mae platiau allanol y Cerbydau Hackney a'r plât trwydded mewnol, sydd yn berchen i Gyngor Sir Fynwy. Dylid dychwelyd y plât o fewn 14 diwrnod ar ôl y dyddiad dod i be; bydd methu gwneud hyn yn golygu eich bod yn colli eich blaendal ac o bosib yn wynebu camau gweithredu eraill.

YSWIRIANT

9. Bydd y Perchennog yn sicrhau bod copi o'r Polisi Yswiriant neu 'Nodyn Cover' yn y cerbyd drwy'r amser. Ni fydd y Perchennog yn defnyddio'r cerbyd, neu'n caniatáu iddo gael ei ddefnyddio fel Cerbyd Hackney pan nad oes yna Bolisi Yswiriant mewn grym, neu'r fath ddiogelwch fel sydd yn cydymffurfio gyda gofynion Rhan VI o Ddeddf Traffig Ffordd 1988 a bod y dreth ffyrdd wedi ei thalu am y flwyddyn. Bydd y Perchennog, ar gais, yn medru rhannu copi o ddogfen gofrestru'r cerbyd a'r dystysgrif prawf.

CYNLLUN SEDDI A'R RHAN SY'N DAL BAGIAU

10. Rhaid bod y cerbyd yn medru cludo dim llai na phedwar teithiwr a dim mwy nag wyth. Rhaid bod ceir yn meddu ar sedd gefn (pan gaiff ei fesur o'r un pen i'r llall) yn o leiaf 1220mm (48 modfedd). Dylai seddi fod yn 400mm o led o leiaf ar gyfer pob teithiwr. Rhaid bod o leiaf 200mm ar gyfer coesau pob teithiwr, a hynny o ffyrnt y sedd i gefn y sedd, y 'dashboard' neu'r panel blaen yn y ffyrnt.
11. Rhaid i gerbydau mwy (MPV, bws mini neu gerbydau 'people mover') gael drysau digonol o faint digonol er mwyn caniatáu teithwyr i fynd i mewn ac allan yn gyflym a'n ddiogel. Pan yn dod allan o'r cerbyd a bod angen dod o'r rhes gefn sydd gyda thair sedd ond bod angen dod dros y rhes ganol a defnyddio teclyn i symud y seddi, bydd rhaid i deithwyr fedru mynd allan o'r cerbyd o'r ddwy ochr. Os yw cerbydau yn cynnwys seddi 'pop-up' neu atodol sydd i'w defnyddio weithiau, ni ddylid cynnwys y seddi yma yn nhrwydded y cerbyd. Os yw'r cerbyd wedi ei adeiladu mewn ffordd

sydd yn golygu bod angen i'r rhes o sedd gyfan i symud er mwyn cael mynediad i'r rhes gefn, ni ddylid cynnwys y rhes gefn ar gyfer y capasiti seddau a dylid ei symud er mwyn osgoi pwysau gan deithwyr i gludo nifer uwch na'r hyn a ganiateir yn y drwydded.

12. Bydd pob teithiwr yn medru cael mynediad at ddrws heb yr angen i symud neu fynd ati i blygu sedd arall yn ei hanner. Os nad yw teithiwr yn medru cael mynediad at ddrws, bydd cerbydau sydd yn meddu ar "tilt" yn cael eu caniatáu gan y Cyngor. Dylai arwydd glir o fewn y cerbyd ddynodi lleoliad y ddolen sydd yn mynd i symud y sedd ymlaen.
13. Dylai'r cerbyd gynnwys rhan sydd yn cynnig digon o le i gludo nifer rhesymol o bethau, er enghraifft, pram, cadair olwyn a bagiau. Rhaid bod ceir 'estate' neu amlbwrpas gynnwys gril diogelwch neu 'cargo net' neu 'parcel shelf' er mwyn atal y pethau yma rhag effeithio ar y teithwyr. Mewn cerbydau eraill, ni ddylid storio'r bagiau fel eu bod yn uwch nag uchder y seddi cefn oni bai bod y cerbyd wedi ei ddylunio'n benodol i wneud hyn.
14. Bydd pob teithiwr yn meddu ar wregys diogelwch. Ni ddylai unrhyw seddi wynebu'r ochr, oni bai am gadair olwyn sydd wedi ei osod yn ddiogel yn y cerbyd, yn unol gyda chanllawiau'r gwneuthurwr.
15. Ni ddylai'r cerbyd gludo unrhyw blant mewn pramiau; dylid plygu a storio pob pram yn ofalus. Os nad yw'r cerbyd yn meddu ar declyn i ddal plant, dylid gosod y plentyn ar y sedd gefn yn unig. Mae plant o dan 3 mlwydd oed yn medru cael eu cludo yn nwylo/côl oedolyn. Rhaid i blant sy'n 3 mlwydd oed a'n hŷn ddefnyddio gwregys fel oedolyn yn unol gyda'r Ddeddf Traffig Ffyrdd. (mae manylion pellach ar gael drwy'r ddolen hon)

http://www.dft.gov.uk/think/focusareas/children/childincar?page=Advice&whoareyou_id=

ADDASU'R CERBYD

16. Nid oes hawl gwneud unrhyw addasiadau i fanylebau gwneuthurwr y cerbyd gan gynnwys newid y math o danwydd ychwanegol oni bai bod caniatâd ysgrifenedig wedi ei dderbyn gan y Cyngor.

FFENESTRI WEDI EU TINTIO

17. Mae'r ffenestr flaen a ffyrnt yn gorfod cynnwys 'visible light transmission' (VLT) dim llai na 75 y cant ac ni ddylid tintio unrhyw un o'r ffenestri eraill fel nad oes modd gweld y teithwyr o du allan y cerbyd,

PROFION AR GYFER CERBYDAU

18. Mae Cerbydau Hackney dros 1 mlwydd oed ond llai na 5 mlwydd oed i'w profi unwaith y flwyddyn. Bydd Cerbydau Hackney dros 5 mlwydd oed ond llai na 10 mlwydd oed i'w profi bob 6 mis ar ôl derbyn trwydded 12 mis/blwyddyn. Bydd Cerbydau Hackney dros 10 mlwydd oed yn cael eu profi bob 4 mis ar ôl derbyn trwydded 12 mis/blwyddyn. Mae deiliad swydd yn medru trefnu fod cerbydau yn cael eu profi hyd at 28 diwrnod cyn bod angen cynnal y prawf.

19. Os yw cerbyd yn methu prawf y Cyngor ar gyfer bod yn addas ar gyfer y ffordd, nid oes modd ei ddefnyddio fel Cerbydau Hackney Carriage tan fod y cerbyd wedi ei ail-asesu ac yn llwyddo ym mhrawf y Cyngor.

CYFARPAR Y CERBYD

20. Rhaid bod y cerbyd yn cludo'r cyfarpar canlynol:
- Olwyn sbâr sydd yn medru cael ei defnyddio yn syth. Os yw'r olwyn sbâr yn fath o olwyn sbâr sydd yn fach a'n cael ei defnyddio fel mesur dros dro gan fod angen arbed lle, mae ond modd ei defnyddio ar gyfer y daith i gywiro'r olwyn ac mae cerbydau sydd yn cynnwys math penodol i dechnoleg yn cael ei eithrio o'r amodau ar ddisgresiwn y Cyngor (e.e. mae'r cerbyd yn cynnwys olwynion 'run-flat').
 - 'Jack' a theclynnau ar gyfer newid olwynion.
 - Bydd unrhyw gyfarpar atodol sydd yn cael eu gosod yn ymatal rhag effeithio ar yrwyrr mewn unrhyw ffordd, neu'n effeithio ar eu golwg, neu'n achosi peryglon i deithwyr neu eraill sydd yn defnyddio'r ffordd.
 - Rhaid bod pecyn cymorth cyntaf yn cael ei osod mewn lle sydd yn golygu ei fod yn hawdd cael gafael arno mewn argyfwng. Bydd yn cynnwys darpariaethau cymorth cyntaf priodol. Yn sgil deddfwriaeth iechyd a diogelwch, nid ydym yn cynghori cynnwys 'ointments' neu'r hyn sydd angen i leddfu poen. Os oes unrhyw bryderon gan y Cyngor am gynnwys neu gyflwr y pecyn cymorth cyntaf, efallai y bydd angen i'r gyrrwyr drefnu pecyn newydd yn syth. Bydd rhif cofrestru'r cerbyd yn cael ei nodi ar y pecyn cymorth cyntaf drwy'r amser.

HYSBYSEBU

21. Mae ond modd cynnwys hysbysebion ar y tu mewn yn y Cerbyd Hackney, a hynny mewn llefydd penodol yn unig sef 'underside of the tip-up seats and across the bulkhead above the dividing glass partition'. Mae'r maint a ganiateir fel a ganlyn:

- bulkhead 60cm x 8 cm
- tip up seat 33cm x 30.5cm.

Nid oes hawl gosod hysbysebion ar y gwydr rhwng y gyrrwr a'r teithwyr (os yn berthnasol) ac eithrio unrhyw hysbysiadau sydd wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor, fel y cerdyn tariff.

SYSTEMAU SŴN, FIDEO A RECORDIO

22. Nid oes hawl gosod unrhyw systemau sŵn, fideo neu recordio yn y cerbyd na sydd wedi eu gosod gan wneuthurwyr neu ni ddylid ei ddefnyddio mewn modd na sydd yn cydymffurfio gyda chanllawiau camerâu cylch cyfyng y Cyngor.

DIM YSMYGU YN Y CERBYD

23. Nid oes hawl ysmegu yn y cerbyd ac mae hyn yn berthnasol i'r gyrrwr a'r teithwyr (mae hyn yn cynnwys sigarêts trydanol neu ddyfeisiau syml). Dylai'r cerbyd gydymffurfio gyda rheoliadau "di-fwg" fel sydd wedi eu datgan yn y Ddeddf Iechyd 2006. Rhaid i'r cerbyd arddangos arwydd 'dim ysmegu' mewn safle amlwg. Dylai gynnwys y symbol 'dim ysmegu' rhyngwladol.

MESURYDDION A FFIOEDD

24. Rhaid bod y cerbyd yn cynnwys mesurydd tacsï sydd yn gorfod cydymffurfio gyda Rheoliadau Offerynnau Mesur (Mesuryddion Tacsï) 2006. Bydd y mesurydd tacsï yn:
- dangos y ffi sydd wedi ei gofnodi ar y mesurydd tacsï yn gwbl amlwg gyda'r gair 'FARE' wedi ei arddangos yn agos i'r ffigyrau yma.
 - Bydd y mesurydd yn cael ei osod yn unol gyda Thabl y Cyngor ar gyfer Ffioedd Cerbydau Hackney oni bai bod y Perchennog am gynnig ffi is. Yn y fath achos, dylai'r Perchennog arddangos Tariff y Cyngor ar y cyd gyda Cherdyn Ffioedd y Perchennog. Yn y fath amgylchiadau, rhaid bod Cerdyn Ffioedd y Perchennog yn datgan yn eglur nad yw'r Perchennog am godi'r uchafswm sydd yn cael ei osod gan y Cyngor. Bydd copi o'r Cerdyn Perchennog yn cael ei roi i'r Cyngor ar gyfer ei gofnodion ei hun.
25. Rhaid gosod y ffi mewn modd amlwg fel bod y ffi sydd i'w dalu yn weledol i'r holl deithwyr yn y cerbyd drwy'r amser, gyda'r ffigyrau wedi eu hamlygu. Yn achos Cerbydau Hackney sydd yn meddu ar dariannau diogelwch, dylai'r ffi gael ei arddangos yn rhan gefn y cerbyd.
26. Bydd Perchennog y Cerbyd Hackney yn sicrhau bod yna lyfr derbynneb ar gael yn y cerbyd drwy'r amser a dylid rhoi derbynneb o'r fath i'r teithiwr ar gais.

EIDDO COLL

27. Bydd Perchennog neu yrrwr y Cerbyd Hackney yn cymryd pob cam rhesymol er mwyn ceisio dychwelyd unrhyw eiddo sydd wedi ei adael yn y cerbyd i'r Perchennog cywir ac yn rhoi gwybod am unrhyw eiddo col i'r Cyngor o fewn 48 awr.

28. Amgylchiadau Amgylcheddol

- **Bydd trwyddedau ar gyfer Cerbydau Hurio Preifat newydd** ond yn cael eu rhoi i gerbydau sydd yn cwrdd â'r safon Euro 6.
 - **Bydd trwyddedau ar gyfer Cerbydau Hurio Preifat newydd** ond yn medru cael eu trosglwyddo i gerbydau sydd yn cwrdd â'r safon Euro 6.
 - **Newid Cerbyd Hackney a Cherbyd Hurio Preifat.** Mae deiliad trwydded presennol (perchennog sydd wedi dal y drwydded cyn cyflwyno'r polisi ac wedi parhau i adnewyddu'r drwydded) yn medru parhau i ddal/adnewyddu'r drwydded am oes sillf y cerbyd, nid oes ots beth yw'r cyfradd safonol Ewropeaidd.
26. Bydd deiliad y Drwydded Gyrrwr Hurio Preifat yn cydymffurfio gyda'r darpariaethau sydd yn ymwneud gyda cherbydau Hurio Preifat sydd yn y ddeddfwriaeth ganlynol:
- Deddf Cyfrifoldebau'r Heddluoedd Trefol 1847
 - Rhan 11 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976
 - Deddf Traffig Ffyrdd 1988 Rhan 11(a) Adeiladwaith a'r Defnydd o Gerbydau Modur a Chyfarpar
 - Deddf Cydraddoldeb 2010
 - Deddf Iechyd 2006

Atodiad 17.

Tabl o'r Ffioedd Cerbydau Hackney

Prisiau Siwrneiau Cerbydau Hackney

Hackney Carriage Table of fares

TARIFF 1	TARIFF 1	
6AM – 7PM (HYD AT 4 TEITHIWR)	6AM - 7PM (UP TO 4 PASSENGERS)	
Y PRIS AM Y 0.5 (HANNER) MILLTIR GYNTAF NEU RAN OHONI FYDD	THE FARE FOR THE FIRST 0.5 (HALF) MILE OR PART THEREOF SHALL BE	£4:00
Y PRIS AM BOB 1/12 ^{FED} MILLTIR DDILYNOL NEU RAN OHONI FYDD	EACH SUBSEQUENT 1/12 TH OF A MILE OR PART THEREOF SHALL BE	£0:20
TARIFF 2	TARIFF 2	
7PM – 6AM (HYD AT 4 TEITHIWR)	7PM – 6AM (UP TO 4 PASSENGERS)	
Y PRIS AM Y 0.5 (HANNER) MILLTIR GYNTAF NEU RAN OHONI FYDD	THE FARE FOR THE FIRST 0.5 (HALF) MILE OR PART THEREOF SHALL BE	£4:50
Y PRIS AM BOB 1/14 ^{FED} MILLTIR DDILYNOL NEU RAN OHONI FYDD	EACH SUBSEQUENT 1/14 TH OF A MILE OR PART THEREOF SHALL BE	£0:20
TARIFF 3	TARIFF 3	
6AM – 7PM (5-8 TEITHIWR)	6AM – 7PM (5-8 PASSENGERS)	
Y PRIS AM Y 0.5 (HANNER) MILLTIR GYNTAF NEU RAN OHONI FYDD	THE FARE FOR THE FIRST 0.5 (HALF) MILE OR PART THEREOF SHALL BE	£4:50
Y PRIS AM BOB 1/12 ^{FED} MILLTIR DDILYNOL NEU RAN OHONI FYDD	EACH SUBSEQUENT 1/12 TH OF A MILE OR PART THEREOF SHALL BE	£0:30
TARIFF 4	TARIFF 4	
7PM – 6AM (5-8 TEITHIWR)	7PM – 6AM (5-8 PASSENGERS)	
Y PRIS AM - Y 0.5 (HANNER) MILLTIR GYNTAF NEU RAN OHONI FYDD	THE FARE FOR THE FIRST 0.5 (HALF) MILE OR PART THEREOF SHALL BE	£5:00
Y PRIS AM BOB 1/14 ^{FED} MILLTIR DDILYNOL NEU RAN OHONI FYDD	EACH SUBSEQUENT 1/14 TH OF A MILE OR PART THEREOF SHALL BE	£0:30
YCHWANEGIAU AR GYFER LLOGI AR WYLIAU BANC A GWYLIAU CYHOEDDUS - UN A HANNER GWAITH Y PRISIAU ARFEROL AR GYFER LLOGI RHWNG 6.00 P.M. NOSWYL NADOLIG A 6:00AM AR 2 ^{IL} IONAWR YN UNIG – DYBLU'R PRIS ARFEROL YNGHYD AG AMSER AROS - Y PRIS AR GYFER POB CYFNOD O 1(UN) MUNUD NEU RAN OHONI BYDD - £0.40 DIM TÂL YCHWANEGOL AR GYFER (BAGIAU, ANIFEILIAID AC ATI) BAEDDU CERBYD - HYD AT UCHAFSWM O £100.00		EXTRAS FOR HIRINGS ON BANK AND PUBLIC HOLIDAYS - ONE AND A HALF TIMES NORMAL FARES FOR HIRINGS BETWEEN 6.00 P.M. CHRISTMAS EVE AND 6.00 A.M. ON 27 TH DECEMBER AND BETWEEN 6.00 P.M. NEW YEARS EVE AND 6.00 A.M. ON 2 ND JANUARY ONLY -DOUBLE THE NORMAL FARE PLUS WAITING TIME - FOR EACH PERIOD OF 1(ONE) MINUTE OR PART THEREOF THE CHARGE SHALL BE £0:40 NO CHARGE (LUGGAGE, ANIMALS ETC) FOULING OF VEHICLE - UP TO A MAXIMUM OF £100

Atodiad 18.

Polisi Camerâu Cylch Cyfyng

Manylebau ac Amodau ar gyfer Camerâu Cylch Cyfyng (CCTV)

Mewn Cerbydau Hackney a Hurio Preifat

Cyffredinol

Mae'r canllawiau yma yn sicrhau bod systemau CCTV mewn Tacsis a Cherbydau Hurio sydd wedi eu trwyddedu gan Gyngor Sir Fynwy yn cael eu rheoli'n gywir er mwyn atal unrhyw droseddu; a'n gwella iechyd a diogelwch y gyrwyr a theithwyr.

O ran y Polisi yma, mae'r term 'system CCTV' yn berthnasol i unrhyw ddyfais recordio electronig sydd wedi ei osod y tu mewn i gerbyd ac yn meddu ar y gallu technegol i gofnodi a chadw delweddau gweledol ac unrhyw sŵn sydd tu mewn a thu allan y cerbyd. Yn ogystal â systemau CCTV, mae'r rhain yn medru cynnwys er enghraifft, dyfeisiau fel dyfeisiau cofnodi data digwyddiadau/damweiniau.

Os caiff system CCTV ei gosod a'i gweithredu, rhaid cydymffurfio gyda gofynion Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth: <https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1542/cctv-code-of-practice.pdf>

Rhaid bod datganiad o gydymffurfiaeth sydd wedi ei arwyddo gan y cwmni sydd yn darparu'r system CCTV, yn cadarnhau bod y system yn cwrdd â'r gofynion sydd wedi eu nodi yn y Polisi.

Bydd y Polisi yn berthnasol i unrhyw gerbyd sydd yn cynnwys system CCTV fel sydd wedi ei ddisgrifio uchod.

Pwrpas y CCTV

Mae'r Cyngor yn credu y bydd system CCTV yn gwella diogelwch y gyrwyr/teithwyr mewn cerbydau Trwyddedig drwy:

- Atal unrhyw droseddu rhag digwydd
- Atal y pryder o droseddu
- Cynorthwyo'r heddlu gydag ymchwiliadau
- Cynorthwyo cwmnïau yswiriant sydd yn ymchwilio damweiniau cerbydau modur

Gofynion CCTV

Mae'r defnydd o systemau CCTV mewn cerbydau Trwyddedig yn wirfoddol.

Rhaid i unrhyw system CCTV, fel isafswm, gwrdd â'r gofynion sydd wedi eu hamlinellu yn y manyleb yn Atodiad A y canllaw hwn, Dim ond systemau CCTV sydd yn cwrdd â'r gofynion yma sydd yn medru cael eu gosod mewn cerbydau Hackney a cherbydau Hurio Preifat.

Lawrlwytho Data

Bydd data ond yn cael ei lawrlwytho am y dibenion canlynol:

- a) Mewn ymateb i gais dilys o dan Ddeddf Diogelu Data 2018, sydd yn ymwneud gyda'r cerbyd/gyrwr
- b) Mewn ymateb i Gais Gwrthrych Data yn unol gyda Deddf Diogelu Data 2018
- c) Os oes yna gwyn ysgrifenedig wedi ei wneud i'r Adran Drwyddedu am gerbyd/gyrwr ac nid oes modd datrys y gwyn mewn unrhyw ffordd arall.

Mae mwy o wybodaeth ar lawrlwytho data o systemau CCTV wedi ei gynnwys o fewn Polisi Lawrlwytho yr Awdurdod Trwyddedu [INSERT LINK TO SEPARATE POLICY].

Cadw Data

Bydd data sy'n cael ei gadw gan yr Awdurdod Trwyddedu ond yn cael ei gadw am y cyfnodau canlynol:

- a) Achosion yn arwain at erlyniad, 10 mlynedd o ddyddiad yr achos
- b) Rhybudd ffurfiol, 3 blynedd o ddyddiad y rhybudd
- c) Rhybudd ysgrifenedig neu dim camau ffurfiol, 3 blynedd o ddyddiad y penderfyniad
- d) Cais Gwrthrych Data 6 mlynedd o ddyddiad y cais

Rheolydd Data

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn diffinio "rheolydd data" fel y corff sydd yn meddu ar y cyfrifoldeb cyfreithiol o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 ar gyfer yr holl faterion sydd yn ymwneud gyda'r defnydd o ddata personol. O ran gosod a gweithredu'r system CCTV mewn Cerbyd Hackney a Cherbydau Hurio Preifat, y "rheolydd data" yw'r cwmni penodol, mudiad neu'r unigolyn sydd wedi penderfynu gosod y system CCTV yn y cerbyd

Prosesydd Data Trydydd Parti

Os yw darparwr gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer storio data CCTV o bell, byddant yn gweithredu fel y "prosesydd data". Mae prosesydd data, o ran data personol, yn golygu unrhyw berson (ac eithrio rhywun sydd yn gweithio i'r rheolydd data) sydd yn prosesu data ar ran y rheolydd data mewn ymateb i gyfarwyddiadau penodol. Mae rheolydd y data yn gyfrifol am weithredoedd y prosesydd data.

Mae'r holl systemau CCTV mewn Cerbydau Hackney a Hurio Preifat Trwyddedig yn Sir Fynwy yn hysbysu'r Awdurdod Lleol o'r prosesau rheoli data a manylion cyswllt.

Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd (AEB)

Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi llunio AEB er mwyn sicrhau ein bod wedi ystyried yr effaith ar breifatrwydd ac yn gosod mesurau yn eu lle er mwyn rheoli ac ymatal rhag tramgwyddo a diogelu'r data.

Arwyddion

Rhaid i'r holl Gerbydau Hackney a Hurio Preifat sydd yn meddu ar system CCTV arddangos arwyddion o fewn y cerbyd sydd yn dangos bod y CCTV ar waith. Mae angen o leiaf 3 arwydd (1 ar ochr y teithiwr yn y ffyrnt ac 1 ar bob ochr o'r cerbyd yn y cefn).

Rhaid arddangos yr arwyddion mewn modd na sydd yn effeithio ar y gallu i weld allan o'r cerbyd ond hefyd yn ddigon amlwg i deithwyr cyn eu bod yn mynd i mewn i'r cerbyd ac ar ôl iddynt ddod i mewn i'r cerbyd.

Mewn amgylchiadau penodol lle y mae modd cyfiawnhau recordio'r sŵn, rhaid i arwyddion ei gwneud yn amlwg fod hyn yn digwydd a rhaid i'r gyrrwr ddweud wrth y teithwyr hefyd.

Recordio Sŵn

Mae systemau CCTV cymeradwy yn medru recordio sŵn ond ni ddylent recordio sŵn yn barhaus.

Mae ond modd recordio sŵn ar ôl gwasgu botwm 'panig' gan y gyrrwr neu'r teithiwr. Mae'r gyrrwr ond yn medru recordio sŵn yn yr amgylchiadau canlynol:

- Pan mae ef/hi yn credu bod yna beryg i ddiogelwch y teithiwr
- Pan mae ef/hi yn poeni yn sgil cael ei aflonyddu neu ieithwedd fygythiol
- Er mwyn diogelu ei fywoliaeth e.e. gwrthdaro ynglŷn â ffi, pryderi am ddifrod posib i'r cerbyd.

Yn yr amgylchiadau cyfyngedig yma, os yw recordio sŵn yn medru cael ei gyfiawnhau, dylai arwyddion ei gwneud yn gwbl eglur fod hyn yn digwydd.

Cynnal a Chadw a Defnyddio

Rhaid cynnal a chadw a defnyddio'r system yn unol ag amodau trwydded y Cerbyd Hackney / Hurio Preifat.

Atodiad A: Isafswm Manyleb CCTV

1.0 Manylebau Technegol Gweithredol		
Cyf	Manyleb	Manylion
1.1	Dyluniad cyflwr solet 100% neu system sy'n medru atal sioc a dirgryniad	Ni ddylai'r system hon gael unrhyw ffan ac mi ddylai'r hyn sydd yn cael ei recordio wrthsefyll unrhyw ddirgryniad h.y. Flash-based SSD (100% gradd diwydiannol), - Disg galed gyda mecanwaith gwrth-dirgryndod a gwrth-sioc a system ysgrifennu ffeiliau hunan-adferiad a hunan-wirio.

1.2	8 i 15 Folt DC	Yn gweithredu rhwng 8 a15 folt DC
1.3	Diogelu rhag foltedd i'r gwrthwyneb	System i'w ddiogelu rhag foltedd i'r gwrthwyneb.
1.4	Diogelu rhag cylched byr	System i'w ddiogelu rhag cylched byr
1.5	System i'w ddiogelu rhag foltedd uchel	System i'w ddiogelu rhag foltedd uchel sydd yn debygol o ddigwydd mewn system drydanol cerbyd .
1.6	Gofynion Cytunedd Electrofagnetig Moduro	Rhaid bod y system camera tacsï yn y cerbyd yn cydymffurfio gyda Chyfarwydddebau'r Cyngor: 2004/108/EC ar Gytunedd Mouroi - (CISPR 22/EN55022), - 2004/104/EC ar Glecian Radio (adrannau 6.5, 6.6, 6.8 a 6.9) Dylai cyfarpar y camera tacsï gael ei e-farcio neu wedi'i farcio gyda CE a chadarnhad gan y gwneuthurwr ei fod yn addas i'w ddefnyddio mewn cerbydau modur.
1.7	Swïts ar gyfer troi'r ddyfais ymlaen ac i ffwrdd i'w leoli mewn lle na sydd yn hygyrch y tu fewn i'r cerbyd (h.y. yn y gist/ injan)	Mae angen bod y system yn weithredol drwy'r amser pan fydd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio fel cerbyd Trwyddedug. Rhaid bod y swïts ar gyfer troi'r ddyfais ymlaen ac i ffwrdd i'w leoli mewn lle na sydd yn hygyrch y tu fewn i'r cerbyd (h.y. yn y gist/ injan)
1.8	Egwyddor recordio byffer cyntaf mewn/cyntaf allan	

1.9	Cofnodi'r holl gamau yn awtomatig gan gynnwys dyddiad ac enwau personél	
1.10	Diogelwch, hyd a chlirio ffeiliau cofnodi yn awtomatig	
1.11	Fformat ar gyfer tynnu lluniau a delweddau	Rhaid bod y delweddau yn cael eu hallforio mewn fformat sydd ar gael yn fasnachol
1.12	Diogelu delweddau os yw'r trydan yn cael ei golli	Rhaid cadw'r delweddau hyd yn oed os yw'r trydan yn cael ei golli. Nid oes hawl defnyddio batri.
1.13	Rhaid bod yr uned yn medru gweithio heb fod yr injan yn cael ei droi ymlaen.	Rhaid bod yr uned yn medru gweithio am o leiaf 2 awr heb fod yr injan yn cael ei droi ymlaen.
1.14	Bydd delweddau a data sŵn yn cael ei recordio a'i storio mewn uned ar wahân i'r camera	
1.15	Galluedd GPS	Rhaid bod y system yn medru meddu ar alluedd GPS .
1.16	Rhaid bod y system yn medru recordio sŵn sydd yn cyfateb gyda'r delweddau sydd yn cael eu recordio.	
1.17	Ni fydd y system yn recordio sŵn oni bai bod y recordio sŵn yn cael ei weithredu gan fotwm cymeradwy.	Dylai'r system fedd ar y gallu i ddechrau recordio data sŵn drwy gyfrwng o leiaf dau fotwm (gweler 1.26 isod).

		Rhaid bod un o'r botymau yn medru cael ei weithredu gan y gyrrwr. Unwaith y caiff y botwm ei wasgu, bydd y system yn dechrau cofnodi sŵn. Bydd y system yn parhau i recordio sŵn tan fod y botwm yn cael ei wasgu eto. Rhaid bod gwasgu'r botwm eilwaith yn rhoi diwedd ar y recordio sŵn (e.e. gall fod botwm yn cael ei wasgu er mwyn dechrau recordio a phe bai'n cael ei wasgu eto, byddai'n stopio recordio). Rhaid bod y teithwyr yn medru gwasgu'r ail fotwm, a hynny'n annibynnol o'r gyrrwr. Unwaith bod y botwm yn cael ei wasgu, rhaid bod y system yn dechrau cofnodi'r data sain. Bydd y system yn parhau i recordio sain tan fod y botwm yn cael ei wasgu eto. Wrth wasgu'r botwm eilwaith, rhaid bod y recordio yn dod i ben yn syth. Rhaid bod y botymau i ddechrau a gorffen recordio yn annibynnol o'i gilydd – mae hyn yn golygu bod ond modd atal recordio sain drwy wasgu'r un botwm (gyrrwr neu deithiwr) a ddefnyddiwyd i ddechrau recordio sain.
1.18	Pan fydd y sain yn cael ei chwarae nôl, bydd mewn amser 'go iawn' ac yn cyfateb gyda'r delweddau sydd wedi eu dal.	
1.19	Rhaid bod y samplo digidol o'r signal sain yn fwy na 8KHz	
1.20	Rhaid bod yr ansawdd digidol o'r samplau sain yn fwy na 10 bit.	

1.21	Bydd y microffon sain yn integredig o fewn y camera.	
1.22	Rhaid bod y data sain a data'r delweddau yn cael storio gyda'i gilydd, a rhaid diogelu rhag bod rhywun yn cael mynediad heb awdurdod atynt.	
1.23	Rhaid bod y system yn cefnogi profi'r swyddogaeth sain ar gyfer y broses o osod y camera ac at ddibenion arolygu.	
1.24	Rhaid bod y system yn 'mynd i gysgu' er mwyn lleihau'r defnydd o fatri tra nad yw'n cael ei ddefnyddio. Rhaid ei fod yn medru dod yn weithredol yn syth.	
1.25	Ni fydd delweddau sydd yn cael eu recordio gan y system yn cael eu harddangos o fewn y cerbyd.	
1.26	Rhaid bod y system yn meddu ar o leiaf dau fotwm gweithredu brys (botymau gweithredu sain).	Rhaid bod un o'r botymau cofnodi sain yn medru cael ei weithredu gan y gyrrwr. Unwaith y caiff y botwm ei wasgu, bydd y system yn dechrau cofnodi sŵn. Bydd y system yn parhau i recordio sŵn tan fod y botwm yn cael ei wasgu eto. Rhaid bod gwasgu'r botwm eilwaith yn rhoi diwedd ar y recordio sŵn (e.e. gall fod botwm yn cael ei wasgu er mwyn dechrau recordio a phe bai'n cael ei wasgu eto, byddai'n stopio recordio).

1.27	Rhaid bos y system yn cynnwys rhywbeth sydd yn dynodi pryd y mae'r sain yn cael ei gofnodi. Rhaid bod hyn yn weledol i bawb o fewn y cerbyd.	Efallai bod hyn ar ffurf LED sydd yn rhan o'r swîts troi ymlaen neu LED arall y mae modd i deithwyr ei weld.
------	--	--

2.0 Manyleb Technegol ar gyfer Capasiti Storio		
Cyf	Manyleb	Manylion
2.1	O leiaf un deg pedwar diwrnod h.y. (14 x 24 awr) of o gapasiti recordio	Dylai'r system camera fod yn medru recordio a storio isafswm o un deg pedwar diwrnod o ddelweddau o faint HD1 (720/288) neu well. Rhaid bod yr hyn sydd wedi ei recordio yn cael ei ddileu ar ôl 28 diwrnod o ddyddiad y cafodd ei recordio, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol fel cais gan yr Heddlu neu'r Cyngor. Fodd bynnag, yn y fath achosion, rhaid dileu'r data ar ôl datrys mater.
2.2	Rhaid bod y delweddau yn glir ym mhob math o olau	Rhaid bod y system yn medru darparu delweddau clir yn y goleuni, cysgod, tywyllwch a thywyllwch llwyr. Hefyd, pan fydd yna oleuni cryf yn y cefndir.

3.0 Manyleb Technegol Pen y Camera		
Cyf	Manyleb	Manylion
3.1	Gosod y camera mewn modd na sydd yn effeithio ar ddim byd	Bydd y camera a'r holl gyfarpar yn cael ei osod mewn ffordd na sydd yn effeithio ar allu'r gyrrwr i yrru neu ddefnyddio'r drychau ac unrhyw ran arall o'r cerbyd.
3.2	Datgysylltu'r camera	Dylai pen y camera gael ei lunio fel bod modd ei dynnu yn ffwrd yn hawdd a bod un arall yn medru cael ei osod yn hawdd.

3.3	Teclynnau arbennig ar gyfer addasu/tynnu oddi yno	Er mwyn atal unrhyw ymyrraeth amhriodol, dim ond peirianwyr awdurdodedig ddylai fod yn gwneud unrhyw addasiadau neu'n tynnu'r camera oddi yno.
3.4	Medru cofnodi'r holl deithwyr yn y cerbyd	Dylai lens y camera fedru cofnodi'r gyrwyr a'r holl deithwyr yn y cerbyd. Rhaid bod y camera yn medru cofnodi ag effaith "fishbowl".
3.5	Rhaid bod delweddau yn glir	Dylai'r system fedru cofnodi delweddau clir ym mhob math o olau a chaniatáu bod modd adnabod lliw croen gwahanol
3.6	Yn medru ei ddefnyddio mewn cerbyd sydd â rhaniad (tarian)	Rhaid bod y system camera yn medru cael ei addasu i ddarparu delweddau clir pan fydd cerbyd yn cynnwys tarian. Efallai bod hyn yn golygu defnyddio sawl pren camera.
3.7	Camerâu Amryfal	Dylai'r uned fod yn medru cefnogi hyd at bedwar (4) camera. Efallai bod angen pedwar camera er mwyn medru cofnodi pob dim mewn cerbydau mwy a/neu gerbydau sydd wedi eu hadeiladu.

4.0 Manyleb Technegol – Dyfais Storio

Cyf	Manyleb	Manylion
4.1	Gwrthsefyll ergyd a sioc	Bydd y ddyfais recordio yn medru gwrthsefyll ergyd, yn medru gwrthsefyll damwain car arferol, neu os yw'n cael ei daro gan eitem fawr fel siwtces.
4.2	Dyfais rheoli mewn lle cuddiedig	Bydd yr uned storio yn cael ei chuddio a dim ond personél awdurdodedig fydd yn medru cael mynediad at yr uned.

4.3	Darpariaeth porth lawrlwytho	Bydd y ddyfais recordio yn cynnwys porth cyfathrebu fel bod person awdurdodedig yn medru lawrlwytho delweddau.
4.4	Bydd y ddarpariaeth porth lawrlwytho yn cael ei gadw mewn lleoliad hygyrch fel blwch menig.	Bydd y ddarpariaeth porth lawrlwytho yn cael ei gadw mewn lleoliad hygyrch fel blwch menig neu os nad yw hyn bosib, yna bydd mewn lleoliad na sydd yn golygu bod angen tynnu paneli oddi yno.
4.5	Cebl porth lawrlwytho (o leiaf 1 troedfedd)	Rhaid bod y cebl porth lawrlwytho yn o leiaf 1 troedfedd.
4.6	Dyfais recordio i'w osod yn ddiogel yn y cerbyd	
4.7	Cofnod i gofrestru pob mynediad defnyddiwr	
4.7.1	Cofnod i gofrestru addasiadau paramedr y system	
4.7.2	Cofnod i gofrestru pob sesiwn i lawrlwytho sesiwn	
4.7.3	Cofnod i gofrestru addasu/newid delweddau sydd wedi eu lawrlwytho	
4.7.4	Cofnod i gofrestru allforio o ddelweddau sydd wedi eu lawrlwytho	

4.7.5	Cofnod i gofrestru allforio clipiau sydd wedi eu lawrlwytho	
4.7.6	Ffeil gofnodi wedi ei diogelu rhag mynediad anawdurdodedig	
4.7.7	Stamp amser/dyddiad	Rhaid bod yr holl ddelweddau sydd wedi eu storio yn cynnwys amser a dyddiad.
4.7.8	Stamp rhif ID y cerbyd	Rhaid bod yr holl ddelweddau sydd wedi eu storio yn cynnwys dwy elfen i adnabod y cerbyd (VIN a rhif y plât).
4.7.9	Stamp cod ar gyfer y rheolydd nad oes modd ei newid	Bydd pob delwedd sydd yn cael ei recordio yn cynnwys stamp unigryw a chod nad oes modd ei addasu sydd yn adnabod y ddyfais rheoli a ddefnyddiwyd i gofnodi'r ddelwedd.
4.7.10	Rheolydd	Gwneuthurwr i roi teclynnau arbenigol i Gyngor Sir Fynwy er mwyn caniatáu tynnu'r rheolydd a lawrlwytho'r data pan mae angen.

5.0 Manyleb ar gyfer recordio fideo a sain

Cyf	Manyleb	Manylion
5.1	Recordio delwedd fideo ar system weithredu (pan na fydd y sain yn cael ei weithredol).	Bydd y system yn cofnodi delweddau ar gyfradd isafswm o bedair delwedd yr eiliad.

5.2	Cofnodi delweddau fideo pan fydd y sain yn weithredol.	Bydd y system yn cofnodi delweddau ar raddfa o bum delwedd ar hugain yr eiliad yn ystod cyfnodau pan fydd y recordio sain yn weithredol (naill ai yn sgil gofyniad amser, neu os yw'r gyrrwr yn gwasgu'r botwm neu'r botwm sain teithiwr).
5.3	Pan fydd yn cael ei weithredu, rhaid bod y recordio sain mewn amser go iawn ac yn gyson gyda'r fideo sydd yn cael recordio.	Pan fydd yn cael ei weithredu, rhaid bod y recordio sain mewn amser go iawn ac yn gyson gyda'r fideo sydd yn cael recordio
5.4	System i barhau i recordio delweddau (a sŵn os yn berthnasol) pan fydd yr injan wedi ei ddiffodd.	Rhaid i'r system barhau i recordio delweddau (a sŵn os yn berthnasol) am 30 munud ar ôl diffodd yr injan.

6.0 Manyleb ar gyfer gweithredu drwy'r botwm y gyrrwr neu deithiwr		
Cyf	Manyleb	Manylion
6.1	Os yn gwasgu botwm, bydd angen dal cadw'r delweddau yn ddiogel.	Rhaid bod y system yn cynnwys o leiaf dau fotwm gweithredu a fydd yn deffro system (gweler 1.17 ac 1.26 uchod).
6.2	Y gallu i gadw lluniau brys	Bydd delweddau a ddaw o wasgu'r botwm ar frys yn cael eu cadw mewn lle nad oes modd eu dileu
6.3	Y gallu i gadw lluniau brys ar o leiaf 3 achlysur	
6.4	Ffordd o sicrhau nad oes dim byd yn cael ei glirio am 96 awr	

7.0 Manyleb Technegol Lawrlwytho		
Cyf	Manyleb	Manylion
7.1	Amser i lawrlwytho'r cof cyfan yn llai na 30 munud.	Rhaid medru lawrlwytho'r cof cyfan yn llai na 30 munud.
7.2	Darparu'r meddalwedd, ceblau, allwedd diogelwch i Dîm Trwyddedu Cyngor Sir Fynwy.	
7.3	Rhaid bod modd defnyddio'r system gyda system weithredol TG a gytunir gan yr awdurdod lleol.	
7.4	Delweddau sydd wedi eu lawrlwytho i'w storio mewn cyfryngau na sy'n anweddol	
7.5	Delweddau sydd wedi eu lawrlwytho i'w storio mewn fformat diogel	
7.6	Dilysu dilysrwydd pob delwedd	Bydd pob delwedd yn cynnwys stamp gyda manylion adnabod y rheolydd a'r cerbyd ac ni fydd modd ymyrryd gyda hyn.
7.7	Darparu cymorth technegol i Dîm Trwyddedu Cyngor Sir Fynwy pan fydd angen.	Cynorthwyo i gael mynediad at y system rhag ofn bod y cerbyd neu'r system yn cael ei niweidio mewn damwain o fewn 1 awr yn ystod oriau gwaith normal ac o fewn 8 arall fel arfer.
7.8	Dim Hawl Lawrlwytho'n Ddiwifr.	Ni ddylai'r uned ganiatáu lawrlwytho'n ddiwifr. Mae modd defnyddio diagnosteg ddiwifr. Dylid atal unrhyw galedwedd diwifr rhag cael ei ddefnyddio.

7.9	Ewch drwy'r delweddau penodol ar gyfer digwyddiadau ac amser ar gyfer amcangyfrif o'r amser y mae'r drosedd wedi ei chyflawni.	

8.0 Gofynion sy'n ymwneud gyda Gwybodaeth System

Cyf	Manyleb	Manylion
8.1	Darparu taflen cofnodi gwasanaeth gyda phob uned	Bydd gweithgynhyrchwr yr uned yn cynnwys log gwasanaeth gyda phob uned. Bydd hefyd yn cynnwys cyfarwyddiadau manwl ar gyfer y gyrwyr. Bydd llawlyfr ar gyfer gosod yr uned yn cael ei roi i'r
8.2	Rhif gyfresol ar y cofnod gwasanaeth	Bydd rhif cyfresol ar yr uned.
8.3	Gosod dangosydd dyddiad ar y cofnod gwasanaeth	Darparu ar gyfer yr unigolyn sy'n gosod er mwyn dynodi dyddiad y caiff ei osod
8.4	Darparu cerdyn cyfarwyddiadau i yrwyr gyda phob uned	
8.5	Darparu llawlyfr gosod i'r sawl sydd yn gosod a gweithredwyr y fflyd	
8.6	Eglurder y cyfarwyddiadau gweithredu	Bydd y system yn cynnwys cyfarwyddiadau gweithredu eglur a chryno sydd yn cael eu hysgrifennu ar gyfer lefelau amrywiol o lythrennedd.

8.7	Dyfais yn cael ei gosod gan asiantau awdurdodedig	Bydd yr uned yn cael eu gosod gan asiantau awdurdodedig y gweithgynhyrchwr.
8.8	Darparu rhestr o asiantau awdurdodedig i Dîm Trwyddedu Cyngor Sir Fynwy	Bydd y gweithgynhyrchwr yn darparu rhestr o'r asiantau awdurdodedig i Dîm Trwyddedu Cyngor Sir Fynwy .
8.9	Dogfennaeth	Rhaid bod y gweithgynhyrchwr yn darparu cyfarwyddiadau gweithredol eglur a chryno sydd yn cael eu hysgrifennu'n syml. (Manylion ar sut y mae'r system yn cofnodi'r delweddau)
8.10	Diogelu Delweddau	Rhaid bod pob delwedd sydd yn cael ei dal yn ddiogel gan ddefnyddio meddalwedd amgryptiad sydd yn cwrdd neu'n well na'r safon FIPS 140-2 (lefel 2) neu gyfatebol.

9.0 Cyfleuster Arolygu Cerbyd		
Cyf	Manyleb	Manylion
9.1	Darparu statws/system/dangosydd iechyd	Bydd dangosydd gan y gyrrwr sydd yn dangos pryd y mae'r system yn weithredol a phryd mae yna broblem.
9.2	Dangosydd yn cael eu gosod fel mai'r gyrrwr sydd yn medru eu gweld yn unig	Bydd y dangosyddion yn cael eu gosod fel mai'r gyrrwr sydd yn medru eu gweld yn unig.

9.3	Yr angen am ddangosydd ychwanegol	Os yw'r system yn cynnwys dangosydd sydd yn dangos bod y system ymlaen, bydd y dangosydd yma ar wahân i'r rhai sydd wedi eu rhestru uchod neu o liw gwahanol er mwyn osgoi unrhyw gymhlethdod i'r gyrrwr sydd yn defnyddio'r system.
9.4	Wedi ei ddylunio/gosod i'w brofi gan Dîm Trwyddedu Cyngor Sir Fynwy (neu rywun sydd yn gweithredu ar ran y Cyngor - fel arolygwyr y cerbyd)	Bydd y system wedi ei ddylunio/gosod i'w brofi gan Dîm Trwyddedu Cyngor Sir Fynwy (er mwyn sicrhau bod pob dim yn gweithio a'r delweddau yn cael eu recordio fel sydd angen.

10.0 Gofynion System Cyffredinol		
Cyf	Manyleb	Manylion
10.1	Gwrthsefyll unrhyw fandaliaeth ac ymyrraeth	
10.2	Darparu datganiad o gydymffurfiaeth	Yn ogystal â phrawf ffurfiol o hyn, bydd angen datganiad o gydymffurfiaeth wedi ei arwyddo gan swyddog y cwmni.
10.3	Dibynadwyedd mewn amodau gweithredol ac amgylcheddol	Bydd y system yn medru gweithredu'n llawn ac yn gywir ym mhob amod gweithredol ac amgylcheddol sydd yn digwydd wrth yrru tacsis.
10.4	Diwygio'r parafedrau ar gyfer amseru delweddau	Mae'n bosib newid amseru a pharamedrau heb yr angen i newid cydrannau.
10.5	Cymorth a Chyfarpar Hyfforddi a Thechnegol	Rhaid bod y gweithgynhyrchwr yn darparu Llawlyfr Hyfforddi a Thechnegol i Dîm Trwyddedu Cyngor Sir Fynwy.
10.6	Meddalwedd a Chaledwedd	Gweithgynhyrchwr yn darparu cyflenwad o geblau a meddalwedd i Gyngor Sir Fynwy sydd i'w gosod o dan oruchwyliaeth staff awdurdodedig y Cyngor.

10.7	Cytundeb rhwng Gweithgynhyrchwr y Camera a Chyngor Sir Fynwy	Cytundeb i ganiatáu Cyngor Sir Fynwy i dderbyn y feddalwedd berthnasol o'r Gweithgynhyrchwr fel bod y Cyngor yn medru cefnogi'r system rhag ofn bod y Gweithgynhyrchwr yn mynd allan o fusnes.
10.8	Rhaid bod yr holl gyfarpar yn cydymffurfio gydag unrhyw ofynion deddfwriaethol o ran Rheoliadau Adeiladwaith a Defnydd o Gerbydau Modur	

Atodiad 19.

Polisi Systemau Fideo Pwynt Trawiad (“Dash Cams”)

Mae systemau ‘Dash Cam’ yn gamerâu sydd yn wynebu’r ffordd ac yn recordio’r hyn sydd yn digwydd y tu allan i’r cerbyd. Maent yn cael eu defnyddio er mwyn cofnodi’r hyn sydd yn digwydd rhag ofn bod y cerbyd mewn damwain ffordd.

Maent yn meddu ar nifer o fanteision fel adnabod pwy sydd yn gyfrifol am ddamwain, darparu tystiolaeth, datrys anghytundeb ac mewn rhai achosion, mae’n medru lleihau costau yswiriant.

Rhaid i berchnogion Cerbydau Hackney Trwyddedig a Cherbydau Hurio Preifat sydd am osod system VPIS wneud hyn yn unol gyda’r polisi yma a’r amodau.

Mae ‘dash cams’ yma hefyd yn gorfod cydymffurfio gyda’r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, a chyn prynu’r system, rydym yn argymhell fod Perchnogion yn darllen canllawiau Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth ar ‘Code of Practice for Surveillance Cameras and Personal Information’ a’r Canllaw ar Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol – mae mwy o wybodaeth yma: <https://ico.org.uk/>

Dylid nodi mai Perchennog y cerbyd yw’r rheolydd data ar gyfer system ac yn gyfrifol am y data oni bai bod y system yn cynnwys camerâu cylch cyfyng mewnol (gweler y polisi camerâu cylch cyfyng am fwy o fanylion).

Rhaid bod systemau sydd yn cofnodi delweddau mewnol ac allanol yn cydymffurfio gyda’r polisi yma pholisi a manylebau polisi camerâu cylch cyfyng yr Awdurdod Trwyddedu.

Yr amodau sydd yn berthnasol i Drwyddedau Cerbydau Hackney a Hurio Preifat:

1. Nid oes hawl gosod ‘Dash Cam’ mewn cerbyd oni bai fod gan y cerbyd y marc CE ac yn cydymffurfio gyda Chyfarwydddeb y Cyngor 93/68/EEC neu gyfatebol.
2. Rhaid bod Perchennog y cerbyd yn cyflwyno polisi ‘dash cam’ sydd yn nodi’r sylfaen gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol a’r cyfnod ar gyfer cadw’r data. Bydd angen cyfathrebu pwrpas y system i unrhyw un sydd yn gyrru’r cerbyd.
3. Dylai Perchennog y cerbyd hysbysu’r Awdurdod Trwyddedu o fewn 7 diwrnod ar ôl gosod system VIPS. Dylid gwneud hyn ysgrifenedig a dylid cynnwys manylion y cerbyd a gwneuthuriad, model a marc CE (neu gyfatebol) y system VIPS
4. Bydd hysbysiad ymgynghorol, sy’n cael ei ddarparu gan y cyflenwr, yn cael ei ddangos y tu mewn i’r cerbyd ar y ddwy ffenestr lle y mae’r teithwyr yn eistedd. Bydd yr hysbysiadau yn cael eu gosod mewn lle amlwg lle y mae y mae i berson eu darllen boed eu bod yn y cerbyd neu tu allan i’r cerbyd. Bydd y Perchennog yn sicrhau bod yr hysbysiadau yma yn lân a bod modd eu darllen.
5. Bydd y Perchennog yn sicrhau bod y system yn cael ei chynnal yn gywir ac yn gyson ac yn unol gyda chyfarwyddiadau’r gwneuthurwr a gan berson cymwys addas. Bydd cofnodion ysgrifenedig o’r holl waith cynnal a chadw yn cael ei gadw gan

Berchennog am o leiaf 12 mis. Dylai'r fath gofnodion ysgrifenedig fod ar gael ar gais Swyddog Awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu Swyddog Heddlu.

6. Os yw'r Awdurdod Trwyddedu neu swyddog yn gwneud cais am lun, bydd angen i'r Perchennog sicrhau bod y system 'Dash Cam' ar gael i'r gweinyddwr system, cyn gynted ag sydd yn rhesymol ymarferol, ac yn sicr o fewn 7 diwrnod ar ôl derbyn y cais.
7. Bydd Perchennog y cerbyd yn cymryd pob cam rhesymol er mwyn sicrhau bod unrhyw yrrwr o'r cerbyd yn ymwybodol o bob amod sydd yn ymwneud gyda gosod system 'Dash Cam' ac wedi derbyn cyfarwyddiadau digonol ar yr angen i sicrhau bod y system ar gael cyn gynted ag sydd yn rhesymol ymarferol, ac yn sicr o fewn 7 diwrnod ar ôl derbyn y cais am luniau.
8. Bydd y Perchennog yn sicrhau, os oes angen, bod yr hysbysiad yn cael ei gyflwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth er mwyn ymdrin â'r rhesymau pam fod y system 'Dash Cam' yn cael ei defnyddio.

Atodiad 20.

Polisi Lifrai'r Cerbyd

Nid yw rhai aelodau o'r cyhoedd yn medru sylwi'r gwahaniaeth rhwng Cerbydau Hurio Preifat a Cherbydau Hackney ac nid ydynt yn deall nad oes modd hurio Cerbydau Hurio Preifat yn syth neu ceisio galw amdanynt tra ochr y stryd. Felly, mae'n bwysig bod y cyhoedd yn medru adnabod pob math o gerbyd. Mae creu lliwiau gwahanol ar gyfer Cerbydau Hackney yn delio gyda hyn.

Nid yw arwyddion ar doeon cerbydau Hurio Preifat yn cael eu hystyried yn arfer gorau, er eu bod yn medru nodi 'pre-booked only'. Mae hyn am fod unrhyw arwyddion yn medru cymhlethu cwsmeriaid gan fod y rhain ar doeon y Cerbyd Hackney hefyd.

Mae cerbydau sydd wedi eu trwyddedu gan Gyngor Sir Fynwy, boed yn Gerbydau Hackney a Hurio Preifat angen arddangos plât allanol sydd wedi ei roi gan y 'Cyngor', a hynny ar flaen y cerbyd ac ar y cefn. Rhaid bod y platiau wedi eu gosod yn ofalus ar y cerbyd, gan ddefnyddio sgriwiau ac ati neu fraced sydd wedi ei roi gan y Cyngor. Bydd y cerbyd hefyd yn meddu ar blât mewnol a fydd ar y ffenestr ffrynt fel ei fod yn weladwy i deithwyr. Ar hyn o bryd, mae platiau Cerbydau Hackney yn rhai petryal ac yn felyn gan amlaf. Mae platiau Cerbydau Hurio Preifat yn rhai petryal ac yn wyn gan amlaf. Rydym yn cynnig parhau i ddefnyddio'r lliwiau yma er mwyn gwahaniaethu rhwng y ddau fath o gerbyd.

Mae Cerbyd Hackney Carriages sydd wedi ei drwyddedu gan y Cyngor yn gorfod meddu ar arwydd ar do'r car sydd wedi ei oleuo. Rhaid bod hyn yn darllen 'Taksi' tua'r blaen a 'Taxi' i gyfeiriad y cerbyd sydd tu nol a rhaid goleuo hyn pan fydd y cerbyd yn chwilio am gwsmeriaid.

Mae lifrai cyfredol Sir Fynwy fel a ganlyn:



CYNGOR
monmouthshire
COUNTY COUNCIL
sir fynwy

CERBYD LLOGI PREIFAT PRIVATE HIRE VEHICLE

RHIF COFRESTRU : REG NO

MATH O GERBYD : VEHICLE TYPE

I GLUDO : TO CARRY



CYNGOR
monmouthshire
COUNTY COUNCIL
sir fynwy

HACKNEY CARRIAGE

REGISTRATION NO:

VEHICLE TYPE:

LICENSED TO CARRY:



Atodiad 21.

Polisi Hysbysebu'r Cerbydau

1. Mae modd dangos arwydd yn dynodi bod y cerbyd yn hygyrch i gadeiriau olwyn heb ganiatâd ond ni ddylai fod y fwy na 300mm x 210mm mewn maint.
2. Mae hysbyseb yn dangos enw a manylion cwmni'r Cerbyd Hackney /Hurio Preifat, ac mae modd defnyddio hyn heb ganiatâd, ar yr amod fod hyn yn dilyn yr egwyddorion sylfaen isod.
3. Mae'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer cymeradwyo pob math o hysbysebu ar neu o fewn cerbyd yn cynnwys:
 - Bydd unrhyw hysbyseb yn eglur ac ni fydd yn achosi penbleth.
 - Ni fydd caniatâd yn cael ei roi i hysbysebu sydd yn amharu ar ffenestri'r cerbyd.
 - Ni fydd yna hysbysebu ychwanegol ar neu o fewn cerbyd fel gweithredwr yn hysbysebu am yrwyr.
4. Ni fydd hawl hysbysebu (ac eithrio am y rhesymau na sydd angen caniatâd fel sydd wedi ei nodi yn eitemau 1 a 2 uchod) o dan unrhyw amgylchiadau ar neu o fewn cerbyd heb dderbyn caniatâd gan yr Awdurdod Trwyddedu.
5. Nid yw'r hawl i hysbysebu yn medru cael ei drosglwyddo rhwng cerbydau a gweithredwyr. Os yw cerbyd yn cael ei newid, rhaid sicrhau caniatâd newydd a bydd yr holl benderfyniadau yn seiliedig ar y meini prawf sydd wedi eu hamlinellu yn y Polisi yma.
6. Bydd y caniatâd i hysbysebu yn cael ei gadw yn y cerbyd drwy'r amser ac ar gael ar gais gan y Swyddog Awdurdodedig.
7. Mae modd gosod sgrin arddangos sydd yn dangos hysbysebion sy'n symud yn ddiogel yn y cerbyd, a hynny ar yr amod nad yw hyn yn amharu ar allu'r gyrrwr yn y cerbyd i weld, a bod y Cyngor wedi cymeradwyo yn ysgrifenedig bod modd dangos y deunydd sy'n cael eu hysbysebu. Rhaid gosod hysbysiad ger y teithwyr yn sedd gefn yn datgan fod modd diffodd y sgrin ar gais y teithiwr.
8. Rhaid bod unrhyw hysbysebu yn cydymffurfio gyda safonau'r Cyngor Safonau Hysbysebu o ran yr holl faterion sydd yn ymwneud gyda chwaeth dda, a hynny o ran cynnwys ac ymddangosiad ac ni ddylai ymwneud gyda thybaco, alcohol neu faterion o natur rywiol.

Atodiad 22

Car a Cheffyl (Cerbydau Hackney unig)

Mae'r amodau yma yn berthnasol pan ddaw hi at hurio neu ddefnydd o gar a cheffyl gan ddeiliad y drwydded. Cyfrifoldeb deiliad y drwydded yw sicrhau, cyn belled ag sydd yn rhesymol arferol, bod yna gydymffurfiaeth gyda'r amodau yma gan unrhyw berson y mae ef/hi yn cyflogi i yrru'r car a cheffyl. Mae'r amodau hyn yn ychwanegol at yr amodau sydd wedi eu hamlinellu yn y Polisi hwn.

Car a Cheffyl

1. Bydd Perchennog car sydd yn cael ei dynnu gan geffyl a pherchennog y drwydded cerbyd yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u dyletswyddau o ran y cerbyd, y gyrrwr a'r Awdurdod Trwyddedu. Bydd ef/hi yn cydymffurfio gyda darpariaethau'r TPCA a'r LG(MP)A, y Polisi yma ac unrhyw Is-ddeddfau ac amodau ychwanegol o ran trwyddedu car a cheffyl.
2. Bydd y sawl sy'n gwneud cais am drwydded Car a Cheffyl angen gwneud cais i'r Awdurdod Trwyddedu a chyflwyno'r ddogfennaeth ganlynol:
 - Tystysgrif o atebolrwydd cyhoeddus sydd yn gorfod bod gwerth isafswm o £2,000,000;
 - Tystysgrif o yswiriant ar gyfer y Car, a hynny ar gyfer Hurio Cyhoeddus;
 - Adroddiad gan filfeddyg sydd yn nodi ffitrwydd a phriodoldeb y ceffyl(au) a chyflwr yr harnais sydd i'w defnyddio. Bydd y dystysgrif yn nodi faint o deithwyr y mae'r car yn medru cludo;
 - Tystysgrif Asesiad o Yrru ar y Ffordd neu dystysgrif ddilys o gymhwysedd gyrru sydd wedi ei roi a ran Cymdeithas Gyrru Prydain neu'r 'Heavy Horse Training Committee' (am fwy o wybodaeth, ewch i <http://wales.britishdrivingsociety.co.uk/> a <https://www.gov.uk/horse-drawn-Hackney-licence>); a
 - Copi o'r asesiad risg iechyd a diogelwch .
3. Budd unrhyw Swyddog Awdurdodedig o'r Awdurdod Trwyddedu neu'r RSPCA yn medru arolygu'r car; yr harnais, y ceffylau neu unrhyw lety a ddefnyddir i gadw'r ceffylau ar unrhyw adeg ac maent hefyd yn medru cynghori a oes modd defnyddio'r ceffyl a'r harnais gyda'i gilydd. Os oes yna bryderon, efallai y bydd yr Awdurdod Trwyddedu angen milfeddyg neu arbenigwr gyrru car a cheffyl i gynnal arolwg a rhaid i ddeiliad y drwydded i dalu am hyn.

Perchennog/Amodau'r Gyrrwr

4. Bydd y gyrrwr yn cydymffurfio gyda'r holl amodau a'r Is-ddeddfau Cerbydau Hackney sydd wedi eu hamlinellu yn y Polisi yma.
5. At hyn, bydd angen i'r gyrrwr i fynd am Asesiad Gyrru ar y Ffordd neu Dystysgrif ddilys ar gyfer cymhwysedd gyrru sydd wedi ei gyflwyno ar ran Cymdeithas Gyrru Prydain. Argymhellir mai'r prawf yma yw'r isafswm o gymhwysedd gyrru ceffylau a cherbydau

sydd yn cludo teithwyr ar y briffordd. Mae ceisiadau am asesiadau yn medru cael eu gwneud i Gymdeithas Gyrru Prydain neu'r Heavy Horse Training Committee. Rhaid i'r ymgeisydd dalu am hyn.

6. Ni fydd y Perchennog/Gyrrwr yn caniatáu cludo unrhyw deithwyr yn y cerbyd oni bai bod y gyrrwr yn ei le pan fydd y car a cheffyl yn symud.
7. Bydd y Perchennog/Gyrrwr yn cydweithredu yn llawn gydag unrhyw ymchwiliad i mewn i gwynion gan y Swyddog Awdurdodedig ac yn mynychu swyddfeydd yr Awdurdod Trwyddedu a'n darparu unrhyw wybodaeth sydd angen yn ystod yr ymchwiliad.
8. Bydd y Perchennog yn gofalu am les anifeiliaid ac yn sicrhau bod unrhyw yrrwr hefyd yn deall sut i ofalu am yr anifeiliaid.
9. Bydd y Perchennog/Gyrrwr yn gyfrifol am lanhau unrhyw fawr ceffyl mewn mannau cyhoeddus fel rhan o'r gwaith a weir o dan y drwydded hon. Gellir gwneud hyn drwy ychwanegu 'dung chute' i ben-ôl y ceffyl.

Ceffyl(au)

10. Rhaid bod y ceffyl(au) a ddefnyddir i dynnu'r car yn medru cael ei adnabod gan yr Awdurdod Trwyddedu i'w gynnwys ar y drwydded. Ni cheir defnyddio unrhyw geffyl oni bai bod tystysgrif wedi ei dderbyn gan filfeddyg am ffitrwydd a phriodoldeb y ceffyl a bod hyn wedi ei gyflwyno i'r Awdurdod Trwyddedu; bydd angen ail-gyflwyno'r dystysgrif yma gydag unrhyw gais newydd neu gais adnewyddu. Rhaid i'r ymgeisydd dalu am y dystysgrif.
11. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried cyngor y milfeddyg ar y math o waith ac oriau gwaith ar gyfer y car a nifer y ceffylau sydd ar gael i dynnu'r car. Mae ond hawl defnyddio ceffyl sydd wedi eu harolygu a'u dilysu er mwyn tynnu'r car a bydd manylion y ceffylau cymeradwy yn ffurfio rhan o unrhyw drwydded sydd yn cael ei rhoi gan yr Awdurdod Trwyddedu.
12. Bydd y ceffyl yn chwe blwydd oed o leiaf; rhaid bod yn ddogfennaeth yn profi hyn.
13. Ni fydd modd defnyddio unrhyw geffyl sydd yn tynnu car fel rhan o weithgarwch arall yn ystod yr un diwrnod.
14. Ni fydd ceffylau yn cael eu bwydo yn y stryd oni bai bod y bwyd mewn bag priodol neu'u bod yn cael eu bwydo â llaw.
15. Nid oes hawl gwneud defnydd gormodol o'r chwip a dylid ei gyfyngu i reoli'r ceffyl yn unig.

Ceir

16. Bydd angen asesu'r car gan Swyddog Awdurdodedig o'r Cyngor, a hynny ar adegau ac mewn lleoedd sydd yn rhesymol.
17. Bydd yna 'drag' digonol yn cael ei ychwanegu at y car a mesurau brêc a pharcio, a byddant yn cael eu cynnal a chadw yn ofalus.
18. Bydd y car yn cael ei gadw mewn cyflwr da. Bydd y tu fewn a thu allan yn cael eu cadw'n lân.
19. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cadw'r hawl, hyd yn oed ar ôl cymeradwyo'r car, i atal trwydded os oes yna ddiffyg ym marn yr Awdurdod Trwyddedu a'i fod yn credu ei fod yn

anaddas ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus. Bydd y drwydded yn cael ei hatal tan fod y diffygion yma wedi eu cywiro ym marn yr Awdurdod Trwyddedu.

20. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cael ei hysbysu os oes yna unrhyw addasiad yn cael ei wneud i unrhyw ran o'r car, a hynny cyn gwneud yr addasiad
21. Rhaid hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu o unrhyw ddamweiniau sydd yn effeithio ar y car, a hynny cyn gynted ag sydd yn rhesymol ymarferol, neu'n sicr o fewn 72 awr, a rhaid i yrwyr gydymffurfio gyda'r amodau sydd wedi eu hamlinellu yn y Polisi yma.
22. Rhaid bod unrhyw gar sydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer ei drwyddedu fod o fath addas ar gyfer gwneud gwaith cerbyd Hackney. Byddant yn cydymffurfio gyda'r gofynion sydd yn ymwneud gyda gofod, lle i'r pen a'r pengliniau ac unrhyw amodau rhesymol eraill er mwyn bodloni'r Awdurdod Trwyddedu.
23. Bydd plât yn cael ei osod i gefn y cerbyd, sydd wedi ei dylunio a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod Trwyddedu, gan arddangos nifer y teithwyr a ganiateir i deithio yn y cerbyd.
24. Nid oes modd ychwanegu neu gludo unrhyw hysbysebion, gosodiadau neu arwyddion i'r car tu mewn neu du allan) oni bai bod hyn wedi ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Trwyddedu.
25. Rhaid bod y car wedi ei adeiladu a'r drysau yn agor yn ddigonol er mwyn caniatáu digon o le i fynd i mewn ac allan yn syth i'r sedd ffrynt a rhaid bod hyn yn ddigonol ac yn gyfforddus ar gyfer teithwyr ym marn yr Awdurdod Trwyddedu.
26. Bydd y car yn meddu ar 4 olwyn adeiniog a theiars rwbwr caled. Bydd llawr y car yn cynnwys matiau neu ddeunydd arall a bydd y to yn medru dal glaw (boed eu bod yn medru cael ei dynnu ffwrdd ai peidio). Bydd yr holl osodiadau chelfi yn cael eu cadw'n lân a'n ddigonol ar gyfer y bobl sydd yn ei ddefnyddio.
27. Bydd seddau'r cerbyd yn cynnwys clustogau neu orchuddion ar gyfer cludo pobl.
28. Bydd y cerbyd yn cael ei gadw mewn cyflwr da, ac os yw'r teiars yn cael eu difrodi, ni fydd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio. Ni fydd y nifer o deithwyr yn uwch na'r hyn sydd wedi ei awdurdodi gan Awdurdod Trwyddedu.
29. Bydd hysbysiad yn cael ei osod ar ran o'r cerbyd a fydd yn weledol i deithwyr, gan fanylu'r ffioedd y bydd teithwyr yn gorfod talu. Dylid nodi bod ffioedd Cerbydau Hackney yn cael eu gosod gan yr Awdurdod Trwyddedu yn uchafswm ac mae'r huriwr yn medru negodi pris is.

Harnais, Offer a Thac

30. Bydd pob rhan o'r harnais sydd yn cael ei ddefnyddio i dynnu anifeiliaid yn cael ei gadw mewn cyflwr da fel bod yr anifail wedi ei glymu yn ofalus ac o dan reolaeth. Mae olwynion sbâr i'w cludo a goleuadau i'w gosod ar y car os oes angen ei ddefnyddio gyda'r nos.
31. Rhaid bod y tac yn ffitio'r ceffyl yn briodol fel nad yw'n achosi poen, trallod neu'n rhwbio yn erbyn y ceffyl. Dylid gwirio'r harnais a'r tac yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn a'n ddiogel. Os ceir unrhyw amheuaeth am ddiogelwch neu addasrwydd y cyfarpar, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ymgynghori milfeddyg neu arbenigwr car, a bydd rhaid i'r ymgeisydd neu'r deiliad swydd i dalu am hyn.

Atodiad 23

Tuk Tuks, Rickshaws Trydan a Seiclo (pedicabs)

O ran Tuk Tuks, Rickshaws Trydan a Seiclo (pedicabs), nid yw'r cerbydau yma yn disgyn o fewn meini prawf y Polisi yma, ac o'r herwydd, efallai y bydd yr amodau canlynol yn berthnasol.

Cyfngiadau o ran Defnydd

1. Bydd ceisiadau am Tuk Tuks, Rickshaws Trydan a Seiclo (pedicabs) yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio ar gyfer eu hystyried, er mwyn eu caniatáu iddynt gael eu hystyried fel ceisiadau unigol.
2. Bydd y cerbyd ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer achlysuron arbennig a chontractau busnes sydd wedi eu trefnu o faen llaw. Ni fydd cerbydau sydd wedi eu trwyddedu ar gyfer y categori yma yn cael eu defnyddio ar gyfer eu hurio'n breifat bob dydd. Byddai'r cerbyd yn cael ei drwyddedu fel Cerbyd Hurio Preifat oni bai am rickshaws seiclo (pedicabs). Nid oes modd trwyddedu cerbydau 'non-motorised' fel cerbydau Hurio Preifat, yn unol ag Adran 48 (1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Er mwyn trwyddedu rickshaw seiclo (pedicabs) fel Cerbyd Cludo Hackney, rhaid i ymgeiswyr arddangos sut y maent yn bwriadu cydymffurfio gyda Pholisi Cerbydau Cario Hackney y Cyngor (cyn belled ag sydd yn ymarferol), ac mae hyn yn cynnwys ffioedd ac arwyddion ar y to.
3. Bydd y cerbyd wedi ei gyfyngu i deithio ar uchafswm o 30 milltir yr awr, gyda gofal penodol pan yn defnyddio cefnffyrdd. Ni fydd hawl defnyddio'r fath gerbydau ar ffyrdd deul neu'r draffordd.
4. Ni fydd hawl defnyddio'r cerbyd os yw'r tywydd yn effeithio ar sefydlogrwydd a'r defnydd a wneir o'r cerbyd, gan effeithio ar ddiogelwch.
5. Bydd yna gydymffurfiaeth gyda phob maen prawf yn y Polisi yma.
6. Mae'r defnydd o gerbydau ar gyfer priodasau ac angladdau wedi eu heithrio o'r angen i feddu ar drwydded yn unol gyda Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. O'r herwydd, nid oes modd ystyried y fath amodau ar gyfer y dibenion hyn.

Dyluniad y Cerbyd

7. Mae Tuk Tuks a Rickshaws, p'un ai eu bod yn cynnwys pedalau, yn rhai trydan neu'n meddwl ar injan 'two stroke', fel arfer yn meddu ar dair olwyn. Bydd y dyluniad yn golygu bod y gyrrwr yn y ffyrnt a'r teithwyr yn y cefn. Mae cerbydau Tuk Tuk yn meddu ar yr un dyluniad â Rickshaws Trydan a Seiclo (pedicabs). Fodd bynnag, mae Rickshaws yn aml yn llai ac ond yn medru cludo 1 neu 2 teithiwr yng nghefn y cerbyd.

8. O ran cyfrif capasiti y seddau yn y cerbyd, yr isafswm lled ar gyfer sedd y teithiwr yw 400mm.

Cludo Teithwyr

9. Ni fydd y nifer o deithwyr sy'n cael eu cludo yn uwch na'r nifer sydd ar y drwydded, a bydd hyn wedi ei nodi ar y drwydded ar blât y cerbyd.
10. Ni fydd hawl gan unrhyw berson i deithio drwy eistedd yng nghol unrhyw deithiwr arall. Rhaid i deithwyr i eistedd drwy gydol y daith a gwisgo gwregys drwy'r amser.
11. Nid oes hawl gan blant o dan 16 mlwydd oed i deithio yn y cerbyd oni bai bod yna oedolion priodol gyda hwy. Nid oes hawl gan blant o dan 4 mlwydd oed i deithio yn y cerbyd.
12. Ni fydd y gyrrwr yn cludo unrhyw anifail oni bai bod yr anifail yn berchen i'r teithiwr, a rhaid sicrhau bod yr anifail wedi ei osod yn ofalus gan ddefnyddio tennyn.

Dogfennau Ychwanegol Sydd Eu Hangen.

13. Bydd Tuk Tuks a Rickshaws Trydan sydd angen trwydded naill ai yn gorfod meddu ar 'European Whole Vehicle Type Approval' (EWVTA) neu'u cymeradwyo drwy'r 'Motorcycle Single Vehicle Approval' (MSVA), ac wedi cofrestru gyda'r 'Driver and Vehicle Standards Agency' (DVSA).
14. Rhaid i Rickshaws Seiclo gydymffurfio, os yn berthnasol, gyda'r canlynol:
 - a. Rheoliadau Seiclo Pedal (Adeiladwaith a Defnydd) 1983 a'r Rheoliadau Seiclo Pedal (Adeiladwaith a Defnydd) (Diwygiedig) 2015.
 - b. Rheoliadau Seiclo Pedal (Diogelwch) 2010.
 - c. Rheoliadau Seiclo Pedal a Gynorthwyr 1983 a'r Rheoliadau Seiclo Pedal a Gynorthwyr (Diwygiedig) 2015.

At hyn, bydd angen dwy lamp i'r cefn a dau adlewyrchwr i'r cefn; os yn briodol.

Mae'r Tuk Tuk a/neu Rickshaws hefyd yn gorfod cael eu hasesu a'u harolygu mewn garej sydd wedi ei gymeradwyo.

Ymddangosiad ac Ystyriaethau Meddygol

15. Rhaid bod y plât trwydded ar gyfer y cerbyd, sydd yn cael ei roi gan y Cyngor, yn cael ei osod ar gefn y cerbyd.
16. Rhaid bod Tuk Tuks a Rickshaws yn meddu ar wregys neu feltiau col a fydd yn ddigonol i gadw teithwyr yn ddiogel yn y cerbyd. Bydd y gwregys yn hygyrch i bob teithiwr a'n cael eu cadw yn ddiogel bob tro.
17. Rhaid bod Tuk Tuks a Rickshaws Trwyddedig gynnwys drysau ar gyfer y teithwyr ar ddwy ochr y cerbyd, gydag o leiaf un drws yn caniatáu i deithwyr fynd i mewn ac allan.

18. Ni fydd unrhyw beth, oni bai'r hyn sydd wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor, yn cael ei osod y tu mewn neu y tu allan i'r cerbyd.
19. Bydd y cerbyd mewn cyflwr da a'r gwaith paent yn lân ac wedi ei gynnal a'i gadw'n dda.
20. Rhaid bod Tuk Tuks a'r Rickshaws Trwyddedig yn cael eu cadw mewn cyflwr da, gyda'r tu fewn a thu allan yn lân a'r brêc yn gweithio'n effeithiol a phob dim arall yn cael ei gynnal a'i gadw drwy'r amser er mwyn atal unrhyw niwed i'r teithwyr neu fod unrhyw ddillad neu fagiau yn gwlychu. Rhaid bod y cervyd yn meddu ar declyn gwneud sŵn fel cloch neu gorn.
21. Rhaid bod Tuk Tuks a Rickshaws Trwyddedig yn meddu ar orchudd dros y to sydd yn medru dal dŵr. Rhaid bod hyn hefyd yn gorchuddio'r teithwyr. Rhaid bod y cerbydau yn cynnwys gorchudd glaw y mae modd ei dynnu yn ôl ac sydd hefyd yn gorchuddio dwy ochr y cerbyd a'r cefn a rhaid bod hyn yn ddiogel a'n medru gwrthsefyll y glaw. Rhaid bod y gorchuddion yma yn dryloyw fel bod y gyrrwr a'r teithwyr yn medru gweld allan o'r cerbyd yn hawdd.
22. Rhaid bod seddau'r cerbyd yn gyfforddus ac wedi eu gorchuddio; rhaid bod y celfi yma yn cael eu cadw'n lân a'n ddigonol ar gyfer cyfleuster y bobl sy'n eu cludo.
23. Bydd llawr y cerbyd wedi ei orchuddio mewn carped, mat neu ryw ddeunydd arall sydd yn addas, yn atal pobl rhag llithro ac sydd yn gadarn ac yn lân.
24. Rhaid bod unrhyw olwynion sydd yn agos i'r teithwyr yn cael eu gorchuddio er mwyn diogelu'r teithwyr a'u dillad.
25. Rhaid bod yr olwynion yn addas ar gyfer y llwyth sydd yn cael ei gludo a rhaid bod yna batrwm gweledol amlwg dros yr olwyn gyfan. Rhaid bod yna olwyn sbâr ac addas ar gael i'w defnyddio hefyd, neu fod system atgyweirio dros dro ar gael, ynghyd â'r teclynau a'r cyfarpar sydd eu hangen er mwyn gwneud atgyweiriadau brys i'r cerbyd.
26. Bydd cyflwr, gosod neu gyfeiriad y cebl trydanol yn cael eu trefnu mewn modd na sydd yn creu risg neu dân trydanol os oes yna ddigwyddiad.

Atodiad 24.

Polisi Trwyddedu Cerbydau Limousine

Efallai y bydd gofyn i Awdurdodau Trwyddedu Lleol i drwyddedu Cerbydau 'Limousine' estynedig fel Cerbydau Hurio Preifat. Ond dylid nodi fod llawer o Gerbydau Limousine yn Gerbydau PSV.

Os yw Limousine wedi ei fewnforio o wlad arall, bydd angen tystysgrif gymeradwy gan y VOSA. Yn hanesyddol, mae hyn wedi bod ar ffurf ar gyfundrefn arolwg 'Single Vehicle Approval' (SVA) cyn cael ei gofrestru yn y DU. Mae hyn yn cael ei adnabod nawr fel y Cynllun 'Individual Vehicle Approval' (IVA). Mae'r prawf yma yn cadarnhau bod y cerbyd wedi ei adeiladu yn unol gyda'r safonau diogelwch ac amgylcheddol angenrheidiol. Bydd y Cyngor yn disgwyl bod cerbydau sydd wedi eu mewnforio yn cwrdd â'r safon IVA a bydd angen tystiolaeth o hyn drwy gyfrwng V5C (Tystysgrif Cofrestru) y cerbyd, sydd o bosib yn cyfeirio at IVA o dan yr Adran "Nodyn Arbennig"; neu mae'n rhaid i'r Perchennog sicrhau cadarnhad ysgrifenedig gan:

VOSA, Ellipse, Heol Padley, Abertawe, SA1 8AN, fod y cerbyd yn cydymffurfio gyda IVA.

Bydd perchnogion angen manylion am wneuthuriad a model y cerbyd, rhif cofrestru a rhif VIN. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi o oedran y fath gerbydau, sef pum mlwydd oed fel arfer ar gyfer ceir sydd yn cael eu mewnforio i'r Deyrnas Unedig.

Atodiad 25.

Polisi Trwyddedu Cerbydau Gwahanol/Digwyddiadau Arbennig

Yn sgil natur unigol “cerbyd arbennig” gan gynnwys cerbydau sydd yn cludo cadeiriau olwyn, bydd hyn yn amlwg yn codi materion na sydd fel arfer yn berthnasol i Gerbydau Hurio Preifat confensiynol, ac felly, mae angen ystyried a oes angen gosod amodau arbennig ar unrhyw drwydded gan gynnwys eithriad o’r “polisi amgylcheddol”.

Cerbydau Angladd / Cerbydau Priodas

Nid oes angen trwyddedu cerbyd os caiff ei ddefnyddio yn unig ar gyfer angladd neu’n unig neu’n bennaf gan Ymgwymerwr Angladdau fel rhan o’i ddyletswyddau. Nid oes rhaid trwyddedu cerbyd os yw’n cael ei ddefnyddio’n unig ar gyfer priodasau.

Cerbydau ar Gontract

Tan Ionawr 2008, nid oedd angen trwyddedu cerbyd pan mae’n cael ei ddefnyddio ar gyfer contract gyda mudiad neu gwmni am gyfnod o leiaf saith diwrnod, a hynny ar gyfer cludo teithwyr neu wobwr fel rhan o gontract ar gyfer hurio’r cerbyd. Fodd bynnag, oedd yr eithriad yma ond yn berthnasol i’r cerbyd a’r gyrrwr sydd wedi ei nodi yn y contract ac yn ystod cyfnod y contract yn unig. Nid oes hawl defnyddio cerbyd sydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer un contract ar gyfer contract arall yn ystod cyfnod y contract gwreiddiol. Bydd cerbydau sydd yn gwneud contract ar ôl y cyfnod hwn angen trwydded gan y Cyngor er mwyn ymgymryd â’r gwaith; mae hyn yn cynnwys cludiant ysgol.

Polisi ar Gerbydau Digwyddiadau Arbennig: Gan Gynnwys Cerbydau Limousine, Cerbydau ar gyfer Cadeiriau Olwyn a Cherbydau ‘Prestige’

Mae’r elfen hon ond yn berthnasol at Gerbydau Hurio Preifat.

1. O ran y Polisi yma, mae ‘cerbyd digwyddiad arbennig’ yn golygu cerbyd sydd yn cael ei ddefnyddio at achlysur penodol neu achlysuron o natur gyfyngedig e.e. cludiant i bartïon ac nid yw’n gerbyd confensiynol a ddefnyddir ar gyfer gwaith Hurio Preifat safonol.
2. Mae enghreifftiau o gerbydau sydd o bosib yn disgyn o fewn y categori ‘Digwyddiad Arbennig’ yn cynnwys cerbydau Limousine estynedig, ceir clasurol, cerbydau sydd yn cynnwys llai na phedair sedd neu’n meddu ar ddarpariaethau ar gyfer cadeiriau olwyn fel lifft er mwyn codi’r gadair olwyn i mewn i’r car ayyb. Mae perchnogion y cerbydau ‘prestige’ sydd wedi eu trwyddedu fel cerbydau Hurio Preifat a’n cael eu defnyddio mewn amgylchiadau arbennig o bosib yn medru gofyn o’r Awdurdod i anwybyddu amodau yn eu trwydded sydd yn ymwneud ag arddangos platiau trwydded, sticeri ar y drws a bathodynau ar gyfer y gyrrwr.
3. Nid yw’r elfen hon o’r Polisi yn berthnasol i gerbydau sydd yn cael eu defnyddio yn benodol gydag angladdau a phriodasai, ac felly wedi eu heithrio o Drwyddedi Hurio Preifat.

4. Ni fydd yr Amodau Trwydded Cyffredinol ar gyfer Cerbydau Hurio Preifat fel arfer yn caniatáu cerbydau ar gyfer digwyddiadau arbennig i gael eu trwyddedu am nifer o resymau gan gynnwys steil a dyluniad i gerbyd a cheir "clasurol" sydd yn methu cwrdd â'r safonau.
5. Mae unrhyw gerbyd digwyddiad arbennig na sydd wedi ei gymeradwyom na sydd yn cwrdd â'r Rheoliadau Adeiladwaith a Defnyddio, neu na fyddai fel arall yn cwrdd ag amodau cerbyd Hurio Preifat safonol, yn medru gwneud cais am drwydded drwy ofyn am amrwydd neu eithriad o rai o'r amodau safonol a fyddai fel arall yn berthnasol.
6. Bydd pob cerbyd yn cael ei ystyried a'i asesu gan y **Rheolwr Trwyddedu** ar sail ei rinwedd gan ystyried:
 - cyflwr cyffredinol y cerbyd
 - nifer y teithwyr sydd angen eu trwyddedu ar gyfer y cerbyd
 - y meini prawf sydd i'w hanwybyddu
 - math o fynediad ar gyfer cadair olwyn (fer enghraifft, lifft yng nghefn y cerbyd)
 - math o Waith neu Gontract y bydd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio
 - ystyriaeth gyntaf y Cyngor fydd diogelwch y cyhoedd a'r ffaith eu bod yn gysurus tra'n teithio.

Amodau Cerbydau Limousine

Bydd y set canlyno o amodau yn cael eu hatodi i'r cerbydau Limousine estynedig:

1. Mae hawl i'r cerbydau Limousine i gael eu gyrru ar yr Ochr Dde neu'r Ochr Chwaith.
2. Mae'r rhan fwyaf o gerbydau Limousine yn cael eu mewnfurio o'r UDA ac mae angen i'r gyrrwr eistedd ar yr ochr chwith. Mae'r Adran Drafndiaeth wedi awgrymu na ddylai Cynghorau wrthod trwyddedu cerbydau Limousine gan eu bod yn meddu ar nodweddion sydd yn tramgwyddo eu Polisi cyfredol h.y. mae'r gyrrwr yn eistedd ar yr ochr chwith. Bydd cerbydau Limousine sydd yn cynnwys seddi yn wynebu'r ochr hefyd yn cael eu caniatáu.
3. Un nodwedd amlwg o gerbydau Limousine yw'r seddi sydd yn wynebu'r ochr. Yn unol gyda chanllawiau'r Adran Drafndiaeth a amlinellir uchod, bydd y Cyngor yn ystyried addasrwydd y cerbyd Limousine gyda seddi i'r ochr ar gyfer Trwyddedu. Rhaid bod y cerbyd yn meddu ar wregys ar gyfer pob teithiwr.
4. Ni fydd angen i'r Limousine i arddangos lifrai'r Cyngor ond bydd angen arddangos plât Hurio Preifat y Cyngor (Mae'r plât yn help gwahaniaethu Cerbydau Hurio Preifat o geir arferol a bydd Cerbydau Hackney fel bod modd i'r cerbydau eu hadnabod yn hawdd. Fodd bynnag, mae'n annhebygol fod y cyhoedd yn mynd i gymhlethu cerbydau Limousine estynedig gyda Cherbyd Hackney neu gerbyd defnydd preifat).
5. Bydd cerbydau Limousine gyda ffenestri sydd wedi eu tintio yn dywyll iawn yn y cefn ac ar hyd yr ochrau yn cael eu hystyried ar gyfer eu Trwyddedu. Fodd bynnag, nid oes hawl defnyddio ffenestri wedi eu tintio ble mae'r gyrrwr yn eistedd yn unol gyda'r gofynion cyfreithiol. Rydym yn cydnabod fod y preifatrwydd a ddaw o'r gwydr tywyll yn nodwedd adnabyddus o'r cerbydau Limousine. Fodd bynnag, rhaid i'r gwydr ger y gyrrwr gydymffurfio gyda'r Rheoliadau Cerbydau Ffordd (Adeiladwaith a Defnyddio) 1986 fel y'i diwygir.

6. Bydd angen i gerbydau Limousine i feddu ar Dystysgrif Single Vehicle Approval (SVA) dilys neu dystysgrif IVA. (Mae'r prawf SVA neu IVA yn cynnwys asesiad gweledol o'r cerbyd ac yn cadarnhau ei fod yn ddiogel ac yn addas ar gyfer yr heolydd).
7. Rhaid bod y cerbyd Limousine yn meddu ar olwynion sydd yn cwrdd â'r manylebau maint a phwysau. (Yn sgil y cynnydd ym mhwysau'r cerbyd, rhaid bod olwynion o'r main a'r pwysau cywir yn cael eu defnyddio drwy'r amser).
8. Ni ddylid defnyddio unrhyw seddi sydd ger y gyrrwr i gludo teithwyr (Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw teithwyr yn cael eu cludo ym mlaen y cerbyd fel bod y gyrrwr a'r teithwyr yn parhau'n ddiogel).
9. Mewn unrhyw hysbysiad sydd yn hyrwyddo'r gwasanaeth Limousine, rhaid bod y Gweithredwr yn datgan fod y cerbyd ond wedi ei drwyddedi i gludo hyd at 8 person. Mae hyn er mwyn hysbysu'r cwsmeriaid o'r cyfyngiad yma).
10. Mae diodydd alcoholig sydd yn cael eu darparu yn y cerbyd yn cael eu gwneud o dan delerau'r drwydded briodol o dan y Ddeddf Drwyddedu 2003 sydd yn ymwneud gyda gwerthu a chyflenwi alcohol. Er mwyn cydymffurfio gyda'r gofynion trwyddedu a'n gofalu am y cyhoedd, bydd poteli alcohol yn cael eu gosod mewn lle diogel a dylent gael eu tynnu oddi yno os yw'r teithiwr o dan 18 mlwydd oed. Rhaid bod unrhyw wydrau a ddefnyddir yn y cerbyd naill ai wedi eu gwneud o wydr 'shatterproof' neu blastig (gofalu am y cyhoedd).
11. Ni fydd y gyrrwr yn chwarae neu'n cynnal unrhyw berfformiad sydd, o feddwl am y cynnwys, yn anaddas ar gyfer oedran y teithwyr yn y cerbyd. (Mae hyn er mwyn diogelu plant sydd yn teithio yn y cerbyd rhag edrych ar ddeunydd addas).
12. Os yw'r cerbyd Limousine yn parcio er mwyn darparu rhyw fath o adloniant sydd wedi ei rheoleiddio ar gyfer teithwyr, rhaid gwneud hyn yn unol gyda gofynion Deddf Trwyddedu 2003.
13. Nid oes modd trwyddedu unrhyw gerbyd sydd wedi ei adeiladu neu ei addasu i gludo mwy na wyth teithiwr fel cerbyd Hurio Preifat.
14. Yn sgil natur unigol y cerbyd Limousine, mae'n mynd i arwain at faterion na sydd fel arfer yn berthnasol i Gerbydau Hurio Preifat, ac felly, bydd angen ystyried a ddylid ychwanegu amodau arbennig ar y drwydded. Bydd y Rheolwr Trwyddedu yn cadarnhau unrhyw amgylchiadau arbennig ychwanegol. Os nad yw'r Perchennog yn fodlon gyda'r amodau arfaethedig, bydd y mater yn cael ei glywed a'i bennu gan y Panel Trwyddedu.

Amodau Cerbydau Moethus

15. Mae Cerbydau Moethus sydd am gael eu heithrio o'r angen i arddangos platiau trwydded yn gorfod cydymffurfio gydag Amodau Hurio Preifat ac eithrio'r angen sydd yn ymwneud gyda'r plât (Lifrai).
16. Rhaid bod cerbydau o dan 7 mlwydd oed er y bod cerbydau hyn yn medru cael eu hystyried gan y Rheolwr Trwyddedu, a bydd hyn yn caniatáu hen geir ac unigryw i dderbyn trwydded.
17. Rhaid bod y cerbyd o safon benodol o gysur ac yn cyfateb i'r hyn a ddisgwyllir mewn cerbydau modur moethus (Efallai bod ceir mwy moethus eto a cheir MPV o wneuthurwyr eraill hefyd yn cael eu hystyried e.e. Mercedes Vito).

18. Ni chaniateir hysbysebu ar neu yn y cerbyd ar unrhyw adeg.
19. Rhaid bod gyrrwr y cerbyd yn gwisgo'n briodol ar gyfer yr achlysur ffurfiol (siaced, trowsus neu sgürt) ac esgidiau ffurfiol. Nid oes hawl gan y gyrrwr i wisgo dillad hamddenol.
20. Mae natur unigol y digwyddiadau arbennig yn mynd i arwain at faterion na sydd fel arfer yn berthnasol i Gerbydau Hurio Preifat, ac felly, bydd angen ystyried a ddylid ychwanegu amodau arbennig ar y drwydded. Bydd y Rheolwr Trwyddedu yn cadarnhau unrhyw amgylchiadau arbennig ychwanegol. Os nad yw'r Perchennog yn fodlon gyda'r amodau arfaethedig, bydd y mater yn cael ei glywed a'i bennu gan y Panel Trwyddedu.
21. Byddwn yn caniatáu defnyddio Cerbydau Prestige ar gontractau ysgol.

Dylid nodi fod Perchnogion / Gweithredwyr sydd yn tramgwyddo'r amodau uchod yn colli eu statws "gweithredol" Am gyfnod o 12 mis gan y Rheolwr Trwyddedu a bydd y cerbyd yn cael ei atal tan fod y cerbyd(au) yn cydymffurfio gyda'r Amodau Cerbydau Hurio Preifat.

Atodiad 26.

Y Broses Gais ar gyfer Gweithredwyr Hurio Preifat

Rhaid gwneud cais am drwydded Gweithredwr Hurio Preifat ar y ffurflen benodol. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn danfon gohebiaeth at berchnogion y cerbyd ar e-bost, er y dylid nodi mai cyfrifoldeb y Gweithredwr yw sicrhau bod unrhyw drwyddedau yn cael eu hadnewyddu mewn modd amserol.

Er mwyn caniatáu digon o amser i brosesu'r dogfennau, dylai ymgeiswyr sicrhau bod yr Awdurdod Trwyddedu yn derbyn eu cais, gan gynnwys ffi ac unrhyw ddogfennaeth briodol, o leiaf 28 diwrnod cyn dyddiad dod i ben y drwydded gweithredwr.

Mae'r holl Geisiadau a chanllawiau eraill ar gael yn www.monmouthshire.gov.uk/licensing/taxi-licence .

Atodiad 27

Amodau Trwydded ar gyfer Gweithredwyr Hurio Preifat

- 1.1 Rhaid i'r Gweithredwr gynnal gwiriadau digonol er mwyn bodloni eu hunain mai ond gyrwyr addas sydd yn cael eu defnyddio (ac yn parhau i gael eu defnyddio) fel rhan o'u busnes. Bydd hyn yn cynnwys gwirio a chymryd copi o drwydded gyrrwr y Cerbyd Hackney neu'r Cerbyd Hurio Preifat cyn bod y gyrrwr yn dechrau cludo unrhyw un. Os yw Gweithredwr yn methu cynnal y fath wiriadau, bydd hyn yn ein hachosi i gwestiynu ffitrwydd ac addasrwydd y Gweithredwr. At hyn, mae methu cymryd camau yn erbyn gyrwyr sydd yn tramgwyddo amodau'r drwydded yn gyson hefyd yn medru bod yn ddiffygiol i ffitrwydd a phriodoldeb y gweithredwr.
- 1.2 Os yw Gweithredwr yn diswyddo Gyrrwr, rhaid hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu o hyn a'r rhesymau dros wneud hyn o fewn 48 awr.
- 1.3 Rhaid i'r Gweithredwr hysbysu'r Swyddog Trwyddedu, yn ysgrifenedig, o fewn 5 diwrnod gwaith os yw ef/hi, neu unrhyw gyfarwyddwr cwmni, neu unrhyw un ar y ffurflen gais yn :
 - a) newid cyfeiriad cartref
 - b) os yw cwmni neu bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn newid ei gyfeiriad cofrestredig
 - c) os oes unrhyw newidiadau i berchnogaeth/rheolaeth/partneriaeth y cwmni fel sydd wedi ei nodi ar eich ffurflen gais. Nodwch y bydd angen i unrhyw berchnogion newydd neu bartneriaid ychwanegol i feddu ar wiriad sylfaenol o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Ni fydd modd trosglwyddo trwydded y Gweithredwr tan fod yr Awdurdod Trwyddedu wedi derbyn copi o hyn.
 - d) os yw cyfarwyddwr neu berson cyfrifol enwebedig yn gadael y rôl hon
- 1.4 Rhaid bod y Gweithredwr yn hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu os ydynt hwy neu'r person sydd yn rhedeg y busnes yn mynd i fod yn absennol o'r gwaith am gyfnod hwy na 2 fis dilynol. Wrth wneud hyn, rhaid i'r Gweithredwr roi enw'r person a fydd yn gyfrifol am redeg y busnes ar ei ran yn ystod y cyfnod hwn.
- 1.5 Ni ddylai'r Gweithredwr ddefnyddio, neu hwyluso, unrhyw feddalwedd, technoleg neu unrhyw ddyfais arall sydd yn medru effeithio ar weithgareddau cyfreithlon yr asiantaethau gorfodi neu weithgarwch rheoleiddio'r Awdurdod Trwyddedu.
- 1.6 Rhaid i'r Gweithredwyr gydymffurfio gyda phob cais rhesymol a wneir gan swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu.

2. System Gwyno

- 2.1 Rhaid bod Gweithredwyr Hurio Preifat neu gynrychiolydd sydd wedi ei apwyntio yn cynnal ymchwiliad i unrhyw gwyn sydd wedi ei dderbyn gan aelod o'r cyhoedd, a hynny o fewn 48 awr ar ôl derbyn y gwyn.

2.2 Rhaid bod y Gweithredwr yn cynnal cofrestr o gwynion (digidol neu gopi caled) sydd yn gorfod cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- a. Enw, cyfeiriad/cyfeiriad -e-bost yr unigolyn sydd yn gwneud y gwyn
- b. Dyddiad y gwyn
- c. Dyddiad ac amser y digwyddiad honedig
- d. Dyddiad ac amser y derbyniodd y Gweithredwr y gwyn
- e. Sut y derbyniwyd y gwyn e.e. ffôn, e-bost ayyb
- f. Enw'r person sydd wedi derbyn y gwyn
- g. Enw'r person sydd yn cael ei gyhuddo
- h. Os yw'r gwyn wedi ei derbyn drwy'r Awdurdod Trwyddedu – dyddiad ac amser y derbyniwyd y gwyn a gan bwy.
- i. Manylion y camau a gymerwyd er mwyn datrys y gwyn a gan bwy.
- j. Dyddiad y cafodd y gwyn ei datrys.

2.3 Rhaid bod copi o'r gofrestr cwynion ar gael i'w harolygu ar gais Swyddog Awdurdodedig o'r Awdurdod Trwyddedu. Rhaid cadw'r cofnodion am 12 mis.

2.4 Ar ôl derbyn cwyn am yrrwr Trwyddedug, rhaid bod y Gweithredwr yn hysbysu'r sawl sydd yn cwyno i gyfeirio eu cwyn i'r Awdurdod Trwyddedu.

2.5 Bydd y Gweithredwr yn sicrhau bod y manylion ynglŷn â sut i gwyno i'w gweld ar wefan y Gweithredwr, ap archebu cerbyd neu os na cheir platfform digidol at y diben hwn, yn y swyddfa.

2.6 Os yw cwyn wedi ei derbyn gan yr Awdurdod Trwyddedu, rhaid bod y Gweithredwr yn cydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol am wybodaeth a/neu'n dilyn unrhyw gyfarwyddiadau a wneir gan Swyddog Awdurdodedig neu swyddog heddlu ynglŷn â'r gwyn.

2.7 Rhaid i'r Gweithredwr hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu o fewn 48 awr os yw Gweithredwr yn derbyn cwyn am yrrwr sydd yn ymwneud ag unrhyw un o'r canlynol:

- a) cyhuddiad o gam-ymddwyn rhywiol (gan gynnwys ieithwedd amhriodol)
- b) ymddygiad hiliol
- c) trais (gan gynnwys bod yn ymosodol ar lafar)
- d) anonestrwydd gan gynnwys dwyn
- e) tramgwyddo cydraddoldeb
- f) unrhyw gam-ymddwyn arall (gan gynnwys troseddau sydd yn ymwneud gyda moduron fel gyrru'n beryglus neu yfed a gyrru).

3. Cofnodion Gyrrwr a Cherbydau

3.1 Rhaid i'r Gweithredwr gynnal cofnodion cyfredol sydd yn medru cael eu rhannu yn syth gydag unrhyw Swyddog Awdurdodedig o'r Awdurdod Trwyddedu neu'r heddlu:

- a) enw a chyfeiriad cartref pob gyrrwr cerbyd Hurio Preifat sydd yn cael ei reoli ganddo
- b) manylion gan gynnwys rhif trwydded a dyddiad dod i ben trwydded pob gyrrwr Hurio Preifat sydd yn cael ei reoli ganddo.
- c) Enw a chyfeiriad cartref bod Perchennog cerbyd Hurio Preifat e sydd yn cael ei reoli ganddo.
- d) Manylion gan gynnwys rhif plât trwydded Hurio Preifat a'r dyddiad dod i ben a rhif gofrestru'r cerbyd, a hynny ar gyfer pob cerbyd Hurio Preifat sy'n cael ei reoli ganddo

4. Gwiriadau gan y Gwasanaeth datgelu a Gwahardd

4.1 Rhaid i bawb sydd yn gwneud cynnig am drwydded Gweithredwr Hurio Preifat newydd neu am adnewyddu trwydded rannu gwiriad sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (yn ddyddiedig o fewn un mis o'r cais) er mwyn bodloni'r Awdurdod ei fod ef yn berson 'ffit a phriodol'. Os ceir apwyntiad gan gwmni neu mudiad, rhaid i holl gyfarwyddwyr y cwmni mudiad ddarparu gwiriad sylfaenol. Rhaid i'r ymgeiswyr/deiliad i drwydded dalu am hyn.

4.2 Wedi caniatáu trwydded, rhaid i ddeiliad y drwydded rannu gwiriad sylfaenol newydd gyda'r Awdurdod Trwyddedu yn flynyddol.

4.3 Mae ymgeiswyr sydd eisoes yn meddu ar drwydded yrru Cerbyd Hackney neu Gerbyd Hurio Preifat ddarparu'r gwiriad sylfaenol fel rhan o'r cais am drwydded gweithredwr Hurio Preifat. Cyn belled a bod y deiliad swydd yn meddu ar drwydded yrru Cerbyd Hackney neu Gerbyd Hurio Preifat gyda'r awdurdod hwn, nid oes rhaid iddynt gyflwyno gwiriad yn flynyddol.

4.4 a) Dylai'r Gweithredwr fedru edrych ar dystysgrif GDG sylfaenol (yn ddyddiedig o fewn mis ar ôl y gwiriad) ar gyfer staff sydd yn cael mynediad at gofnodion archebu teithio neu os ydynt yn cyfarwyddo'r cerbydau.

b) Rhaid bod y Gweithredwr yn cynnal cofrestr o'r staff yma sydd yn cynnwys pryd y cafodd pob gwiriad GDG ei gynnal. Rhaid bod y gofrestr ar gael i'w harolygu gan Swyddog Awdurdodedig o'r Awdurdod Trwyddedu ar gais. Dylai'r gofrestr gynnwys y canlynol:

- i. dyddiad y dechreuodd y person yn y rôl
- ii. dyddiad yr oedd y gweithredwr wedi gwirio'r dystysgrif GDG
- iii. enw a'r person wnaeth wirio'r dystysgrif GDG
- iv. Tystysgrif GDG
- v. Dyddiad yr oedd y person wedi gadael y rôl.

c) Rhaid cadw'r gofrestr am o leiaf 12 mis yn unol gyda'r cofnodion archebu.

d) Os yw gweithiwr yn gadael y gofrestr ond yna yn ail-ymddangos ar y gofrestr, bydd angen i'r Gweithredwr fwrw golwg ar dystysgrif GDG newydd (neu ddefnyddio'r Gwasanaeth Diweddarau).

4.5 Os yw'r ymgeisydd/gweithredwr yn cyflogi neu'n bwriadu cyflog rhywun i gydlynw'r archebion neu gyfarwyddo'r cerbydau, rhaid i'r Gweithredwr rannu'r polisi ar gyflogi cyn-droseddwy'r yn y rôl hon. Rhaid bod y polisi ar gael i'w atolygu ar gais Swyddog Awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu.

4.6 Rhaid i'r Gweithredwr sicrhau bod yr holl staff sydd yn cydlynw'r archebion neu gyfarwyddo'r cerbydau yn rhoi gwybod iddynt o fewn 48 awr o unrhyw euogfarn, rhwymo, rhybudd, cosb neu os ydynt yn cael eu harestio am unrhyw fater troseddol tra'n ymgymryd â'r rôl hon.

4.7 Os yw'r gwaith o gydlynw'r archebion neu gyfarwyddo'r cerbydau yn cael ei ddirprwyo i rywun y tu allan i'r cwmni, rhaid i'r Gweithredwr sicrhau bod yna fesurau diogelu yn eu lle er mwyn amddiffyn plant ac oedolion bregus. Rhaid i'r Gweithredwr gael tystiolaeth o hyn o'r cyflenwr allanol cyn gadael i'r cyflenwr ymgymryd â'r gwaith.

5. Hysbysiad o Euogfarnau

5.1 O fewn 48 awr o gael ei arestio a'i rhyddhau, ac yna unrhyw euogfarn ddilynol, rhwymo, rhybudd, cosb neu os wedi cael ei arestio am unrhyw faterion troseddol neu foduro (boed bod yr unigolyn yn cael ei erlyn ai peidio) tra ei fod ef/hi yn meddu ar drwydded, rhaid i'r deiliad swydd hysbysu'r Awdurdod Trwydded gyda manylion llawn y mater dan sylw.

Yr hyn sydd angen ei adrodd:-

- a. Unrhyw euogfarn (materion troseddol neu foduro).
- b. Unrhyw rhybudd (sydd yn cael ei roi gan yr Heddlu neu unrhyw asiantaeth).
- c. Gŵys gan Lys Ynadon yn eich erbyn chi.
- d. Unrhyw hysbysiad cosb benodedig.
- e. Unrhyw aflonyddu neu unrhyw ffurf arall o rybudd neu orchymyn o fewn cyfraith droseddol gan gynnwys gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol neu debyg.
- f. Cael eich arestio am drosedd (p'un ai bod yr unigolyn yn cael ei erlyn ai peidio).
- g. Os caiff unigolyn ei ganfod yn ddieuog yn dilyn achos troseddol gerbron y llys
- h. Os yw'r unigolyn wedi methu sicrhau rhyw fath o drwydded gan awdurdod rheoleiddio arall neu os oes trwydded wedi ei hatal, dirymu neu'i hadnewyddu.

6. Eiddo Busnes

- 6.1 Rhaid bod y Gweithredwr yn darparu cyfeiriad yr eiddo o fewn yr Awdurdod Trwyddedu ble fydd y busnes yn cael ei redeg, a hynny i'r Awdurdod Trwyddedu.
- 6.2 Os caiff eiddo'r Gweithredwr ei ddefnyddio gan y choedd, rhaid ei fod yn cael ei gadw'n lân, wedi ei wresogi, ei awyru a'i oleuo.
- 6.3 Bydd y Gweithredwr yn sicrhau bod unrhyw fan aros ar gyfer teithwyr posib yn derbyn seddau digonol a'n cael eu cadw ar wahân o unrhyw yrwyr a'r ystafell weithrediadau.
- 6.4 Bydd trwydded Gweithredwr Hurio Preifat yn gorfod cael ei dangos mewn sefyllfa amlwg o unrhyw eiddo lle y mae'r Gweithredwr yn gweithio. Bydd unrhyw fanylion personol fel cyfeiriad cartref yn medru cael eu dileu cyn arddangos y copi.
- 6.5 Bydd y Gweithredwr yn darparu copi o amodau'r drwydded i'r cyhoedd ar gais.

7. Cofnodion Archebu

- 7.1 Rhaid bod y Gweithredwr yn cadw cofnod o bob archeb Hurio Preifat yn ysgrifenedig mewn llyfr sydd yn meddu ar rifau tudalennau dilynol neu system gyfrifiadurol a system anfon.
- Os defnyddir llyfr, rhaid bod yr holl gofnodion yn glir, yn yr iaith Saesneg, yn hawdd ei ddarllen, heb unrhyw ofodau rhwng y llinellau a thudalennau gwag.
- Os defnyddir system gyfrifiadurol, rhaid medru argraffu cofnodion ar gais y Swyddog Awdurdodedig neu'r heddlu bob tro.
- 7.2 Ar gyfer pob un daith sydd yn cael ei chadarnhau, bydd yna gofnod yn cael ei rhoi yn y llyfr neu'r system gyfrifiadurol a'r system anfon sydd yn cynnwys:
- a) Enw'r person sydd yn gwneud y cofnod (os na wneir hyn gan system gyfrifiadurol)
 - b) Amser a dyddiad y gwnaed yr archeb
 - c) Enw'r person y mae'r archeb ar ei gyfer
 - d) Manylion cyswllt y person y mae'r archeb ar ei gyfer (cyfeiriad e-bost neu ffôn mudol)
 - e) Dyddiad ac amser casglu, ac os oes angen casglu mwy nag un person, amser a dyddiad y man casglu cyntaf
 - f) Y lleoliad – fel isafswm, dylai hyn gynnwys enw'r stryd /neu adeilad a'r ardal bost. Os yn bosib, dylid cynnwys y cod post llawn.

- g) Amser y cwblhawyd y daith
- h) Cyfanswm y gost y daith sydd wedi ei chwblhau
- i) Enw gyrrwr y Cerbyd Hackney/Cerbyd Hurio Preifat
- j) Rhif trwydded gyrrwr y Cerbyd Hackney/Cerbyd Hurio Preifat
- k) Rhif cofrestru'r cerbyd sydd yn gysylltiedig gyda'r archeb
- l) Enw'r unigolyn a oedd wedi ymateb i'r cais am gerbyd
- m) Enw'r person a wnaeth ddanfôn y cerbyd (os na chaiff ei ddanfôn gan system gyfrifiadurol)
- n) Os yn berthnasol, enw unrhyw weithredwr arall a oedd wedi trefnu'r archeb a/ neu'r person a drefnodd yr archeb.

7.3 Mae ond hawl gwneud diwygiad o'r cofnod gwreiddiol drwy gyfrwng ychwanegiad.

7.4 Rhaid cadw cofnodion unrhyw archebion Hurio Preifat, boed mewn llyfr neu fformat digidol, am o leiaf 12 mis o ddyddiad y cofnod olaf ond rhaid ei fod ar gael i'w rannu gyda Swyddog Awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu'r heddlu er mwyn ei arolygu ar unrhyw adeg pan fydd y gwasanaeth ar gael.

8. Data Personol

Os caiff unrhyw ddata personol ei golli drwy ddwyn neu fel arall, rhaid hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu yn ysgrifenedig o fewn 24 awr, gan wneud hyn yn syth i'r heddlu os ydych yn amau fod y manylion wedi eu dwyn. Efallai bod angen hysbysu'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth hefyd – am fwy o wybodaeth, ewch :

<https://ico.org.uk/for-organisations/report-a-breach/>

9. Yswiriant

9.1 Rhaid i Weithredwyr sicrhau drwy'r amser, ar gyfer Cerbydau Hurio Preifat, fod yna bolisi yswiriant sydd yn berthnasol i deithwyr sydd yn cael eu cludo neu ar gyfer y sawl sydd yn trefnu taith o flaen llaw, a hynny yn unol gyda gofynion Rhan VI o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988.

9.2 Rhaid bod Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ar gyfer unrhyw eiddo sydd yn darparu mynediad i aelodau o'r cyhoedd.

9.3 Os yw cerbyd wedi ei yswirio o dan bolisi yswiriant fflyd, rhaid i'r Gweithredwr sicrhau bod gyrrwyr yn ymwybodol o gynnwys y polisi, gan gynnwys ei gyfyngiadau ac eithriadau. Rhaid i'r Gweithredwr gadw cofnod, wedi ei arwyddo gan y gyrrwr, o fewn cofnod unigol pob gyrrwr, bod hyn wedi ei gwblhau. Rhaid medru rhannu cofnod unrhyw unigolyn, ar gais, i unrhyw Swyddog Awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu.

10. Rhannu Teithiau/Ceir

10.1 Wrth drefnu cerbyd, bydd angen gwneud teithwyr yn ymwybodol a'u bod yn rhoi eu caniatâd i fod yn rhan o daith a rennir/ceir a rennir.

10.2 Fel rhan o gynlluniau teithiau/ceir a rennir, rhaid i'r Gweithredwr gynnig yr opsiwn i deithwyr i rannu cerbyd gydag eraill o'r un rhyw. Os yw'r person yn dewis yr opsiwn yma, nid oes modd ychwanegu pobl o'r rhyw arall i'r daith.

11. Safonau Gwasanaeth

11. Rhaid bod y Gweithredwr yn cynnig gwasanaeth prydlon, effeithlon a dibynadwy i aelodau o'r cyhoedd ar adegau rhesymol a rhaid felly:

- a) Darparu gwybodaeth ddigonol a thechnoleg cyfathrebu, cyfleusterau a staff fel sydd yn briodol.
- b) Sicrhau'r lefel uchaf o wasanaeth a gofal cwsmer
- c) Yn sicrhau bod cerbyd, sydd wedi ei drefnu ar gyfer amser a lle penodol, yno erbyn yr hyn a gytunir oni bai bod yna oedi neu reswm digonol.
- d) Sicrhau bod unrhyw gyfleusterau ffôn a chyfarpar radio (efallai bod angen trwydded Radio OFCOM) yn cael eu cynnal mewn cyflwr da a bod unrhyw ddiffygion yn cael eu cywiro'n syth.

12.1. Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus

12.1 Nid oes hawl defnyddio Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer unrhyw deithiau fel Cerbydau Hurio Preifat, oni bai bod y teithiwr wedi cytuno i hyn.

Nodiadau

- I. Dylid darllen yr amodau yma mewn cydweithrediad gyda Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.
- II. Rhaid i Weithredwyr gynnal eu busnes yn unol gyda'r darpariaethau statudol perthnasol. Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth iechyd, diogelwch a lles, deddfwriaeth amgylcheddol a deddfwriaeth cydraddoldeb.
- III. Rhaid i Weithredwr beidio methu neu wrthod derbyn archeb ar ran person anabl sydd yn meddu ar 'gi cymorth' pan mai'r rheswm dros wneud hyn yw bod y person anabl yn teithio gyda'r 'ci cymorth'.
- IV. Mae methu datgan unrhyw euogfarn o fewn y terfyn amser angenrheidiol, a natur y drosedd sydd wedi ei chyflawni, yn cael ei ystyried wrth bennu a yw deiliad trwydded yn berson ffit a phriodol i ddal trwydded Cerbyd Hackney cerbyd Hurio Preifat. Mae hyn yn medru arwain at atal, dirymu neu wrthod adnewyddu trwydded gyrru Hurio Preifat.
- V. Gall dramgwyddo unrhyw un o amodau'r drwydded arwain at atal neu ddirymu'r drwydded.

- VI. Mae unrhyw berson sydd yn anhapus gyda'r amodau yn y drwydded yn medru apelio i'r Llys Ynadon o fewn 21 diwrnod ar ôl derbyn y drwydded.
- VII. Dylid gwneud cais i adnewyddu'r drwydded o flaen llaw er mwyn sicrhau cysondeb. Nid oes yna gyfnod gras. Mae gweithredu cerbydau Hurio Preifat heb drwydded yn drosedd.

Rhaid i'r holl weithredwyr gydymffurfio gyda'r Ddeddf Diogelu 2018 a chofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Atodiad 28

Cynllun Pwyntiau Cosb

Dyddiad Cyhoeddi: ____/____/____

Amser: _____

Lleoliad: _____

CH / HP: _____

Cofrestriad y Car: _____

Cwmni: _____

Gyrrwr: _____

Rhif Bathodyn: _____

-
- | | | | |
|--|--------------------------|---|--------------------------|
| Methu gwisgo Bathodyn Gyrrwr (3) | ☐ | Gyrru ag olwynion anghyfreithlon (4) | ☐ |
| Dim Pecyn Cymorth Cyntaf (2) | ☐ | Nid yw'r Platiau Trwydded yn cael eu harddangos (4) | ☐ |
| Methu cyflwyno Yswiriant (3) | ☐ | Methu cyflwyno tystysgrif prawf (3) | ☐ |
| Methu cyflwyno trwydded yrru (3) | ☐ | Methu cadw cofnodion cywir (4) | ☐ |
| Gwrthod rhannu cofnodion gyda'r swyddog (6) | ☐ | Gormod o deithwyr (6) | ☐ |
| Methu rhoi gwybod am newid cyfeiriad (2) | ☐ | Dim olwyn sbâr/cyfarpar atgyweirio (2) | ☐ |
| Defnyddio ffôn mudol tra'n gyrru (heb ddefnydd offer llawrydd) (3) | ☐ | | |

Cyfanswm y pwyntiau _____

Pan fydd 12 pwynt neu fwy yn cael eu rhoi i Yrrwr/Perchennog/Gweithredwr o fewn 12 mis, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedi gyda'r bwriad i atal, dirymu neu wrthod adnewyddu'r fath drwydded.

Nodiadau yn dilyn arolwg: _____

Llofnod y Swyddog Awdurdodedig: _____

Llofnod y Gyrrwr/Perchennog/Gweithredwr: _____

Dyddiad: ____/____/____